TAG UG/SAFON UWCH

TAG UG/SAFON UWCH CBAC

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

## MANYLEB

Addysgu o 2016

I'w ddyfarnu o 2017 (UG)
I'w ddyfarnu o 2018 (Safon Uwch

Fersiwn 5 Ionawr 2025




Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Mân newidiadau i gynnwys Uned 4, Crefydd a Moeseg, Thema 4, Ewyllys Rydd, isadran A<br><br>Gwadu safbwynt Calvin ar ragordeiniad. | 72 |
| | Mân newidiadau i deitl Uned 5, Athroniaeth Crefydd, Thema 3, Iaith grefyddol (rhan 1), isadran B i egluro'r hyn mae'r isadran yn canolbwyntio arno:<br><br>Iaith grefyddol yn wybyddol (safbwynt crefyddol traddodiadol) ond yn ddiystyr (safbwynt Positifwyr Rhesymegol). | 76 |
| 3 | Ychwanegwyd y term traws-sylweddiad i gynnwys dysgeidiaeth swyddogol Eglwys Rufain am yr Ewcharist | 13 |
| | Mae sillafiad Chakko wedi'i newid i Chhako | 32 |
| | Rydym wedi newid y cyfeiriad at safbwynt Stirner o 'hunan-les sydd wrth wraidd pob gweithred ddynol hyd yn oed os yw'n ymddangos yn allgarol' i 'ai hunan-les sydd wrth wraidd pob gweithred ddynol hyd yn oed os yw'n ymddangos yn allgarol?' | 35 |
| | Rydym wedi newid 'artha shastras' i 'yr Arthashastra' ac wedi newid y pwynt bwled cyntaf dan 'materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso' yn Uned 3, Opsiwn E i:<br>• ISKCON fel 'ymraniad' o Hindŵaeth 'draddodiadol'. | 61 |
| | Cafodd mân newidiadau eu gwneud hefyd i Uned 4 i egluro:<br>• un o'r Naw Gofyniad Rheswm Ymarferol yn fersiwn Finnis o'r Ddeddf Naturiol<br>• bod Hoose wedi crynhoi'r ddadl Gyfranoliaeth | 70 |
| | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll. | 85 |
| 4 | Gwnaed mân newidiadau i'r tudalennau canlynol yn y fanyleb, fel a ganlyn:<br>• *Catuvarnashramadharma* **i** *Caturvarnashramadharma*<br>• *cyfnodau o ddatblygiad ar lwybr goleuedigaeth gan gynnwys cyfnod Saram Khand, teyrnas ymdrech a theyrnas gras* **i** *cyfnodau o ddatblygiad ar lwybr goleuedigaeth gan gynnwys cyfnod Saram Khand (teyrnas ymdrech ysbrydol a Karam Khand (teyrnas gras);*<br>• *Arwyddocâd traddodiad y sant ar gyfer Sikhiaid heddiw* **i** *Arwyddocâd traddodiad y Sant Sipahi ar gyfer Sikhiaid heddiw*<br>• *yn coffáu sefydlu'r frawdoliaeth Sikhaidd gan Guru Gobind Singh* **i** *yn coffáu sefydlu'r Khalsa Sikhaidd gan Guru Gobind Singh*<br>• *Heriau Cristnogion yn mudo i, ac o fewn, y DU* **i** *Heriau Cristnogion yn mudo i'r DU*<br>• *Teithiau cenhadol Guru Arjan i ranbarth Manjha* **i** *Teithiau cenhadol Guru Arjan i ranbarth Majha*<br>• *Perthynas ffeministiaeth ag athroniaeth grefyddol Sikhaidd – yn cydnabod bod dynion a menywod yn gyfartal, ond bod ganddynt eneidiau gwahanol* **i** *Perthynas ffeministiaeth ag athroniaeth grefyddol Sikhaidd – yn cydnabod bod dynion a menywod yn gyfartal, ond bod ganddynt rolau gwahanol.* | 28<br>31<br>32<br>33<br>46<br>64<br>65 |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Gwnaed mân newidiadau i'r tudalennau canlynol yn y fanyleb:<br>• Newid *Cymhariaeth o safbwyntiau'r ysgolhaig Salafi Rashid Rida a'r ysgolhaig Islamaidd modernaidd Tariq Ramadan* **i** *Cymhariaeth o safbwyntiau'r ysgolhaig Salafi Rashid Rida a'r ysgolhaig Islamaidd Abdullahi Ahmed An-Na'im.*<br>• Newid *Cymharu gwahanol safbwyntiau ar y gosb eithaf: safbwynt ysgolheigaidd modernaidd – Tariq Ramadan; ysgolhaig Islamaidd traddodiadol – Sheikh Ahmad Ash-Sharabasi; ymateb James Rachels (ysgolhaig nad yw'n Islamaidd)* **i** *Cymharu gwahanol safbwyntiau ar y gosb eithaf: Naima Asif (Bargyfreithiwr); ysgolhaig Islamaidd traddodiadol – Sheikh Ahmad Ash-Sharabasi; ymateb James Rachels (ysgolhaig nad yw'n Islamaidd).* | 48, 51 |

# TAG UG a Safon Uwch CBAC ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

## I'w haddysgu o 2016
## UG i'w ddyfarnu o 2017
## Safon Uwch i'w dyfarnu o 2018

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2016.

**Tudalen**

**Crynodeb o'r asesu** **2**

1. **Rhagarweiniad** **4**
   - 1.1 Nodau ac amcanion 4
   - 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant 5
   - 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg 5
   - 1.4 Bagloriaeth Cymru 6
   - 1.5 Persbectif Cymreig 6

2. **Cynnwys y pwnc** **7**
   - 2.1 UG Uned 1 9
   - 2.2 UG Uned 2 34
   - 2.3 Safon Uwch Uned 3 43
   - 2.4 Safon Uwch Uned 4 68
   - 2.5 Safon Uwch Uned 5 73
   - 2.6 Safon Uwch Uned 6 78

3. **Asesu** **83**
   - 3.1 Amcanion asesu a phwysoli 83

4. **Gwybodaeth dechnegol** **85**
   - 4.1 Cofrestru **85**
   - 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl 87

WJEC CBAC Cyf.

# TAG UG a Safon Uwch mewn ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

## CRYNODEB O'R ASESU

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o bum uned, dwy uned UG a thair uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

**Unedau UG (y ddwy yn orfodol)**

**Uned 1: Cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud**
**15% o'r cymhwyster**

Mae'r uned hon yn cynnig y dewis i astudio **un grefydd** o **ddewis o chwech**:

| Opsiwn A: | Opsiwn B: | Opsiwn C: | Opsiwn D: | Opsiwn E: | Opsiwn F: |
|---|---|---|---|---|---|
| Cristnogaeth | Islam | Iddewiaeth | Bwdhaeth | Hindŵaeth | Sikhiaeth |

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o bedair thema grefyddol sylfaenol: ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 1), cysyniadau crefyddol, bywyd crefyddol ac arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 1).

Noder: Ac eithrio un dewis, rhaid i ddysgwyr Safon Uwch astudio yr un grefydd a ddewiswyd ar gyfer Uned 1 UG ar gyfer Uned 3 Safon Uwch.

Yr eithriad yw y gall dysgwyr sy'n astudio Uned 1 Opsiwn A: Cristnogaeth ar gyfer UG astudio **naill ai** Uned 3 Opsiwn A: Cristnogaeth **neu** Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd) ar gyfer Safon Uwch.

**Uned 2: Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg ac i Athroniaeth Crefydd**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud**
**25% o'r cymhwyster**

**Adran A: Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg**

Mae'r adran hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth eang a manwl o bedair thema foesegol sylfaenol: meddylfryd moesegol (rhan 1), Deddf Naturiol Aquinas, Moeseg Sefyllfa Fletcher ac Iwtilitariaeth.

**Adran B: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd**

Mae'r adran hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth eang a manwl o bedair thema athronyddol sylfaenol: dadleuon dros fodolaeth Duw – anwythol, dadleuon dros fodolaeth Duw – diddwythol, heriau i gred grefyddol (rhan 1) a phrofiad crefyddol (rhan 1).

**Unedau safon Uwch** (y ddwy uned UG a astudiwyd a thair uned bellach).

**Rhaid i ddysgwyr astudio:**

Uned 3, 4 a 5 neu, os ydynt wedi astudio Uned 1 Opsiwn A: Cristnogaeth, **naill ai** Uned 3, 4 a 5 **neu** Uned 4, 5 a 6.

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**
**20% o'r cymhwyster**

Mae'r uned hon yn cynnig y dewis i astudio **un grefydd** o **ddewis o chwech**:

| Opsiwn A: | Opsiwn B: | Opsiwn C: | Opsiwn D: | Opsiwn E: | Opsiwn F: |
|---|---|---|---|---|---|
| Cristnogaeth | Islam | Iddewiaeth | Bwdhaeth | Hindŵaeth | Sikhiaeth |

**Bydd disgwyl i ddysgwyr astudio'r un opsiwn ag a ddewiswyd ganddynt ar gyfer Uned 1.**

Yr eithriad yw y gall dysgwyr sy'n astudio Uned 1 Opsiwn A: Cristnogaeth ar gyfer UG astudio **naill ai** Uned 3 Opsiwn A: Cristnogaeth **neu** Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd) ar gyfer Safon Uwch.

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o bedair thema grefyddol sylfaenol: ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2), datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol, datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol ac arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2).

**Uned 4: Crefydd a Moeseg**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**
**20% o'r cymhwyster**

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth eang a manwl o bedair thema foesegol sylfaenol: meddylfryd moesegol (rhan 2), moeseg ddeontolegol, penderfyniaeth ac ewyllys rydd.

**Uned 5: Athroniaeth Crefydd**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**
**20% o'r cymhwyster**

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o bedair thema athronyddol sylfaenol: heriau i gred grefyddol (rhan 2), profiad crefyddol (rhan 2), iaith grefyddol (rhan 1 a 2).

**Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd)**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**
**20% o'r cymhwyster**

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o bedair thema astudio destunol sylfaenol ynghylch llenyddiaeth y Testament Newydd: damhegion, gwyrthiau, Llythyrau ac Apocalyptaidd.

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2017.

Bydd Unedau 3, 4, 5 a 6 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2018.

**Rhif Cymhwyster**
**ar restr The Register:**
**TAG UG: 603/0279/3**
**TAG Safon Uwch: 603/0277/X**

**Rhif Cymeradwyo Cymwysterau**
**Cymru ar restr QiW:**
**TAG UG: C00/0792/2**
**TAG Safon Uwch: C00/0791/7**

WJEC CBAC Cyf.

# TAG UG a Safon Uwch mewn ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac Amcanion

Bydd y fanyleb TAG UG a Safon Uwch mewn Astudiaethau Crefyddol hon gan CBAC yn galluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- datblygu eu diddordeb mewn astudiaeth drwyadl o grefydd a chred a'i chysylltu â'r byd ehangach
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n briodol i astudiaeth arbenigol o grefydd
- datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o feddylfryd crefyddol a'r cyfraniad a wna i fywyd unigolion, cymunedau a chymdeithasau
- mabwysiadu ymagwedd feirniadol, fyfyriol ac ymchwilgar ac astudio crefydd
- datblygu a myfyrio ar eu gwerthoedd eu hunain, eu safbwyntiau a'u hagweddau yng ngoleuni eu gwaith astudio.

Nod TAG UG a Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol yw galluogi dysgwyr i ddatblygu eu brwdfrydedd a'u diddordeb mewn astudiaeth grefyddol a lle crefydd yn y byd ehangach.

Mae'r fanyleb UG yn cynnwys dwy uned gydag amrywiaeth eang o bynciau i'w hystyried, yn cynnwys astudiaeth eang a manwl o un o chwech o brif grefyddau'r byd, crefydd a moeseg ac athroniaeth crefydd.

Mae'r fanyleb Safon Uwch yn caniatáu i ddysgwyr barhau eu hastudiaeth systemataidd o un o grefyddau'r byd, crefydd a moeseg, athroniaeth crefydd neu astudiaethau testunol.

Cyflwynir y fanyleb mewn modd clir a chryno er mwyn sicrhau bod cynnwys y fanyleb yn hygyrch, yn berthnasol ac yn ddiddorol i athrawon a dysgwyr fel ei gilydd.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a feithrinwyd yn ystod TGAU. Mae'n bosibl y bydd rhai dysgwyr eisoes wedi meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o astudio Astudiaethau Crefyddol ar lefel TGAU.

Mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sylfaen addas ar gyfer astudio Astudiaethau Crefyddol neu faes perthynol drwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn gwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ddysgwr, beth bynnag fo'i ryw, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allasai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o’r asesiad.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

**Uwch Gyfrannol:**

Rhaid i ddysgwyr astudio Uned 1 yn ogystal ag Uned 2.

Dylid astudio pob uned yng ngoleuni'r nodau a'r amcanion cyffredinol ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

**Lluniwyd pob uned i annog dysgwyr i ddangos eu gallu i:**

- ddewis a myfyrio ar wybodaeth benodedig a'i chymhwyso
- deall, dehongli a gwerthuso'n feirniadol gysyniadau, testunau a ffynonellau crefyddol eraill
- canfod, dadansoddi'n feirniadol ac ymchwilio i gwestiynau, dadleuon, syniadau a materion sy'n codi o'r uned hon
- llunio dadleuon gwybodus a rhesymegol, ar sail tystiolaeth berthnasol
- cymryd rhan mewn dadl mewn modd sy'n cydnabod hawliau eraill i gael safbwynt gwahanol
- cyflwyno atebion clir a rhesymegol i gwestiynau
- defnyddio iaith a therminoleg arbenigol yn briodol
- defnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg priodol.

**Lluniwyd pob uned i ganiatáu i ddysgwyr gaffael a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o:**

- feddylfryd, cred ac arferion crefyddol a'r ffyrdd gwahanol y cânt eu mynegi ym mywydau unigolion, cymunedau a chymdeithasau
- sut mae testunau crefyddol a/neu ffynonellau eraill o ddoethineb ac awdurdod yn cael eu dehongli a'u cymhwyso
- achosion, ystyr ac arwyddocâd yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol o ran meddylfryd, cred ac arferion crefyddol o fewn a/neu rhwng y naill grefydd a'r llall.

**Safon Uwch:**

Rhaid i ddysgwyr astudio cyfanswm o 3 uned arall i gyd.

Uned 3, 4 a 5 neu, os ydynt wedi astudio Uned 1 Opsiwn A: Cristnogaeth, **naill ai** Uned 3, 4 a 5 **neu** Uned 4, 5 a 6.

Dylid astudio pob uned yng ngoleuni'r nodau a'r amcanion cyffredinol ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

Dylid defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a ddysgwyd eisoes yn Unedau 1 a 2 (UG) wrth gyfeirio at gynnwys yr unedau a astudir. Mae'r unedau Safon Uwch hefyd yn cynnig cyfle i asesu'r sgiliau a'r wybodaeth a enillwyd yn Unedau 1 a 2, lle bo'n briodol. Mae hyn yn sicrhau cynnydd o UG ac yn dangos elfen gref o ddysgu synoptig yn yr astudiaeth fanwl yn gyffredinol.

**Lluniwyd pob uned i annog dysgwyr i ddangos eu gallu i:**

- ddewis a myfyrio ar wybodaeth benodedig am grefydd a chred a'i chymhwyso
- rhoi cyfrif am ddylanwad ffactorau cymdeithasol, crefyddol a hanesyddol ar ddatblygiadau wrth astudio crefyddau a chredoau
- llunio dadleuon gwybodus a rhesymegol am grefydd a chred, ar sail tystiolaeth berthnasol
- cymryd rhan mewn dadl mewn modd sy'n cydnabod hawliau eraill i gael safbwynt gwahanol
- deall, dehongli a gwerthuso'n feirniadol gysyniadau, testunau a ffynonellau crefyddol eraill
- cyflwyno atebion clir a rhesymegol i gwestiynau
- defnyddio iaith grefyddol arbenigol a therminoleg yn briodol
- defnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg priodol
- canfod, dadansoddi’n feirniadol ac ymchwilio i gwestiynau, dadleuon, syniadau a materion sy'n codi o astudio crefydd gan gynnwys rhai ysgolheigion/ academyddion
- dadansoddi natur y cysylltiadau rhwng yr unedau a astudir ar gyfer Safon Uwch (gan gynnwys y rhai a astudir ar gyfer UG).

**Lluniwyd pob uned i ganiatáu i ddysgwyr gaffael a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o:**

- feddylfryd, cred ac arferion crefyddol a'r ffyrdd gwahanol y cânt eu mynegi ym mywydau unigolion, cymunedau a chymdeithasau
- sut mae testunau crefyddol a/neu ffynonellau eraill o ddoethineb ac awdurdod yn cael eu dehongli a'u cymhwyso
- prif faterion, heriau a chwestiynau sy'n ymwneud ag astudio crefydd (er enghraifft, swyddogaeth goddefgarwch, parch a chydnabyddiaeth a deialog rhwng crefyddau a'i gilydd, dulliau astudio, perthnasedd i'r gymdeithas gyfoes) ac atebion iddynt
- achosion, ystyr ac arwyddocâd yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol o ran meddylfryd, cred ac arferion crefyddol o fewn a/neu rhwng y naill grefydd a'r llall
- cwestiynau, materion a dadleuon a godir gan ysgolheigion o fewn ac oddi allan i draddodiadau crefyddol
- ffactorau cymdeithasol, crefyddol a hanesyddol sydd wedi cael dylanwad ar ddatblygiadau wrth astudio crefyddau a chredoau
- cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau’r unedau a astudir ar gyfer Safon Uwch (gan gynnwys y rhai a astudir ar gyfer UG).

WJEC CBAC Cyf.

## 2.1 UG Uned 1

**Uned 1: Cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud
15% o’r cymhwyster
60 marc

Asesir dysgwyr ar **un** o’r opsiynau canlynol o ddewis o **chwech**:

Opsiwn A: Cristnogaeth
Opsiwn B: Islam
Opsiwn C: Iddewiaeth
Opsiwn D: Bwdhaeth
Opsiwn E: Hindŵaeth
Opsiwn F: Sikhiaeth

Noder: Ac eithrio un dewis, rhaid i ddysgwyr Safon Uwch astudio yr un grefydd a ddewiswyd ar gyfer Uned 1 UG ar gyfer Uned 3 Safon Uwch.

Yr eithriad yw y gall dysgwyr sy'n astudio Uned 1 Opsiwn A: Cristnogaeth ar gyfer UG astudio **naill ai** Uned 3 Opsiwn A: Cristnogaeth **neu** Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd).

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr gaffael a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o rai o nodweddion allweddol un o grefyddau'r byd, yn amrywio o ffigyrau crefyddol i arferion crefyddol.

**Mae'r uned hon yn cynnwys astudiaeth o'r cynnwys canlynol:**

- ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod yn cynnwys, lle bo'n briodol, ysgrythur a/neu destunau cysegredig a sut y cânt eu defnyddio a'u trin, ffigyrau crefyddol allweddol a/neu athrawon a'u dysgeidiaeth

- credoau, gwerthoedd a dysgeidiaeth grefyddol, yn eu cydgysylltiadau a'u hamrywiaethau hanesyddol ac yn y byd cyfoes, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â natur a bodolaeth Duw, duwiau neu realiti eithaf, swyddogaeth y gymuned o gredinwyr, egwyddorion moesol allweddol, credoau am yr hunan, marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth, credoau am ystyr a phwrpas bywyd

- arferion sy'n dylanwadu ar a mynegi hunaniaeth grefyddol, gan gynnwys amrywiaeth yr arferion sy'n perthyn i draddodiad penodol.

Mae'r gridiau canlynol yn enghraifft o sut mae'r cynnwys gofynnol wedi'i ddatblygu mewn modd clir a chryno yn bedair thema:

## Uned 1: Opsiwn A – Cyflwyniad i Astudiaeth o Gristnogaeth

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 1)</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Iesu – ei enedigaeth:<br><br>Cysondeb a hygrededd naratifau'r geni (Mathew 1:18-2:23; Luc 1:26-2:40); cysoni a golygiad; dehongli a chymhwyso naratifau’r geni at athrawiaeth yr ymgnawdoliad (presenoldeb sylweddol a’r model cenotig/ymwacaol).</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Iesu – ei atgyfodiad:<br><br>Safbwyntiau Rudolf Bultmann a Nicholas T. Wright (N.T. Wright) ar berthynas yr atgyfodiad â hanes; sut y dehonglir ac y cymhwysir dealltwriaeth o farwolaeth, yr enaid, y corff atgyfodedig a bywyd ar ôl marwolaeth, gan gyfeirio at Mathew 10:28; Ioan 20-21; 1 Corinthiaid 15; Philipiaid 1:21-24.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Y Beibl fel ffynhonnell doethineb ac awdurdod mewn bywyd bob dydd:<br><br>Y ffyrdd y mae'r Beibl yn cael ei weld fel awdurdod: fel ffynhonnell o gyngor moesol (Y Pregethwr 12:13-14; Luc 6:36-37); fel canllaw ar gyfer bywyd (Salm 119:9-16; Salm 119:105-112); fel dysgeidiaeth ar ystyr a phwrpas bywyd (Genesis 1:26-28; Y Pregethwr 9:5-9); ac fel ffynhonnell o gysur ac anogaeth (Salm 46:1-3; Mathew 6:25).</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br>• I ba raddau y mae naratifau'r geni'n darparu mewnwelediad i athrawiaeth yr ymgnawdoliad.<br>• Pwysigrwydd cymharol beirniadaeth ail-olygu o safbwynt deall naratifau'r geni yn y Beibl.<br>• Natur y corff atygyfodedig.<br>• Dibynadwyedd hanesyddol yr atgyfodiad.<br>• Gwerth cymharol y Beibl fel dysgeidiaeth ar ystyr a phwrpas bywyd.<br>• I ba raddau y mae'r Salmau a astudir yn cynnig canllaw ar gyfer bywyd i Gristnogion.</td></tr>
</table>

## Uned 1: Opsiwn A – Cyflwyniad i Astudiaeth o Gristnogaeth

| | |
|---|---|
| **Thema 2: Cysyniadau crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Cysyniadau crefyddol – natur Duw:**<br><br>**A yw Duw yn wryw?**<br>Yr iaith wrywaidd a ddefnyddir i drafod Duw; manteision a heriau bugeiliol y model o Dad; *Sallie McFague* a Duw fel Mam.<br><br>**A all Duw ddioddef?**<br>Anhyboenedd Duw; y safbwynt modern o Dduw sy'n dioddef a ddarluniwyd gan *Jurgen Moltmann* (Y Duw Croeshoeliedig/ The Crucified God). |
| **B.** | **Cysyniadau crefyddol – y Drindod:**<br><br>Yr angen am athrawiaeth y Drindod: natur a hunaniaeth Crist (materion yn ymwneud â dwyfoldeb a chynfodolaeth) a pherthynas Crist â'r Tad (cyd-gyfartal a chyd-dragwyddol). Tarddiad yr Ysbryd Glân: dadl *filioque*. |
| **C.** | **Cysyniadau crefyddol – yr Iawn:**<br><br>Tair damcaniaeth yr Iawn (nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd): dehongli marwolaeth Iesu fel *Christus Victor* (gan gyfeirio at ryddhau'r ddynoliaeth o afael pwerau gelyniaethus); dehongli marwolaeth Iesu fel cyfnewidiad (y gred y bu Iesu farw er mwyn cyfnewid lle â'r ddynoliaeth, yn ogystal â'r gred mai dim ond yr Iesu dwyfol-ddynol a allai gael ei aberthu gan Dduw er lles y ddynoliaeth); dehongli marwolaeth Iesu fel enghraifft foesol (o safbwynt sut i fyw a marw). Y rhagdybiaethau sy'n sail i ddamcaniaethau'r Iawn ynglŷn â'r angen am faddeuant dwyfol a'r gwrthdaro rhwng dicter a chariad Duw. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• Pa mor ddilys yw cyfeirio at Dduw fel mam.<br>• Goblygiadau diwinyddol Duw sy'n dioddef.<br>• Honiadau undduwiol athrawiaeth y Drindod.<br>• A yw dealltwriaeth o athrawiaeth y Drindod yn angenrheidiol er mwyn deall Duw Cristnogaeth.<br>• I ba raddau y mae'r tair damcaniaeth o'r Iawn yn gwrth-ddweud ei gilydd.<br>• I ba raddau y mae'r tair damcaniaeth yn awgrymu bod y Duw Cristnogol yn greulon. | |

## Uned 1: Opsiwn A – Cyflwyniad i Astudiaeth o Gristnogaeth

| | |
|---|---|
| **Thema 3: Bywyd crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Bywyd Crefyddol – ffydd a gweithredoedd:**<br><br>Dadleuon *Martin Luther* dros gyfiawnhad trwy ffydd yn unig (gan gyfeirio at Rhufeiniaid 1:17, 5:1; Effesiaid 2:8-9; Galatiaid 2:16; a Iago 2:24 yn cael ei wrthod gan *Luther*); Cyngor Trent fel ymateb i Luther; *Ed P. Sanders* (*E. P. Sanders)* a swyddogaeth gweithredoedd ym maes cyfiawnhad. |
| **B.** | **Bywyd Crefyddol – y gymuned o gredinwyr:**<br><br>Cymuned o gredinwyr y Testament Newydd fel model ar gyfer eglwysi heddiw (gan gyfeirio at Actau 2:42-27); swyddogaeth eglwysi o safbwynt darparu addoliad a sacramentau; dysgeidiaeth grefyddol; cenhadaeth; gwasanaeth ac allgymorth; a chymdeithas ar gyfer y gymuned o gredinwyr. |
| **C.** | **Bywyd crefyddol – egwyddorion moesol allweddol:**<br><br>Rhai o egwyddorion moesol allweddol Cristnogaeth: pwysigrwydd cariad at gymydog (Lefiticus 19:34; Luc 10:25-28); cariad Duw fel model posibl ar gyfer ymddygiad Cristnogol (Exodus 34:6-7; 1 Ioan 4:19-21); parch at y gwir (1 Samuel 12:24; Effesiaid 4:25-27); swyddogaeth cydwybod (2 Corinthiaid 1:12; 1 Timotheus 1:5); a'r angen am faddeuant (Mathew 6:14-15; Colosiaid 3:12-13). |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• I ba raddau y mae ffydd a gweithredoedd yn agweddau ar gyfiawnhad.<br>• I ba raddau y mae llythyrau'r Testament Newydd yn cefnogi dadleuon dros gyfiawnhad drwy ffydd yn unig.<br>• Ai prif swyddogaeth yr Eglwys yw darparu dysgeidiaeth grefyddol.<br>• I ba raddau y dylai eglwysi Cristnogol cyfoes ddilyn model y Testament Newydd.<br>• Ai cariad at gymydog yw'r egwyddor foesol bwysicaf o fewn Cristnogaeth.<br>• I ba raddau y mae ymddygiad Duw tuag at fodau dynol yn sail i foesoldeb Cristnogol. | |

## Uned 1: Opsiwn A – Cyflwyniad i Astudiaeth o Gristnogaeth

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 1)</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Hunaniaeth grefyddol trwy amrywiaeth o ran bedydd:<br><br>Yr achos o blaid bedydd plentyn gan Awstin Sant o Hippo a Huldrych Zwingli (swyddogaeth bedydd mewn iachawdwriaeth; rôl a phwysigrwydd rhieni Cristnogol); yr achos dros fedydd crediniwr gan gyfeirio at Karl Barth (enghraifft Crist; pwysigrwydd cydsyniad).</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Hunaniaeth grefyddol trwy amrywiaeth yr Ewcharist:<br><br>Pwysigrwydd yr Ewcharist ym mywyd cymunedau Cristnogol cyfoes; rhai o ddamcaniaethau modern Eglwys Rufain (traws-sylweddiad, trawsarwyddocâd a thrawsderfynoldeb [transubtantiation, transignification a transfinalization); rhai o ymagweddau'r Eglwys Brotestannaidd (cydsylweddiad a choffaoliaeth); yr hyn sy'n debyg am arferion Ewcharist traddodiadau Cristnogol.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Hunaniaeth grefyddol trwy amrywiaeth o ran gwyliau:<br><br>Y Nadolig<br>Yr hyn sy'n debyg (gan gyfeirio at y pwyslais ar ymgnawdoliad Crist) a'r hyn sy'n wahanol (dyddiadau'r dathlu; y pwyslais ar gyfnod yr Adfent; gwasanaethau Nadolig) rhwng dathliadau Nadolig yr eglwys Uniongred Ddwyreiniol a'r eglwysi gorllewinol.<br><br>Y Pasg<br>Yr hyn sy'n debyg (gan gyfeirio at yr athrawiaeth am atgyfodiad Crist) a'r hyn sy'n wahanol (dyddiadau; arferion litwrgaidd adeg y Pasg; yr amrywiaeth o fewn y traddodiadau gwahanol) rhwng dathliadau Pasg yr eglwys Uniongred Ddwyreiniol a'r eglwysi gorllewinol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<ul><li>I ba raddau y mae bedydd plentyn a bedydd oedolyn yn weithred symbolaidd yn unig.</li><li>Y meini prawf o safbwynt mynegi ymroddiad i gael eich bedyddio.</li><li>I ba raddau y mae unrhyw dir cyffredin yn yr amrywiol ddealltwriaeth gyfoes o'r Ewcharist.</li><li>I ba raddau y mae'r credoau damcaniaethol ynglŷn â'r Ewcharist yn effeithio ar arferion enwadau gwahanol.</li><li>A yw'r pwysleisiau a'r arferion gwahanol yn golygu bod y Pasg yn ddathliad gwahanol yn yr eglwys Uniongred Ddwyreiniol a'r eglwysi gorllewinol.</li><li>Pwysigrwydd cymharol y Pasg a'r Nadolig.</li></ul></td></tr>
</table>

## Uned 1: Opsiwn B – Cyflwyniad i Astudiaeth o Islam

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

<table>
<tr><td colspan="2">Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 1)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</td></tr>
<tr><td>A.</td><td>Arwyddocâd bywyd a dysgeidiaeth Muhammad yn Makkah ar ôl y Noson Nerth i ddatblygiad Islam<br><br>Bywyd yng nghyfnod Muhammad – Jahiliyya (anwybodaeth) a'r angen am ddatguddiad: prif nodweddion crefyddol, cymdeithasol, gwleidyddol a moesol Arabia yn y cyfnod cyn-Islamaidd. Effaith y Noson Nerth (Sura 97:1-5) ar Muhammad. Pregethu cyfrinachol Muhammad ac ymatebion cynnar tuag at ei brofiad crefyddol a'i ddysgeidiaeth. Pregethu agored Muhammad yn Makkah a natur ei neges. Ymateb pobl Makkah i Muhammad a'r effaith a gafodd ar ddatblygiad Islam.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Arwyddocâd yr Hijrah a bywyd a dysgeidiaeth Muhammad yn Madinah i ddatblygiad Islam:<br><br>Cyd-destun erledigaeth Muhammad a'i ddilynwyr yn Makkah fel prif ddylanwad yr Hijrah (mudo) gan gynnwys cam-drin geiriol, cam-drin corfforol a bygythiadau i fywyd. Yr Hijrah fel 'dihangfa' ac wedi'i arwain gan Dduw. Y croeso gan Madinah a sefydlu daliadau sylfaenol Islam, gan gynnwys sefydlu'r masjid cyntaf. Muhammad fel arweinydd crefyddol, moesol, gwleidyddol a milwrol yn Madinah.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Y Qur'an fel ffynhonnell doethineb ac awdurdod – y defnydd a'r driniaeth a wneir ohono mewn Islam:<br>Ffynhonnell doethineb ac awdurdod: Natur y Qur'an fel y datguddiad olaf. Cyfeiriadau penodol at Sura 15:9, Sura 51:47 a Sura 96:1-5. Nodweddion dwyfol y Qur'an fel testun gan Dduw heb ei wyro gan negesyddion dynol. Trosolwg o'r broses o grynhoi'r Qur'an.<br><br>Y defnydd a'r driniaeth o'r Qur'an: Y Qur'an fel canllaw i'r ddynoliaeth am byth. Safbwyntiau Islamaidd ar 'gyfieithiadau' o'r Qur'an; cywirdeb y fersiwn Arabeg wreiddiol; cyfieithiad fel dehongliad. Triniaeth gorfforol o'r Qur'an i adlewyrchu ei statws.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<ul><li>I ba raddau y cafodd cyd-destun Arabia yn y cyfnod cyn-Islamaidd ddylanwad ar fywyd a dysgeidiaeth Muhammad.</li><li>Posibilrwydd methiant crefydd Islam yn Makkah.</li><li>Ai Madinah yw'r model delfrydol o safbwynt sefydlu Islam.</li><li>Rhinweddau Muhammad fel arweinydd cyflawn y bobl.</li><li>I ba raddau y mae'r Qur'an yn dragwyddol berthnasol.</li><li>A ellir cyfieithu neges y Qur'an yn gywir.</li></ul></td></tr>
</table>

## Uned 1: Opsiwn B – Cyflwyniad i Astudiaeth o Islam

| | |
|---|---|
| **Thema 2: Cysyniadau crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Y cysyniad o Allah – tawhid (undod) a shahadah (tystio):**<br><br>Tawhid fel datganiad o undduwiaeth ddigyfaddawd. Tawhid fel natur Duw fel 'un' gan gyfeirio at Sura 112. Duw fel yr unig greawdwr, hollalluog ac eto'n drugarog. Duw sydd y tu hwnt i eiriau a disgrifiadau. Priodoleddau Duw fel trosiadau a symbolau. Y Duw trosgynnol ac agos. Shirk (priodoli partneriaid) sef y gwrthwyneb i tawhid.<br><br>Shahadah fel cydnabyddiaeth o tawhid. Datgan ffydd neu dystio i undod Duw a natur unigryw Muhammad fel proffwyd Duw. Grym y shahadah fel datganiad cyhoeddus o'r gwir yn ogystal â datganiad o ffydd bersonol. Swyddogaeth y shahadah mewn tröedigaeth. Shahadah fel cysyniad sy'n tanlinellu ystyr a phwrpas bywyd mewn Islam: y gred mewn un Duw; Muhammad fel negesydd a Mwslim delfrydol. |
| **B.** | **Credoau Mwslimaidd ynglŷn â'r nabi (proffwydi), rasul (negesydd), nadir (rhybuddiwr) a risalah (y neges):**<br><br>Swyddogaeth nabi (proffwyd) fel rasul (negesydd) neu nadir (rhybuddiwr) – Qur'an 3:144, 46:9. Y gwahaniaeth canfyddedig a phoblogaidd rhwng nabi a rasul. Negeseuon cysylltiedig proffwydi blaenorol gan gyfeirio'n benodol at Ibrahim (Sahifa), Musa (Torah), Dawud (Zabur) ac Isa (Injil) a'u natur wyrgam. Muhammad fel 'Sêl y Proffwydi' (Qur'an 46:9). Cymeriad a natur unigryw Muhammad (Qur'an 33:21). |
| **C.** | **Malaikah (angylion) ac Akhirah (Dydd y Farn Derfynol):**<br><br>Malaikah fel cyfryngau Duw. Natur a phwrpas angylion. Swyddogaethau penodol Jibril, Mikail ac Israfil. Duw fel Barnwr, ac akhirah (Dydd y Farn Derfynol). Arwyddocâd digwyddiadau ar ôl caniad olaf y corn. Delweddau o nefoedd ac uffern gan gyfeirio at Sura 47:15 a Sura 67:7-10. Akhirah fel cysyniad sy'n tanlinellu ystyr a phwrpas bywyd: ymostyngiad a gwobr. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• I ba raddau y mae'r cysyniad Islamaidd o Allah yn rhesymegol.<br>• A yw'r Shahadah yn ymwneud yn fwy â ffydd breifat na datganiad cyhoeddus o ffydd.<br>• A yw'r cysyniad o 'negesydd' wedi bod yn llwyddiant i Islam.<br>• I ba raddau yr oedd Muhammad yn broffwyd ac yn negesydd delfrydol.<br>• A yw Dydd y Farn Derfynol yn codi ofn neu'n ennyn ffydd.<br>• I ba raddau y mae'r cysyniad o Malaikah (angylion) yn hanfodol i Islam. | |

## Uned 1: Opsiwn B – Cyflwyniad i Astudiaeth o Islam

| | |
|---|---|
| **Thema 3: Bywyd crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Swyddogaeth ac arwyddocâd y tri philer canlynol i Fwslimiaid a'r Ummah (y gymuned Fwslimaidd).**<br><br>**Salah (gweddi) a mathau eraill o weddïau:**<br><br>Natur a phwrpas gwahanol fathau o weddïau mewn Islam: salah; tahajjud (gweddi gyda'r nos) (Sura 17:79); nafila (ychwanegol); du'a (galw allan); tasbih (gogoneddu) a wird (gweddi Sufi). Arwyddocâd niyat (bwriad). Amserau gweddïo rheolaidd (Qur'an 4:103). Arwyddocâd wudu. Swyddogaeth a phwysigrwydd gweddïau Jummah ar gyfer yr Ummah (Qur'an 62:10). |
| **B.** | **Zakah (puro drwy roi) a Hajj (pererindod):**<br><br>Natur a phwrpas y gwahanol fathau o roi mewn Islam: zakah; sadaqat (gwirfoddol) a khums (pumedran). Y rhesymau dros roi mewn Islam: ufudd-dod; tosturi; aberth bersonol; gwerth y manteision a enillir. Pwysigrwydd meddwl rhyddhaol ac agweddau tuag at y tlawd mewn Islam. Effaith rhoi ar yr Ummah. Natur a phwrpas yr Hajj a'i swyddogaeth o ran uno'r Ummah. |
| **C.** | **Y pum categori gweithredu a'r ffyrdd y maent yn amlygu prif egwyddorion moesol Islam yn ogystal â fframwaith ar gyfer bywyd Mwslimaidd:**<br><br>Yr angen am arweiniad yn codi o ddatblygiad y shari'a. Categorïau fard (gorfodol), mustahab (heb ei annog na'i anghefnogi, wedi'i gynghori ond heb fod yn hanfodol), halal (cysegredig, wedi'i ganiatáu), makruh (anffafriol, tramgwyddus) a haram (gwaharddedig), a'u pwysigrwydd fel canllaw i fywyd Mwslimaidd. Enghreifftiau o fathau o weithredoedd a ddehonglir fel fard, mustahab, halal, makruh a haram. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• I ba raddau y mae gweddïo yn weithred o dduwioldeb yn unig.<br>• Ai gweddïau Jummah yw'r pwysicaf o'r holl weddïau.<br>• I ba raddau y mae Islam yn seiliedig ar gefnogi'r tlawd.<br>• A yw'r Hajj yn fwy na thaith bersonol o ymholiad crefyddol yn unig.<br>• Llwyddiant y pum categori o weithredu moesegol fel canllaw i fywyd Mwslimaidd heddiw.<br>• A yw'r pum categori, yn ymarferol, yn arwain at ddryswch yn hytrach nag eglurder. | |

## Uned 1: Opsiwn B – Cyflwyniad i Astudiaeth o Islam

| | |
|---|---|
| **Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 1)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Swyddogaeth y masjid (mosg) mewn Islam:**<br><br>Pwysigrwydd swyddogaethau'r masjid cyntaf yn Madinah. Swyddogaeth grefyddol, gymdeithasol a gwleidyddol masjids heddiw yn y DU. Y masjid fel lle i syrthio ar yr wyneb (*prostration*). Y masjid fel canolbwynt yr Ummah (cymuned o gredinwyr) ar gyfer dynion a menywod: swyddogaeth y masjid mewn digwyddiadau crefyddol; swyddogaethau cymdeithasol ac addysgol y masjid; y masjid fel canolfan gymunedol. Swyddogaeth y gymuned o gredinwyr crefyddol o ran cynnal a chadw'r masjid. |
| **B.** | **Swyddogaeth gwyliau wrth ffurfio hunaniaeth grefyddol, gan gyfeirio at:**<br><br>**Ashura**<br><br>Y rhesymau dros ddathlu Ashura. Swyddogaeth Ashura wrth fynegi hunaniaeth Shi'a. Sut mae defodau mewn defosiynau Shi'a yn ystod Ashura yn adlewyrchu dysgeidiaeth greiddiol Shi'a, gan gyfeirio'n benodol at erledigaeth, dioddefaint a hunan-niwed. Swyddogaeth y gymuned o gredinwyr o ran sicrhau bod traddodiadau'r ŵyl yn cael eu cynnal. |
| **C.** | **Ramadan ac Id-ul-Fitr:**<br><br>Manteision crefyddol a moesol Ramadan i Fwslim gan gyfeirio at: y berthynas â Duw; datblygiad ysbrydolrwydd Mwslimaidd; pwysigrwydd moesoldeb mewn Islam. Swyddogaeth y gymuned o ran sicrhau bod traddodiadau Id-ul-Fitr yn cael eu cynnal. Pwysigrwydd cymdeithasol Id-ul-Fitr i'r gymuned Fwslimaidd gan gyfeirio at: empathi â, a chefnogaeth i'r tlawd, undod a 'brawdoliaeth'. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• Ymostyngiad fel pwrpas pwysicaf y masjid.<br>• A yw'r masjid heddiw wedi cynnal swyddogaeth y masjid gwreiddiol a sefydlwyd gan Muhammad yn Madinah.<br>• A yw canolbwyntio ar ddioddefaint yn ystod Ashura yn rhoi camargraff o hunaniaeth Shi'a.<br>• Hunan-niwed fel arwydd o ymroddiad crefyddol gormodol.<br>• A yw Id-ul-Fitr yn cael ei drin fel dathliad crefyddol neu ddigwyddiad cymdeithasol.<br>• I ba raddau y mae ymprydio yn fwy buddiol i'r unigolyn na'r gymuned. | |

## Uned 1: Opsiwn C – Cyflwyniad i Astudiaeth o Iddewiaeth

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 1)</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Abraham yn sefydlu'r cyfamod enwaedu:<br><br>Abraham fel Tad i'r Iddewon (Genesis 12:1-3); cred Abraham mewn Un Duw yn greawdwr nefoedd a daear; natur y cyfamod rhwng Duw ac Abraham – yr addewid o dir ac epil (Genesis 12:7; 13:14-17); brit milah (enwaediad) yn arwydd o’r cyfamod (Genesis 17); arwyddocâd ffydd Abraham a'r prawf ufudd-dod (Genesis 22).</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Moses yn sefydlu cyfamod y gyfraith:<br><br>Natur a phwysigrwydd cyfamod Moses, a hynny yng nghyfnod Moses yn ogystal â heddiw (Exodus 19-20); Moses yn cofnodi'r cyfamod (Exodus 24:4, Exodus 34:1-2, 27-28); pwysigrwydd amddiffyniad Duw ar gyfer ufudd-dod (Exodus 34:10-11).</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Y Torah fel ffynhonnell doethineb ac awdurdod:<br><br>Derbyn y Torah ar fynydd Sinai ac arwyddocâd y gyfraith ysgrifenedig (Exodus 19-20). Natur a phwrpas y Torah mewn Iddewiaeth Uniongred/Ddiwygiedig. Perthnasedd cynfodol a bythol y Torah.<br><br>Y defnydd a'r driniaeth o'r Torah:<br>Sefer Torah; darllen y Torah (yn y synagog ac yn y cartref), astudio'r Torah mewn yeshiva (sefydliad sy'n astudio'r Tanakh a'r Talmud) a swyddogaeth y Torah llafar. Y gofal a'r parch sy'n cael ei roi i'r Torah – arch, mantell, yad (pwyntydd) a chladdedigaeth.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<ul><li>I ba raddau y mae'r cyfamod yn hollgyffredinol.</li><li>Y cyfamod fel braint neu gyfrifoldeb.</li><li>A yw'r cyfamod yn ddull o reolaeth grefyddol.</li><li>I ba raddau y mae'r cyfamod o werth cyfreithiol.</li><li>I ba raddau mai'r Torah yw'r prif awdurdod o hyd mewn Iddewiaeth heddiw.</li><li>A yw'r Torah wedi datblygu i fod yn eicon crefyddol.</li></ul></td></tr>
</table>

## Uned 1: Opsiwn C – Cyflwyniad i Astudiaeth o Iddewiaeth

| | |
|---|---|
| **Thema 2: Cysyniadau crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Credoau am natur Duw / y cysyniad o Dduw:**<br><br>Undduwiaeth absoliwt; Un Duw; Duw'r Creawdwr; Duw'r anghorfforol; Duw nad yw'n wryw na benyw; Duw tragwyddol. Nodweddion: hollalluog, hollwybodus, hollgariadus, Sanctaidd, Cyfiawn, Perffaith, Trugarog.  Presenoldeb Duw fel kavod a shekinah. *Moses Maimonides* ar briodoleddau Duw. |
| **B.** | **Credoau am Dduw a'r ddynoliaeth, ystyr a phwrpas bywyd:**<br><br>Y ddynoliaeth (yr hunan) wedi'i chreu yn unol â'r ddelw ddwyfol; nefesh (bywyd) fel rhodd ddwyfol; pikuach nefesh (sancteiddrwydd bywyd); natur y ddynoliaeth – yetzer hara (tuedd at ddrygioni) a yetzer hatov (tuedd at ddaioni).<br><br>Y Shema: cynnwys y Shema (Deuteronomium 6:4-9; 11:13-21; a Numeri 15:37-41).  Natur y Shema fel cymorth i ffydd a choffáu; y Shema fel dyfais i atgyfnerthu perthynas y cyfamod ac ystyr a phwrpas bywyd. |
| **C.** | **Credoau am y farn – y Meseia a bywyd ar ôl marwolaeth:**<br><br>Y Meseia mewn Iddewiaeth – Yr Un Eneiniog a'r Barnwr – sy'n dod â thangnefedd ac ewyllys dda i'r ddynoliaeth (Eseia 2:1-4); sefydlu trefn newydd i'r byd. Marwolaeth; atgyfodiad y meirw (Daniel 12:2); dydd y farn derfynol; olam ha-ba (bywyd ar ôl marwolaeth); Y Pittsburgh Platform (paragraff 7) a safbwyntiau Diwygiedig am fywyd ar ôl marwolaeth. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• A yw adnabod Duw yn bosibl.<br>• A yw nodweddion Duw yn ystyrlon heddiw.<br>• Ai'r Shema sy'n cynnwys y credoau pwysicaf o fewn Iddewiaeth.<br>• I ba raddau y mae'r Shema yn ddigon manwl i roi arweiniad ar gredoau ac arferion Iddewig.<br>• A yw credoau Iddewig am y farn a bywyd ar ôl marwolaeth yn berthnasol i Iddewon heddiw.<br>• A yw'r cysyniad o Feseia yn gred grefyddol bwysig ar gyfer pob Iddew heddiw. | |

## Uned 1: Opsiwn C – Cyflwyniad i Astudiaeth o Iddewiaeth

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 3: Bywyd crefyddol</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Amrywiaeth safbwyntiau o fewn Iddewiaeth ar y Mitzvot (gorchmynion):<br><br>Swyddogaeth y gymuned Iddewig o gredinwyr (Uniongred, Diwygiedig a Hasidig) o safbwynt deall perthnasedd y 613 mitzvot gan gyfeirio at: eu dehongliad heddiw, yn llythrennol neu fel arall; sut y cânt eu cymhwyso heddiw; eu pwysigrwydd heddiw.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Dysgeidiaeth Iddewig am tefillah (gweddïo) gan gyfeirio at yr Amidah a dysgeidiaeth am tzedakah (elusengarwch):<br><br>Tefillah fel hunan fyfyrio ysbrydol mewn perthynas â Duw; rhesymau dros y tefillah; strwythur a chynnwys yr Amidah; y defnydd o’r Amidah mewn gweddïau dyddiol; minyan (cynulleidfa) a'r amrywiaeth o arferion gweddïo o fewn Iddewiaeth.  Pwysigrwydd y tzedakah mewn Iddewiaeth; Moses Maimonides ac 'ysgol tzedakah'.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Egwyddorion moesol allweddol: pwysigrwydd y Deg Dywediad (Aseret ha-Dibrot) neu'r Deg Gorchymyn, ar gyfer Iddewiaeth:<br><br>Y Deg Dywediad yng nghyd-destun y 613 mitzvot; y Deg Dywediad fel sail i fywyd moesegol a chrefyddol; yr 'Aseret ha-Dibrot' mewn dealltwriaeth rabinaidd fel deg categori mitzvot.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br>• I ba raddau y mae'r cysyniad o mitzvot yn achosi rhwyg o fewn Iddewiaeth.<br>• A yw'r mitzvot yn cyfrannu'n effeithiol at ysbrydolrwydd mewn Iddewiaeth.<br>• I ba raddau y mae'r Amidah yn crynhoi credoau, gwerthoedd a dysgeidiaeth bwysicaf Iddewiaeth.<br>• A yw gweddïo wedi datblygu i fod yn ddefod ysbrydol aneffeithiol.<br>• A yw'r Deg Dywediad yn ganllaw effeithiol ar gyfer byw'n foesegol.<br>• I ba raddau y mae'r Deg Dywediad yn crynhoi cred grefyddol yn ddigonol.</td></tr>
</table>

## Uned 1: Opsiwn C – Cyflwyniad i Astudiaeth o Iddewiaeth

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 1)</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Amrywiaeth arferion Iddewig sy'n dylanwadu ar ac yn mynegi hunaniaeth grefyddol, gan gyfeirio at:<br><br>Swyddogaeth y synagog mewn Iddewiaeth<br><br>Tarddiadau'r synagog fel sefydliad parhaol yn ystod y gaethglud ym Mabilon. Swyddogaeth yr arch o ran atgoffa Iddewon am y Deml yn Jerwsalem. Ei swyddogaeth gymdeithasol: fel man ymgynnull ar gyfer y gymuned Iddewig – bet k’nesset (tŷ cwrdd); y synagog fel lle i astudio a darllen y Torah – bet midrash (tŷ astudio) neu 'ysgol' (shul). Swyddogaeth grefyddol y synagog: ei swyddogaeth ganolog adeg gwyliau Iddewig; fel lle i weddïo; ac fel lle ar gyfer defodau – mae gan rai synagogau mikveh (pwll) er mwyn sicrhau glendid crefyddol a chorfforol. Statws a swyddogaeth gyfreithiol y synagog: ei ddefnydd fel llys rabinaidd neu fel bet din (tŷ barn).</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Swyddogaeth gwyliau o ran dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol<br><br>Pesach:<br><br>Arwyddocâd digwyddiad y 'Pasg Iddewig' i hunaniaeth Iddewig gan gyfeirio at: boblogrwydd cadw Pesach ymhlith Iddewon heddiw yn adlewyrchu achubiaeth i'r Iddewon rhag yr Aifft; achubiaeth y byd o dan orchymyn Duw; pwysigrwydd Exodus 12-15; symbolaeth plât y seder a'r defnydd o'r Haggadah; swyddogaeth y gymuned Iddewig o gredinwyr wrth gofio a chadw hunaniaeth Iddewig; gobaith ar gyfer y dyfodol ("y flwyddyn nesaf yn Jerwsalem"); dyfodiad Elias i gyhoeddi dyfodiad y Meseia.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Rosh Hashanah a Yom Kippur:<br><br>Tarddiadau defodau'r gwyliau hyn a'u harwyddocâd; i ba raddau y cedwir y gwyliau hyn; effaith a phwrpas eu cadw; yr her o ymprydio am 25 awr a gwerth gwneud hyn. Arwyddocâd corn y shofar yn yr ysgrythurau Hebraeg; ystyr ac arwyddocâd y tashlikh. Pwysigrwydd y machzor; Kol Nidre a'r diwygiadau i'r Amidah fel cadarnhad o undod a hunaniaeth yr Iddewon.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br>• A oes gan y synagog brif 'ddefnydd' neu 'bwrpas' o fewn Iddewiaeth.<br>• I ba raddau mai'r synagog yw canolbwynt cymuned Iddewig.<br>• I ba raddau mai Pesach yw'r ŵyl ganolog o fewn Iddewiaeth.<br>• A yw'r cysyniad o achubiaeth yn berthnasol i Iddewiaeth heddiw.<br>• A yw gwyliau Iddewig yn effeithiol o ran atgyfnerthu hunaniaeth Iddewig.<br>• A yw cydnabod pechodau'n rheolaidd, a bod yn edifar amdanynt, yn gydnabyddiaeth o fethiant o ran datblygiad ysbrydol.</td></tr>
</table>

## Uned 1: Opsiwn D – Cyflwyniad i Astudiaeth o Fwdhaeth

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 1)</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Yr adroddiadau am enedigaeth y Bwdha a'r Pedair Golygfa:<br><br>Y ffyrdd y mae Bwdhyddion yn darllen y naratifau hyn. Dehongliadau hagiograffig a mytholegol o'r freuddwyd a gafodd Maya am y cenhedlu, digwyddiadau'n ymwneud â'r enedigaeth, y broffwydoliaeth a bywyd cynnar. Effaith fywgraffyddol y Pedair Golygfa a dehongliadau crefyddol ehangach o'u hystyr o ran dukkha (annigonoldeb), anicca (byrhoedledd), anatta (ansylweddoldeb/dihunan).</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Deffroad/Goleuedigaeth y Bwdha:<br><br>Prif nodweddion yr hyn ddigwyddodd yn arwain at Ddeffroad y Bwdha o dan y Goeden Bodhi; gan gynnwys gwybodaeth am fywydau blaenorol, gwybodaeth am swyddogaeth karma ym mywydau pob peth byw, y llwybr i ddiwedd y dukkha, ystyron y naratifau am Mara/temtasiwn, mudra cyffwrdd â'r ddaear.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Testunau Bwdhaeth fel ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod – y defnydd a'r driniaeth a wneir ohonynt mewn bywyd bob dydd:<br><br>Y Patimokkha a'i ddefnydd fel un o'r ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod gan Sangha mynachaidd y Theravada. Ei ddefnydd a'i driniaeth fel testun i'w adrodd. Difrifoldeb y Pedwar Parajika (gorchfygiadau), sy'n arwain at ddiarddeliad o'r Sangha.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br>• Pwysigrwydd bywgraffiad y Bwdha hanesyddol i Fwdhyddion heddiw.<br>• Arwyddocâd cymharol y ffyrdd gwahanol o ddehongli'r bywgraffiad.<br>• Arwyddocâd Deffroad/Goleuedigaeth y Bwdha mewn Bwdhaeth.<br>• Yr anhawster a brofir wrth geisio disgrifio Deffroad, fel profiad sydd y tu hwnt i eiriau.<br>• Pwysigrwydd a gwerth cymharol y Patimokkha.<br>• Cymhariaeth feirniadol o reolau hynafol yn seiliedig ar destun, a materion cyfoes sy'n effeithio ar y Sangha.<br>• Perthnasedd y Pedwar Parajika heddiw.</td></tr>
</table>

## Uned 1: Opsiwn D – Cyflwyniad i Astudiaeth o Fwdhaeth

| | |
|---|---|
| | **Thema 2: Cysyniadau crefyddol** |
| | **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** |
| **A.** | **Natur y realiti eithaf:**<br><br>**Y tri lakshana (tri nod bodolaeth/tair nodwedd bodolaeth): dukkha, anicca ac anatta:**<br><br>Y cysyniadau o dukkha ac anicca: gan gyfeirio at y *Dhammacakkappavattana Sutta*.<br>Y cysyniad o anatta gan gyfeirio at Adran 1 Pennod 1 o'r darn am y Cerbyd yng Nghwestiynau'r Brenin Milinda. |
| **B.** | **Natur y realiti eithaf:**<br><br>**Pratityasamutpada, karma ac ailenedigaeth:**<br><br>Y cysyniadau o pratityasamutpada ac ailenedigaeth: gan gyfeirio at eiconograffeg y bhavachakra.<br>Y cysyniad o karma: gan gyfeirio at y *Dhammapada*, Pennod 1 'Y Parau' a Phennod 9 'Drygioni'.<br>Pwysigrwydd cael gwared ar drachwant, casineb a rhithdyb a pheidio dyfalu ynghylch bodolaeth Duw, a chwestiynau metaffisegol eraill (Dameg y Saeth wedi'i Gwenwyno – *Majjhima Nikaya* 63). |
| **C.** | **Arhat a bodhisattva: dysgeidiaeth Theravada a Mahayana:**<br><br>Pedwar cam Deffroad: enillydd-ffrwd, un sy'n dychwelyd unwaith, un sydd byth yn dychwelyd, arhat (un teilwng).<br>Nodweddion bodhisattvas: chwech neu ddeg paramita (perffeithderau), buhmis (camau), yr addewid i ddwyn pob peth byw sy'n dioddef i gyflwr Deffroad a'r cydberthynas rhwng doethineb a thosturi. |
| | **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• Y tri lakshana yn cynrychioli realiti.<br>• Y tri lakshana fel dysgeidiaeth bwysicaf Bwdhaeth.<br>• Dysgeidiaeth pratityasamutpada, karma ac ailenedigaeth yn cynrychioli realiti.<br>• Pa mor ddilys yw gwrthod cwestiynau ynghylch bodolaeth Duw.<br>• Cysyniadau bodhisattva ac arhat fel nodweddion hanfodol o Fwdhaeth.<br>• Dilysrwydd cymharol cysyniadau bodhisattva ac arhat. |

## Uned 1: Opsiwn D – Cyflwyniad i Astudiaeth o Fwdhaeth

| | |
|---|---|
| **Thema 3: Bywyd crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Y Pedwar Gwirionedd Nobl:**<br><br>Y tri math o dukkha – dukkha-dukkha (profiad poenus); viparinama-dukkha (natur gyfnewidiol bodolaeth); sankhara-dukkha (natur amodol bodolaeth); y trosiad meddygol (sef y Bwdha fel meddyg, yn gwneud diagnosis o'r symptomau, yn adnabod yr hyn oedd yn eu hachosi ac yn darparu presgripsiwn) a chysyniadau tanha (syched), nirodha (diwedd) a magga (y llwybr). |
| **B.** | **Y Llwybr Wythblyg – egwyddorion moesol allweddol:**<br><br>Yr Hyfforddiant Triphlyg: doethineb, moesoldeb a myfyrdod**.** Perthynas y Llwybr Wythblyg â'r Ffordd Ganol. Y Llwybr Wythblyg yng nghyd-destun amrywiaeth Bwdhaeth. Enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r Llwybr Wythblyg yn cael ei arfer a'i arwyddocâd ar gyfer moesoldeb Bwdhaidd. |
| **C.** | **Y dasa sila (deg argymhelliad) – egwyddorion moesol allweddol:**<br><br>Enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r dasa sila (y deg argymhelliad) yn cael eu cymhwyso o fewn y gymuned o gredinwyr: unigolion lleyg a'r Sangha mynachaidd. Swyddogaethau gwahanol a chyflenwol y Sanghas lleyg a mynachaidd. Y cysyniad mai uchelgeisiau hyfforddi yn hytrach na gorchmynion ar gyfer y gymuned o gredinwyr yw'r argymhellion, a swyddogaeth y Sangha mynachaidd o ran ufuddhau i'r argymhellion ar ran y Sangha ehangach. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• Y cysyniad bod y Pedwar Gwirionedd Nobl yn greiddiol i bob Bwdhydd.<br>• Y cysyniad bod y Pedwar Gwirionedd Nobl yn adlewyrchu realiti.<br>• Defnyddioldeb y Llwybr Wythblyg fel canllaw moesol i bob Bwdhydd sy'n cael effaith ar bob agwedd ar fywyd.<br>• Y berthynas rhwng ymddygiad a Deffroad.<br>• Pwysigrwydd cymharol y dasa sila (y deg argymhelliad) fel modd o reoli'r Sangha.<br>• Perthnasedd cyfoes yr argymhellion a bywyd mynachaidd. | |

## Uned 1: Opsiwn D – Cyflwyniad i Astudiaeth o Fwdhaeth

| | |
|---|---|
| **Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 1)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Mynd am noddfa:**<br><br>Ystyried yr arfer siantio o fynd am noddfa dair gwaith, ac ystyr pob un (Bwdha, dharma a Sangha) ar gyfer unigolion sydd wedi etifeddu Bwdhaeth a rhai sydd wedi cael tröedigaeth. Y tri math o noddfa yng nghyd-destun mathau eraill o noddfa sy'n bosibl yn y byd modern: gan gyfeirio at fateroliaeth, perthnasoedd, gwerthoedd seciwlar a chredoau gwleidyddol. |
| **B.** | **Myfyrdod:**<br><br>Pwysigrwydd myfyrdod mewn Bwdhaeth yn ogystal ag ymwybyddiaeth o nodweddion penodol y gwahanol draddodiadau o fyfyrdod: vipassana (mewnwelediad/gweld yn glir), samatha (tawelwch), metta bhavana (caredigrwydd cariadus) a zazen (eistedd). Sut y caiff yr arferion hyn eu defnyddio er mwyn cael mynediad at wir natur realiti, ac er mwyn meithrin rhinweddau sy'n arwain at ddeffroad. |
| **C.** | **Swyddogaeth a phwysigrwydd dana (rhoi) a punya (teilyngdod):**<br><br>Swyddogaeth a phwysigrwydd haelioni anhunanol/rhoi neu rannu amser/arian/eiddo. Swyddogaeth y gymuned Fwdhaidd o ran cefnogi pobl y tu mewn a thu allan i'r gymuned. Swyddogaeth a phwysigrwydd punya – y cysyniad o'r teilyngdod a ddaw yn sgil gweithredoedd neu feddyliau da ac sy'n parhau trwy gydol bywyd neu mewn ailenedigaethau dilynol, ac y gellir ei drosglwyddo i unigolion eraill. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• Perthnasedd mynd am noddfa yn y byd modern.<br>• Gwerth cymharol pob un o'r tri math o noddfa.<br>• Gwerth a pherthnasedd myfyrdod i bob Bwdhydd heddiw.<br>• Pwysigrwydd cymharol y gwahanol draddodiadau o fyfyrdod.<br>• Arwyddocâd arfer dana yn ei berthynas â’r cysyniad o punya.<br>• Pwysigrwydd cymharol dana a punya o'u cymharu â dysgeidiaeth Fwdhaidd arall. | |

## Uned 1: Opsiwn E – Cyflwyniad i Astudiaeth o Hindŵaeth

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

| | |
|---|---|
| | **Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 1)** |
| | **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** |
| **A.** | **Ffynonellau o awdurdod – tarddiadau Hindŵaeth:**<br><br>Gwareiddiad Dyffryn Indus a'i nodweddion; yr Aryaid a'u diwylliant; arferion Vedaidd – yr aberth Vedaidd a strwythur y gymdeithas Vedaidd; y ddadl ynglŷn â'r tarddiadau – diffiniadau o'r gair 'Hindŵaeth' sy'n anghyson â'i gilydd; gwrthdaro rhwng y damcaniaethau ynglŷn â tharddiadau Indus ac Arya. |
| **B.** | **Krishna ac Arjuna:**<br><br>Y ddysgeidiaeth ar dharma a varnadharma; y gwrthdaro a all godi o ddilyn dharma personol. Doethineb Samkhya, natur arferion crefyddol; yr amrywiol lwybrau i ryddhad – jnana yoga, karma yoga a bhakti yoga. Bhagavad Gita – 2:31; 3:4-5; 3:19; 9:23; 9:26-28; 9:32; 11:54; 14:23-26; 16:1-3; 18:46; 18:47. |
| **C.** | **Testunau Hindŵaidd fel ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod – eu defnydd mewn bywyd bob dydd:**<br><br>Cymhariaeth o statws a phwysigrwydd shruti a smriti. Arwyddocâd gwahaniaethau o ran awdurdod a defnydd – y Vedas mewn seremonïau defodol a'r Ramayana a Mahabharata ar gyfer dysgeidiaeth foesegol. Swyddogaeth y Ramayana o ran dysgu pwysigrwydd ymddygiad cyfiawn, gofal anhunanol, dewrder, cyfeillgarwch ac ymroddiad. Swyddogaeth y Mahabharata o ran dysgu pwysigrwydd gwneud eich dyletswydd. Swyddogaeth y gymuned o gredinwyr o ran dehongli a gweithredu doethineb ac awdurdod testunau Hindŵaidd. |
| | **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• Y ddadl ynglŷn â tharddiadau Hindŵaeth.<br>• Y berthynas rhwng Hindŵaeth fodern a thraddodiadau Dyffryn Indus ac Arya.<br>• Y berthynas rhwng Krishna ac Arjuna fel nodwedd ganolog o Hindŵaeth.<br>• Pwysigrwydd cymharol yr amrywiol lwybrau i ryddhad.<br>• Pwysigrwydd cymharol testunau Hindŵaidd mewn Hindŵaeth.<br>• Perthnasedd testunau Hindŵaidd yn y byd modern. |

## Uned 1: Opsiwn E – Cyflwyniad i Astudiaeth o Hindŵaeth

| | |
|---|---|
| **Thema 2: Cysyniadau crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Archwilio dysgeidiaeth Hindŵaidd sy'n ymwneud â'r hunan, marwolaeth, bywyd ar ôl marwolaeth ac ystyr a phwrpas bywyd gan gyfeirio at:**<br><br>**Brahman ac atman**<br><br>Y berthynas rhwng: Brahman fel sat, chit, ananda (bodolaeth, ymwybyddiaeth a gwynfyd) ac fel ysbryd macrocosmig (hollgyffredinol), ac atman fel ysbryd microcosmig (personol). Y gwahaniaeth rhwng jiva-atman (enaid unigol) a paramatman (goruwch hunan – Duw); Monyddol (y gred bod Duw a'r enaid yn un) ac Undduwiol (y gred bod Duw a'r enaid yn wahanol); Shankara (a fu'n hyrwyddo Advaita Vedanta sy'n pwysleisio safbwynt amhersonol ar ddwyfoldeb) a Madhva (a fu'n hyrwyddo Dvaita Vedanta). |
| **B.** | **Trimurti:**<br><br>Perthynas a phwysigrwydd Saguna Brahman i ddealltwriaeth Hindŵaidd o Saguna Brahman (Duw â nodweddion) – Brahma – creawdwr, Vishnu – ceidwad, Shiva – dinistriwr, a'r weledigaeth Hindŵaidd fod amser yn gylchol – dychwelyd i fywyd ar ffurf newydd; cysylltiad â rhyddhad – torri cylch bythol samsara – creu, cadw a dinistrio. Nodweddion allweddol Vaishnaviaeth a Shaiviaeth fel traddodiadau crefyddol. |
| **C.** | **Egwyddorion moesol allweddol – karma ac ailymgnawdoliad:**<br><br>Karma yng nghyd-destun samsara a phwysigrwydd trefn fythol a hollgyffredinol; gwahanol agweddau ar karma (cronedig, ffrwythlon a karma ar y gweill) a'u dylanwad ar fathau o ailymgnawdoliad. Y berthynas rhwng samsara a moksha ac arwyddocâd ailenedigaeth ddynol o fewn samsara. Bhagavad Gita 2:13. Arwyddocâd karma ac ailymgnawdoliad yng nghyd-destun ystyr a phwrpas bywyd mewn Hindŵaeth – cyflawni moksha. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• Natur y berthynas rhwng Brahman ac atman.<br>• A yw'n bosibl addoli Duw amhersonol.<br>• Pwysigrwydd cymharol Trimurti mewn Hindŵaeth o'i gymharu â’r cysyniadau eraill a astudiwyd.<br>• A ellir ystyried Vaishnaviaeth a Shaiviaeth yn grefyddau ynddynt eu hunain.<br>• Effaith dysgeidiaeth am karma ac ailymgnawdoliad ar ffordd o fyw’r Hindŵiaid.<br>• Pwysigrwydd cymharol y bywyd presennol a'r bywyd nesaf mewn Hindŵaeth. | |

## Uned 1: Opsiwn E – Cyflwyniad i Astudiaeth o Hindŵaeth

| **Thema 3: Bywyd crefyddol** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Egwyddorion moesol allweddol y Varnashramadharma**:<br><br>Tarddiadau mytholegol y system yn y Purusha Sukta – Rig Veda 10:90 11-12, y cysyniad o Varnashramadharma – y cyfeirir ato weithiau fel Caturvarnashramadharma – catur (pedwar) – yn diffinio dyletswyddau ar gyfer yr unigolyn yn ôl ei sefyllfa ym mhedwar varna cymdeithas – brahmana (offeiriaid), kshatriya (rhyfelwyr a llywodraethwyr), vaishya (masnachwyr) a sudra (llafurwyr).<br><br>Y pedwar ashrama – brahmacharya (cyfnod y myfyriwr), grihastha (cyfnod y penteulu), vanaprastha (cyfnod ymddeol) and sannyasin (cyfnod ymwadu). Perthynas â bhakti; cysylltiadau a gwahaniaethau â Santana dharma (Bhagavad Gita 18:47). |
| **B.** | **Statws y Dalitiaid:**<br><br>Eu statws o fewn y system varna – eu safle y tu allan i'r pedwar varna – wedi'u cau allan o brif ffrwd y gymdeithas; cymhariaeth rhwng Gandhi – a oedd yn gwrthod anghyffyrddadwyedd ond yn cefnogi'r system varna – ac Ambedkar – a oedd yn cefnogi cael gwared ar y system varna yn gyfan gwbl; statws cyfredol Dalitiaid – drwy gyfrwng Plaid y Bahujan Samaj a datblygiad a gwelliant eu sefyllfa yn y gymdeithas – llwyddiant ym myd busnes ac mewn bywyd cyhoeddus. |
| **C.** | **Egwyddor foesol allweddol – y cysyniad o ahimsa:**<br><br>Tarddiadau Jainiaidd y cysyniad a'i gymhwysiad –didreisedd radical yn seiliedig ar y gred bod pob bod byw yn haeddu parch, ac mae pob Jain yn lysieuwr o ganlyniad; cysyniad traddodiadol mewn Hindŵaeth; a'i gymhwysiad; ailddehongliad Gandhi a'i ddefnydd o ahimsa fel cysyniad gwleidyddol; perthynas â satyagraha – grym gwirionedd; goblygiadau ar gyfer cydraddoldeb hiliol Manu 5:38. Ymarferoldeb y cysyniad yn y byd modern. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• I ba raddau y gellir disgrifio Hindŵaeth fel crefydd o ddyletswydd.<br>• Perthnasedd yr athramas i ffordd o fyw'r Hindŵiaid heddiw.<br>• Perthnasedd ac ymarferoldeb varna yn y byd heddiw.<br>• A yw'r feirniadaeth o'r system varna yn deg.<br>• Delfryd ahimsa fel safon berthnasol a theg ar gyfer bywyd yn y byd modern.<br>• A oes grym cynhenid yn perthyn i wirionedd. | |

## Uned 1: Opsiwn E – Cyflwyniad i Astudiaeth o Hindŵaeth

| **Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 1)** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Amrywiaeth yr arferion Hindŵaidd sy'n dylanwadu ar ac yn mynegi hunaniaeth gan gyfeirio at:**<br><br>**Puja yn y cartref ac yn y mandir:**<br><br>Natur puja yn y cartref a'r mandir – cymharu a chyferbynnu; pwysigrwydd y berthynas rhwng ffyddloniaid a duwdodau unigol; derbyn darshan; defodau mandir fel amrodio a derbyn prashad; pwysigrwydd cymharol addoli personol a chynulleidfaol. |
| **B.** | **Swyddogaeth gwyliau o ran dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol – gan gyfeirio at:**<br><br>**Holi:**<br><br>Cynrychioli stori Holika a Prahlada mewn rhai traddodiadau Hindŵaidd; stori Krishna a Radha mewn eraill; arwyddocâd ysbrydol y digwyddiadau hyn – Agni'n bendithio babanod; y duw Tân, rhinwedd cariad; cadarnhau a chryfhau ffydd; daioni'n trechu drygioni, graslonrwydd y Duwiau; yn atgoffa ffyddloniaid am amcanion a dyletswyddau bywyd – sef helpu eraill. Swyddogaeth y gymuned o gredinwyr o ran sicrhau bod traddodiadau'r gwyliau'n cael eu cynnal. |
| **C.** | **Durga Puja:**<br><br>Yn cynrychioli stori Rama, Sita a Durga; arwyddocâd ysbrydol y digwyddiadau hyn – diolchgarwch, helpu eraill; pwysigrwydd afatarau; Durga fel mam ddwyfol; amhurdeb a phechod; mae'n cadarnhau a chryfhau ffydd; daioni'n trechu drygioni, pwysigrwydd addoli a gweddïo; yn atgoffa ffyddloniaid o amcanion a dyletswyddau bywyd – sef byw bywyd sy'n rhydd o amhurdeb, pechod a gwendid. Swyddogaeth y gymuned o gredinwyr o ran sicrhau bod traddodiadau'r gwyliau'n cael eu cynnal. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• Pwysigrwydd cymharol puja yn y cartref ac yn y mandir.<br>• A ellir disgrifio puja fel profiad crefyddol.<br>• I ba raddau y mae gwyliau yn ffordd angenrheidiol o fynegi hunaniaeth Hindŵaidd.<br>• A yw dathlu digwyddiadau mytholegol neu hanesyddol ar ddyddiau gŵyl yn ystyrlon.<br>• Gwerth gwyliau Hindŵaidd fel digwyddiadau cymunedol.<br>• Pwysigrwydd cymharol Durga mewn Hindŵaeth. | |

## Uned 1: Opsiwn F – Cyflwyniad i Astudiaeth o Sikhiaeth

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

| | |
|---|---|
| **Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 1)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Bywyd a dysgeidiaeth Guru Nanak:**<br><br>**Dylanwad cefndir a syniadau cymdeithasol-grefyddol ei gyfnod ar ddysgeidiaeth allweddol:**<br>Ymosodiad y fyddin Mughal ac erledigaeth y Mughaliaid; dylanwad Sufiaeth; dylanwad Lalla; traddodiad sant gogledd India; undduwiaeth mewn Islam; y defnydd o ganeuon defosiynol; statws/rôl menywod mewn Islam a'r cast mewn Hindŵaeth – Adi Granth 150 ac Adi Granth 91.<br><br>**Y berthynas rhwng digwyddiadau allweddol yn ei fywyd a dysgeidiaeth benodol:**<br>Horosgop Guru Nanak adeg ei enedigaeth a'r gydnabyddiaeth o Un Arglwydd Di-ffurf. Ei brofiad o lys Duw, ei ddysgeidiaeth nad yw Duw yn Hindŵ nac yn Fwslim; ei genhadaeth i ddatgelu neges enw Duw i'r byd. Ei gyfarfyddiad â Sajjan a'i ddysgeidiaeth o'r hyn ydyw gwir grefydd – y digwyddiadau jannam sakhi. Dysgeidiaeth Guru Nanak yn erbyn y gyfundrefn gast; dyrchafu statws menywod; sefydlu sefydliad y guru; yn gwrthod seremoni'r edau gysegredig a defodau Hindŵaidd; ei waith yn sefydlu cymuned yn Kartapur ar sail egwyddorion Sikhaidd. |
| **B.** | **Cyfraniad Guru Gobind Singh at ddatblygiad Sikhiaeth:**<br><br>Perthynas ei weithgarwch â gweledigaeth Nanak – fel gwarchodwr ac adferwr; ei waith yn gwarchod Sikhiaeth yn wyneb ymosodiadau ac erledigaeth; ei waith yn datblygu Sikhiaeth fel crefydd â hunaniaeth gref – yn barod i amddiffyn ei chredoau a'i hegwyddorion; a'r elfen gymunedol – yn sefydlu'r Khalsa; cyflwynodd y seremoni amrit fel modd o dderbyn a gwisgo'r 5 K; mabwysiadu'r enwau Singh a Kaur; croesawu menywod ac aelodau pob cast i mewn i'r gymuned; cyfrannu at y gwaith o grynhoi a darparu cynnwys y Dasam Granth; dehongliad a chysyniad newydd o Guru – y Guru Panth; datblygu'r Guru Granth Sahib. |
| **C.** | **Y Guru Granth Sahib fel ffynhonnell doethineb ac awdurdod – y defnydd a'r driniaeth a wneir ohono wrth addoli ac mewn bywyd bob dydd:**<br><br>Ei statws cyfreithiol a diwinyddol – caiff ei ystyried yn Guru byw gydag awdurdod llawn dros ddysgeidiaeth pob Guru a chaiff ei drin â'r un ffyddlondeb a pharch; caiff pob penderfyniad ei wneud ym mhresenoldeb Guru Granth; rhaid cyflawni pob seremoni a defod newid byd yn ei bresenoldeb; mae'n sail i bob pregeth ac yn awdurdod sy'n sail i ddysgeidiaeth Sikhaidd ar natur Duw, ffydd ac iachawdwriaeth, y gwahaniaeth rhwng Adi Granth a Guru Granth; swyddogaeth ysgrifau Mwslimaidd a Hindŵaidd o fewn ei gynnwys – *Sheik Farid* – Guru Granth Sahib – 448, 1384; *Bhagat Ramanand* – Guru Granth Sahib – 1195; creu ysgrif gurmukhi; ei swyddogaeth yn fwy na chanolbwynt gweledol ar gyfer defosiynau Sikhaidd – cymryd lle'r Gurus byw; mae'n ganllaw i'r Sikhiaid yn eu bywyd bob dydd – vak lao (derbyn cyngor). |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• I ba raddau yr oedd Guru Nanak yn arloeswr crefyddol.<br>• Pwysigrwydd cymharol cefndir Guru Nanak ac effaith digwyddiadau allweddol eraill yn ei fywyd ar ei ddysgeidiaeth.<br>• I ba raddau y gwnaeth Guru Gobind Singh newid neu ddatblygu Sikhiaeth Guru Nanak.<br>• Dylanwad Guru Gobind Singh ar hunaniaeth Sikhaidd.<br>• Perthnasedd y Guru Granth Sahib i Sikhiaid heddiw.<br>• I ba raddau y gellir ystyried y Guru Granth Sahib fel gwrthrych addoli ar gyfer Sikhiaid. | |

## Uned 1: Opsiwn F – Cyflwyniad i Astudiaeth o Sikhiaeth

| | |
|---|---|
| **Thema 2: Cysyniadau crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Archwilio dysgeidiaeth Sikhiaidd sy'n ymwneud â'r hunan, marwolaeth, bywyd ar ôl marwolaeth ac ystyr a phwrpas bywyd, gan gyfeirio at:**<br><br>**Dealltwriaeth athronyddol o'r cysyniad Sikhaidd o Dduw:**<br><br>Duw yw'r un, yr unig un a'r un heb ei ail; symbolaeth Ik Onkar (Adi Granth 929, 1035, 1037); Duw yn bersonol – Adi Granth 784, 1190; Duw fel nirguna (heb briodoleddau) a saguna (â phriodoleddau); Duw hollalluog a hollwybodus; Duw fel creawdwr a chynhaliwr bywyd – Adi Granth 25, 684, 700; Duw mewnfodol a throsgynnol. |
| **B.** | **Yr enaid:**<br><br>Natur yr enaid – gwreichionyn dwyfol Waheguru, nefolaidd ac anfaterol; mewn undeb â Waheguru. Y nod o dorri cylch ailenedigaeth; taith yr enaid trwy lawer o ffurfiau bywyd er mwyn cyrraedd y nod hwn; cyfnodau o ddatblygiad ar lwybr goleuedigaeth gan gynnwys cyfnod Saram Khand (teyrnas ymdrech ysbrydol a Karam Khand (teyrnas gras); dealltwriaeth fonyddol ac undduwiol o'r berthynas rhwng Duw a'r enaid. |
| **C.** | **Karma, ailenedigaeth a mukti:**<br><br>Dealltwriaeth athronyddol o lwybr rhyddhad – anwybodaeth yn cael ei ddisodli gan oleuedigaeth ysbrydol wedi'i heffeithio gan Ras Duw – dyma ystyr a phwrpas bywyd; swyddogaeth karma a thrawsfudiad yr enaid; mewn undeb â Duw – Adi Granth 1127, 905, 275 fel ystyr a phwrpas bywyd Sikhaidd. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Pwysigrwydd cymharol y cysyniad Sikhaidd o Dduw mewn perthynas â chysyniadau eraill.<br>• Ai'r ddysgeidiaeth Sikhaidd bwysicaf am Dduw yw bod Duw yn bersonol.<br>• Effeithiau dysgeidiaeth Sikhaidd ynglŷn â'r enaid ar safbwynt Sikhiaid ynglŷn â'r ddynoliaeth.<br>• Y berthynas rhwng Duw a'r enaid mewn Sikhiaeth – monyddol neu undduwiol.<br>• Perthnasedd credoau Sikhaidd am ailenedigaeth a mukti i Sikhiaid heddiw.<br>• Dylanwad credu mewn Karma ar ffordd o fyw'r Sikhiaid. | |

## Uned 1: Opsiwn F – Cyflwyniad i Astudiaeth o Sikhiaeth

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 3: Bywyd crefyddol</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Swyddogaeth ac arwyddocâd y ddysgeidiaeth/egwyddorion moesol allweddol canlynol ar gyfer y gymuned Sikhaidd:<br><br>Y cysyniad o sewa:<br><br>Ei ddylanwad ar foesoldeb personol – cydnabod dim rhwystrau i grefydd, cast neu hil; perthynas â dysgeidiaeth Guru Granth Sahib ac egwyddorion Sarbat da bhala; pwysigrwydd stad meddwl – gweithredu anhunanol ac anchwenychgar – gwasanaeth corfforol, gwasanaeth meddyliol, gwasanaeth materol; ei werth materol ac ysbrydol o fewn y gymuned Sikhaidd – rhan o fywyd ysbrydol Sikhaidd sy'n arwain at ryddhad ysbrydol. Bhai Gurdas, Varan 6:12. Swyddogaeth y gymuned o gredinwyr o ran arddangos gweithredu anhunanol i Dduw ac i eraill. Arwyddocâd Sewa i hunaniaeth Sikhaidd.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Kirat Karo a Vand Chhako:<br><br>Dysgeidiaeth Guru Gobind Singh; dealltwriaeth o gysyniad Kirat Karo (ennill arian mewn modd cyfiawn a gonest) mewn perthynas â Naam Japo (cofio Duw drwy ailadrodd a chanolbwyntio ar ei enw) a Vand Chhako (rhannu cyfoeth ag eraill); ei pherthynas â dysgeidiaeth ar karma; bod ar drywydd gras; ei dylanwad ar y sangat (cymuned).</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Y cysyniad o Sant Sipahi (sant-filwr) / Dharam Yudh (rhyfel cyfiawn):<br><br>Dealltwriaeth o gysyniad Sant Sipahi yng nghyd-destun datblygiad Sikhiaeth gan Guru Hargobind a Guru Gobind Singh; ystyr athronyddol y term; y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â sant; ei ystyr mewn perthynas â dharam; rheolau'r Khalsa mewn perthynas â'r egwyddor Sikhaidd sylfaenol o Dharam Yudh.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><br>• Pwysigrwydd cymharol sewa mewn bywyd Sikhaidd o'i gymharu â dysgeidiaeth arall.<br>• Ymarferoldeb y cysyniad o sewa ar gyfer Sikhiaid heddiw.<br>• Pwysigrwydd cymharol rhinweddau Kirat Karo a Vand Chhako mewn Sikhiaeth.<br>• Y berthynas rhwng gwerthoedd ysbrydol a materol mewn Sikhiaeth.<br>• A oes modd cyfuno ysbrydolrwydd â'r defnydd o rym (Sant Sipahi a Dharam Yudh).<br>• Arwyddocâd traddodiad y Sant Sipahi ar gyfer Sikhiaid heddiw.</td></tr>
</table>

## Uned 1: Opsiwn F – Cyflwyniad i Astudiaeth o Sikhiaeth

| | |
|---|---|
| **Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 1)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Mynegiant hunaniaeth Sikhaidd trwy swyddogaeth y gurdwara:**<br><br>Cynrychioli'r egwyddor o ryddid i addoli – dim cyfyngiadau ar y sawl sy'n cael arwain yr addoliad o safbwynt cast neu ryw, cyhyd â'u bod yn gymwys i wneud hynny; bodloni anghenion crefyddol a chymdeithasol – arweiniad crefyddol a boddhad materol o safbwynt defnyddio'r langar fel ffordd o fynegi sewa; B40 Janam Sakhi, Adi Granth 1068; addoli fel adlewyrchiad o hunaniaeth Sikhaidd – pwysigrwydd y Guru Granth Sahib; mynegi credoau Sikhaidd, er enghraifft cydraddoldeb. |
| **B.** | **Diwali**:<br><br>Yn cynrychioli stori Guru Hargobind a'i hanes pan gafodd ei ryddhau o'r carchar; yn canolbwyntio ar faterion ysbrydol – rhyddid a gwaredigaeth; mae'n cadarnhau ac yn cryfhau ffydd – daioni'n trechu drygioni; goleuni'n trechu tywyllwch; yn atgoffa Sikhiaid am amcanion a dyletswyddau bywyd; yn canolbwyntio ar bwysigrwydd undod yn y gymuned; swyddogaeth y gymuned o gredinwyr o ran cynnal y traddodiadau sy'n gysylltiedig â'r ŵyl. |
| **C.** | **Vaisakhi**:<br><br>Dydd Calan yn y Punjab; yn coffáu sefydlu'r Khalsa Sikhaidd gan Guru Gobind Singh; yn canolbwyntio ar faterion ysbrydol – hunaniaeth Sikhaidd, aberth, rhinweddau'r bywyd Sikhaidd; mae'n cadarnhau ac yn cryfhau ffydd – yn atgoffa Sikhiaid am amcanion a dyletswyddau bywyd – amddiffyn y gwir, sefyll dros y gorthrymedig; yn creu teimlad o berthyn i gymuned – y Khalsa; swyddogaeth y gymuned o gredinwyr o ran cynnal y traddodiadau sy'n gysylltiedig â'r ŵyl. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• I ba raddau y mae'r gurdwara yn rhan hanfodol o'r grefydd Sikhaidd.<br>• Pwysigrwydd cymharol yr arferion a gynhelir yn y gurdwara.<br>• Pwysigrwydd cymharol Diwali a Vaisakhi.<br>• I ba raddau y mae gwyliau yn ffordd angenrheidiol o fynegi hunaniaeth Sikhaidd.<br>• Gwerth gwyliau Sikhaidd fel digwyddiadau cymunedol.<br>• A yw dathlu digwyddiadau hanesyddol ar ddyddiau gŵyl yn ystyrlon. | |

## 2.2 UG Uned 2

**Uned 2: Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg ac i Athroniaeth Crefydd.**

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud
25% o'r cymhwyster
120 marc

**Adran A: Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg**

Mae'r adran hon yn gyfle i ddysgwyr gaffael a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o gysyniadau a damcaniaethau moesegol, yn amrywio o absoliwtiaeth foesol i Iwtilitariaeth.

**Mae'r adran hon yn cynnwys astudiaeth o'r cynnwys canlynol:**

- iaith a meddylfryd moesegol trwy gysyniadau arwyddocaol a gweithiau meddylwyr allweddol, a welir mewn materion neu ddadleuon ym maes crefydd a moeseg
- tair damcaniaeth foesegol normadol fel moeseg ddeontolegol, deleolegol neu foeseg yn seiliedig ar gymeriad (rhaid i ddwy o leiaf fod yn seiliedig ar ymagweddau crefyddol)
- cymhwyso damcaniaeth foesegol at ddau fater personol, cymdeithasol neu fyd-eang o bwys, gan gynnwys safbwyntiau moesegol crefyddol.

**Adran B: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd**

Mae'r adran hon yn gyfle i ddysgwyr gaffael a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o rai o nodweddion allweddol themâu athronyddol sylfaenol, yn amrywio o ddadleuon dros fodolaeth Duw i brofiad crefyddol.

**Mae'r adran hon yn cynnwys astudiaeth o'r cynnwys canlynol:**

- materion a chwestiynau athronyddol a godir gan grefydd a chred yn cynnwys tair dadl gyferbyniol o leiaf ynghylch bodolaeth neu anfodolaeth Duw, duwiau neu realiti eithaf
- iaith a meddylfryd athronyddol trwy gysyniadau arwyddocaol a gweithiau meddylwyr allweddol, a welir mewn materion neu ddadleuon ym maes athroniaeth crefydd
- heriau i gred grefyddol megis problemau drygioni a dioddefaint
- natur a dylanwad profiad crefyddol.

Mae'r gridiau canlynol yn enghraifft o sut mae'r cynnwys gofynnol wedi'i ddatblygu mewn modd clir a chryno yn bedair thema:

## Uned 2: Adran A – Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

| | |
|---|---|
| | **Thema 1: Meddylfryd Moesegol** |
| | **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** |
| **A.** | **Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol**<br><br>Damcaniaeth feta-foesegol – Duw fel tarddiad a rheoleiddiwr moesoldeb; mae cywir ac anghywir yn wirioneddau gwrthrychol sy'n seiliedig ar ewyllys/gorchymyn Duw, cyflawnir daioni moesol drwy gydymffurfio â gorchymyn dwyfol; gorchymyn dwyfol fel un o ofynion natur hollalluog Duw; gorchymyn dwyfol fel sylfaen feta-ffisegol wrthrychol ar gyfer moesoldeb. Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol wedi'i haddasu gan *Robert Adams* (gorchymyn dwyfol yn seiliedig ar natur hollgariadus Duw).<br><br>**Heriau:** dilema Euthyphro (wedi'i ysbrydoli gan *Platon*); problem mympwyoldeb (mae damcaniaeth gorchymyn dwyfol yn cyfleu moesoldeb fel rhywbeth hollol fympwyol); gwrthwynebiad plwraliaeth (crefyddau gwahanol yn honni gorchmynion dwyfol gwahanol). |
| **B.** | **Damcaniaeth Rhinwedd**<br><br>System foesegol yn seiliedig ar ddiffinio'r rhinweddau personol sy'n achosi i berson fod yn foesol; y ffocws ar gymeriad person yn hytrach na'i weithredoedd penodol; rhinweddau moesol *Aristotle* (yn seiliedig ar brinder; gormodedd a'r cymedr); dysgeidiaeth Iesu ar rinweddau (y Gwynfydau).<br><br>**Heriau:** nid canllaw ymarferol ar gyfer ymddygiad moesol yw rhinweddau; materion yn ymwneud â pherthynoliaeth ddiwylliannol (nid yw'r syniadau ynglŷn â rhinweddau da yn rhai byd-eang); gellir defnyddio rhinweddau ar gyfer gweithredoedd anfoesol. |
| **C.** | **Myfïaeth Foesegol**<br><br>Moeseg asiant-ganolog normadol yn seiliedig ar hunan-les yn hytrach nag allgaredd; damcaniaeth foesegol sy'n cyd-fynd â chyflwr seicolegol yr asiant moesol (myfïaeth seicolegol); canolbwyntio ar hunan-les tymor hir yn hytrach na buddiannau tymor byr; *Max Stirner*, ai hunan-les sydd wrth wraidd pob gweithred ddynol hyd yn oed os yw'n ymddangos yn allgarol?; gwrthod myfïaeth er mwyn elwa'n faterol; undeb y myfïwyr.<br><br>**Heriau:** mae'n dinistrio ethos cymuned; gallai anghyfiawnderau cymdeithasol ddigwydd gan fod unigolion yn blaenoriaethu eu buddiannau eu hunain; math o ragfarn (pam mae un asiant moesol yn bwysicach nag unrhyw asiant moesol arall?). |
| | **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• Ai moesoldeb yw'r hyn y mae Duw yn ei orchymyn.<br>• A yw bod yn berson da yn well na gwneud gweithredoedd da yn unig.<br>• A yw Damcaniaeth Rhinwedd yn ddefnyddiol pan fydd dilema moesol yn codi.<br>• I ba raddau y mae Myfïaeth Foesegol yn anochel yn arwain at ddrygioni moesol.<br>• I ba raddau mai hunan-les sy'n sail i bob gweithred foesol.<br>• A yw un o'r damcaniaethau – Damcaniaeth Gorchymyn Dwyfol, Damcaniaeth Rhinwedd neu Myfïaeth Foesegol – yn well na'r damcaniaethau eraill. |

## Uned 2: Adran A – Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 2: Deddf Naturiol Aquinas – ymagwedd grefyddol at foeseg</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Deddf Naturiol Sant Thomas Aquinas: deddfau a gofynion fel sail i foesoldeb<br><br>Pedair lefel Aquinas o ddeddf (tragwyddol, dwyfol, naturiol a dynol); y Ddeddf Naturiol yn deillio o feddylfryd rhesymegol; yn seiliedig ar y gred mewn creawdwr dwyfol (y daioni uchaf yw'r ddealltwriaeth resymegol o bwrpas terfynol Duw). Y Ddeddf Naturiol fel math o absoliwtiaeth foesol a damcaniaeth sy'n cynnwys agweddau deontolegol a theleolegol. Y pum gofyniad cynradd (cynnal bywyd, cymdeithas drefnus, addoli Duw, addysg ac atgenhedlu'r ddynoliaeth) yn deillio o feddylfryd rhesymegol ac yn seiliedig ar y rhagosodiad o 'wneud daioni ac osgoi drygioni'; y gofynion eilaidd sy'n deillio o'r gofynion cynradd; pwysigrwydd ufuddhau i'r gofynion er mwyn sefydlu'r berthynas iawn â Duw ac er mwyn sicrhau bywyd tragwyddol gyda Duw yn y nefoedd.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Deddf Naturiol Aquinas: swyddogaeth y rhinweddau a'r daioni o ran cefnogi ymddygiad moesol<br><br>Yr angen i fodau dynol fod yn debycach i Dduw drwy ddatblygu'r tair rhinwedd ddatguddiedig (ffydd, gobaith ac elusengarwch) a'r pedair prif rinwedd (gwroldeb, cymedroldeb, pwyll a chyfiawnder). Diffiniad Aquinas o'r gwahanol fathau o weithredoedd a daioni: gweithredoedd mewnol (bwriad yr asiant moesol wrth gyflawni gweithred) a gweithredoedd allanol (gweithredoedd asiant moesol); daioni gwirioneddol (daioni yn seiliedig ar resymu cywir sy'n cynorthwyo'r asiant moesol i gyrraedd ei telos) a daioni ymddangosiadol (daioni yn seiliedig ar resymu anghywir nad ydyw'n cynorthwyo'r asiant moesol i gyflawni ei bwrpas a roddir gan Dduw).</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Deddf Naturiol Aquinas: cymhwyso'r ddamcaniaeth<br><br>Cymhwyso Deddf Naturiol Aquinas at y ddau fater a restrir isod:<br><br>1. erthyliad<br>2. ewthanasia gwirfoddol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><br>• I ba raddau y gall y ddeddf ddynol gael ei dylanwadu gan y Ddeddf Naturiol.<br>• I ba raddau y mae natur absoliwtaidd a/neu ddeontolegol y Ddeddf Naturiol yn gweithio yn y gymdeithas gyfoes.<br>• Cryfderau a gwendidau'r Ddeddf Naturiol.<br>• Ystyried a yw'r Ddeddf Naturiol yn hyrwyddo anghyfiawnder.<br>• Effeithiolrwydd y Ddeddf Naturiol wrth ymdrin â materion moesegol.<br>• I ba raddau y mae'r Ddeddf Naturiol yn ddiystyr heb gred mewn Duw fel creawdwr.</td></tr>
</table>

## Uned 2: Adran A – Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg

<table>
<tr><td colspan="2">Thema 3: Moeseg Sefyllfa – ymagwedd grefyddol at foeseg</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</td></tr>
<tr><td>A.</td><td>Moeseg Sefyllfa Joseph Fletcher: ei benderfyniad i wrthod mathau eraill o foeseg ac i dderbyn agape yn sail i foesoldeb<br><br>Penderfyniad Fletcher i wrthod ymagweddau eraill at foeseg: deddfolaeth, antinomiaeth a swyddogaeth cydwybod: rhesymeg Fletcher ar gyfer defnyddio'r cysyniad crefyddol 'agape' (cariad anhunanol) fel 'y ffordd ganol' rhwng y ddau eithaf o ddeddfolaeth ac antinomiaeth; y dystiolaeth feiblaidd a ddefnyddir i gefnogi'r ymagwedd hon: dysgeidiaeth Iesu (Luc 10:25:37) a Paul (1 Corinthiaid 13). Moeseg Sefyllfa fel math o berthynoliaeth foesol, damcaniaeth ganlyniadaethol a theleolegol.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Moeseg Sefyllfa Fletcher: yr egwyddorion fel modd o asesu moesoldeb<br><br>Meistr-egwyddor Moeseg Sefyllfa (yn dilyn y cysyniad o agape); y pedair egwyddor weithredol (pragmatiaeth, perthynoliaeth, positifiaeth a phersonolyddiaeth); y chwe egwyddor sylfaenol (cariad yw'r unig ddaioni, cariad yw prif norm Cristnogaeth, mae cariad yn cyfateb i gyfiawnder, cariad at bawb, mae diben cariadus yn cyfiawnhau'r modd, ac mae cariad yn gwneud penderfyniadau yn sefyllfaol).</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Moeseg Sefyllfa Fletcher: cymhwyso'r ddamcaniaeth<br><br>Cymhwyso Moeseg Sefyllfa Fletcher at y ddau fater a restrir isod:<br><br>1. perthnasoedd cyfunrywiol<br>2. perthnasoedd amlgarwriaethol (polyamorous)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><br>• I ba raddau mai agape yw'r unig ddaioni cynhenid.<br>• A yw Moeseg Sefyllfa yn hyrwyddo ymddygiad anfoesol.<br>• I ba raddau y mae Moeseg Sefyllfa yn hyrwyddo cyfiawnder.<br>• Effeithiolrwydd Moeseg Sefyllfa wrth ymdrin â materion moesegol.<br>• A ddylai agape ddisodli rheolau crefyddol.<br>• I ba raddau y mae Moeseg Sefyllfa yn darparu sail ymarferol ar gyfer gwneud penderfyniadau moesol i gredinwyr crefyddol ac anghredinwyr.</td></tr>
</table>

## Uned 2: Adran A – Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 4: Iwtilitariaeth – ymagwedd anghrefyddol at foeseg</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Iwtilitariaeth Glasurol – Iwtilitariaeth Gweithredoedd Jeremy Bentham: hapusrwydd fel sail i foesoldeb<br><br>Damcaniaeth Bentham ynghylch 'defnyddioldeb' (utility/usefulness); y nod eithaf yw mynd ar drywydd pleser ac osgoi poen; egwyddor defnyddioldeb ('yr hapusrwydd mwyaf i'r nifer mwyaf o bobl'). Y calcwlws hedonig fel modd o fesur pleser ym mhob sefyllfa foesol unigryw; drwy ystyried saith ffactor: dwysedd, hyd, sicrwydd, agosrwydd, cyfoeth, purdeb a maint. Iwtilitariaeth Gweithredoedd fel math o berthynoliaeth foesol, damcaniaeth ganlyniadaethol a theleolegol.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>John Stuart Mill yn datblygu Iwtilitariaeth: mathau o bleser, egwyddor niwed a'i ddefnydd o'r rheolau<br><br>Syniad Mill nad yw pob pleser yr un fath – mae 'pleserau uwch' (deallusol) yn well na 'phleserau is' (pleser corfforol sylfaenol). Datblygiad 'Egwyddor Niwed': dylid cyfyngu ar weithredoedd unigolion er mwyn atal niwed i unigolion eraill. Nid oes angen i bob gweithred gael ei hasesu, ac mae gweithred yn gywir os ydyw'n cydymffurfio â rheol hanesyddol sy'n arddangos ei bod yn bodloni egwyddor defnyddioldeb (Iwtilitariaeth 'Rheolau', erbyn hyn). Iwtilitariaeth Mill fel cymysgedd teleolegol/deontolegol.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Iwtilitariaeth: cymhwyso'r damcaniaethau (Gweithredoedd a Rheolau)<br><br>Cymhwyso Iwtilitariaeth Gweithredoedd Bentham ac Iwtilitariaeth Rheolau Mill at y ddau fater a restrir isod:<br><br>1. arbrofi ar anifeiliaid ar gyfer ymchwil meddygol<br>2. defnyddio arfau niwclear fel arf ataliol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br>• I ba raddau y gellir ystyried pleser fel yr unig ddaioni cynhenid.<br>• I ba raddau y mae Iwtilitariaeth yn gweithio yn y gymdeithas gyfoes.<br>• I ba raddau y mae Iwtilitariaeth Rheolau yn darparu sail well nag Iwtilitariaeth Gweithredoedd ar gyfer gwneud penderfyniadau moesol.<br>• A yw Iwtilitariaeth yn hyrwyddo ymddygiad anfoesol.<br>• I ba raddau y mae Iwtilitariaeth yn hyrwyddo cyfiawnder.<br>• I ba raddau y mae Iwtilitariaeth yn darparu sail ymarferol ar gyfer gwneud penderfyniadau moesol i gredinwyr crefyddol ac anghredinwyr.</td></tr>
</table>

## Uned 2: Adran B – Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

| | |
|---|---|
| **Thema 1: Dadleuon dros fodolaeth Duw – anwythol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Dadleuon anwythol – cosmolegol**<br><br>Prawf anwythol; y cysyniad o *'a posteriori'*.<br>Y ddadl gosmolegol: Tri Dull cyntaf *Sant Thomas Aquinas* – (mudiant neu newid; achos ac effaith; amodoldeb a rheidrwydd).<br>Y ddadl gosmolegol Kalam gan gyfeirio at *William Lane Craig* (gwrthod anfeidreddau gweithredol, a'r cysyniad o greawdwr personol). |
| **B.** | **Dadleuon anwythol – teleolegol**<br><br>Pumed Dull *Sant Thomas Aquinas* – y cysyniad o lywodraethiant; cydweddiad y saethwr a'r saeth.<br>Oriadurwr *William Paley* – cydweddiad dyluniad cymhleth.<br>Dadleuon anthropig ac esthetig *Fredrick R. Tennant (F. R. Tennant)* – y bydysawd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer bywyd dynol deallus. |
| **C.** | **Heriau i ddadleuon anwythol:**<br><br>*David Hume* – gwrthwynebiadau empirig a beirniadaeth o achosion (cosmolegol).<br>*David Hume* – problemau â chydweddiadau; gwrthod honiadau theistig traddodiadol: nid Duw theistiaeth glasurol yw'r dylunydd o reidrwydd; duw prentis; sawl duw; duw absennol (teleolegol).<br>Esboniadau gwyddonol amgen, gan gynnwys damcaniaeth y Glec Fawr a damcaniaeth esblygiad drwy ddetholiad naturiol Charles Darwin. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• A yw'r dadleuon anwythol dros fodolaeth Duw yn berswadiol.<br>• I ba raddau y mae'r ddadl gosmolegol Kalam yn argyhoeddiadol.<br>• Effeithiolrwydd y ddadl gosmolegol/teleolegol dros fodolaeth Duw.<br>• A yw'r dadleuon cosmolegol/teleolegol dros fodolaeth Duw yn berswadiol yn yr 21ain ganrif.<br>• Effeithiolrwydd yr heriau i'r ddadl gosmolegol/teleolegol dros fodolaeth Duw.<br>• A yw esboniadau gwyddonol yn fwy perswadiol nag esboniadau athronyddol ynghylch bodolaeth y bydysawd. | |

## Uned 2: Adran B – Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 2: Dadleuon dros fodolaeth Duw – diddwythol</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Dadleuon diddwythol – tarddiadau'r ddadl ontolegol<br><br>Prawf diddwythol; y cysyniad o 'a priori'.<br>Sant Anselm – Duw fel y bod mwyaf posibl (Proslogion 2).<br>Sant Anselm – mae gan Dduw fodolaeth angenrheidiol (Proslogion 3).</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Dadleuon diddwythol – datblygiadau'r ddadl ontolegol<br><br>Rene Descartes – y cysyniad o Dduw fel bod hollol berffaith; cydweddiadau trionglau a mynyddoedd/dyffrynnoedd.<br>Norman Malcolm – Duw fel bod diderfyn: bodolaeth Duw fel rhywbeth angenrheidiol yn hytrach na rhywbeth posibl yn unig.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Heriau i'r ddadl ontolegol:<br><br>Gaunilo, ei ymateb i Sant Anselm; Gaunilo yn gwrthod y syniad o fod mwyaf posibl y mae modd ystyried bod ganddo fodolaeth ar wahân y tu allan i'n meddyliau; ei gydweddiad o'r syniad o'r ynys fwyaf er mwyn gwatwar rhesymeg Sant Anselm.<br>Gwrthwynebiad Immanuel Kant – nid yw bodolaeth yn draethiad dylanwadol: nid yw'n gallu bod yn briodwedd y mae gwrthrych yn gallu meddu arno neu fod yn brin ohono.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<ul><li>I ba raddau y mae dadleuon 'a priori' dros fodolaeth Duw yn berswadiol.</li><li>I ba raddau y mae amrywiol safbwyntiau crefyddol ar natur Duw yn dylanwadu ar ddadleuon dros fodolaeth Duw.</li><li>Effeithiolrwydd y ddadl ontolegol dros fodolaeth Duw.</li><li>A yw'r ddadl ontolegol yn fwy perswadiol na'r dadleuon cosmolegol/teleolegol dros fodolaeth Duw.</li><li>Effeithiolrwydd yr heriau i'r ddadl ontolegol dros fodolaeth Duw.</li><li>I ba raddau y mae gwrthwynebiadau i'r ddadl ontolegol yn berswadiol.</li></ul></td></tr>
</table>

## Uned 2: Adran B – Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd

| **Thema 3: Heriau i gred grefyddol (rhan 1) – problem drygioni a dioddefaint** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Problem drygioni**<br><br>Mathau o ddrygioni: moesol (wedi'i achosi gan asiantau ewyllys rydd) a naturiol (wedi'i achosi gan natur).<br>Problem resymegol drygioni: clasurol (Epicurus) – problem dioddefaint.<br>Datblygiad modern *John L. Mackie (J. L. Mackie)* – natur problem drygioni (triawd anghyson).<br>*William Rowe* (dioddefaint dwys bodau dynol ac anifeiliaid) a *Gregory S. Paul* (marwolaethau cynamserol). |
| **B.** | **Ymatebion crefyddol i broblem drygioni**:<br><br>**Theodiciaeth sy'n seiliedig ar un Awstin:**<br>Drygioni o ganlyniad i bechod: drygioni fel amddifadrwydd; cwymp dynoliaeth a'r greadigaeth; y Groes yn trechu drygioni, theodiciaeth penderfyniad yr enaid; heriau i theodiciaethau sy'n seiliedig ar un Awstin: dilysrwydd yr adroddiadau yn llyfr Genesis, Penodau 2 a 3; gwall gwyddonol – amhosib yn fiolegol i fodau dynol fod yn ddisgynyddion i un cwpwl (gan olygu bod y cysyniad ein bod wedi 'etifeddu' pechod Adda yn annilys); yn gwrth-ddweud y syniad bod y drefn berffaith yn datblygu i roi caos – tystiolaeth ddaearegol a biolegol sy'n awgrymu rhywbeth i'r gwrthwyneb; gwrthddywediadau moesol o Dduw hollgariadus a bodolaeth uffern; gwrthddywediad rhesymegol o greadigaeth berffaith sy'n gallu newid. |
| **C.** | **Ymatebion crefyddol i broblem drygioni:**<br><br>**Theodiciaeth sy'n seiliedig ar un Irenaeus:**<br>Dyffryn creu eneidiau: bodau dynol yn cael eu creu yn amherffaith; pellter epistemig; daioni eilradd; cyfiawnhad eschatolegol; heriau i theodiciaethau sy'n seiliedig ar un Irenaeus: y cysyniad bod iachawdwriaeth hollgyffredinol yn anghyfiawn; ni ddylai Duw hollgariadus ddefnyddio drygioni a dioddefaint fel offeryn; anferthedd dioddefaint a dosbarthiad anghyfartal drygioni a dioddefaint. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• I ba raddau y mae'r ffurf glasurol ar ddrygioni yn broblem.<br>• I ba raddau y mae dadleuon modern ynghylch problem drygioni'n effeithiol o ran profi anfodolaeth Duw.<br>• A yw theodiciaethau sy'n seiliedig ar un Awstin yn berthnasol yn yr 21ain ganrif.<br>• I ba raddau y mae theodiciaeth Awstin yn llwyddo i amddiffyn Duw Theistiaeth Glasurol.<br>• A yw theodiciaethau sy'n seiliedig ar un Irenaeus yn gredadwy yn yr 21ain ganrif.<br>• I ba raddau y mae theodiciaeth Irenaeus yn llwyddo i amddiffyn Duw Theistiaeth Glasurol. | |

## Uned 2: Adran B – Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 4: Profiad Crefyddol (rhan 1)</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Natur profiad crefyddol gan gyfeirio’n benodol at:<br><br>Gweledigaethau – synhwyraidd; deallusol; breuddwydion<br>Tröedigaeth – unigol/cymunedol; sydyn/graddol<br>Cyfriniaeth – trosgynnol; ecstatig ac unol<br>Gweddïo – mathau a chamau gweddïo yn ôl Teresa o Avila.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Profiad cyfriniol:<br><br>Pedair nodwedd William James o brofiad cyfriniol: anhraethol, noëtig, byrhoedlog a goddefol.<br><br>Rudolf Otto – cysyniad y 'nwminaidd'; mysterium tremendum; rhagdueddiad bodau dynol at brofiad crefyddol.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Heriau i wrthrychedd a dilysrwydd profiad crefyddol:<br><br>Gan gyfeirio at Caroline Franks Davis (heriau’n ymwneud â disgrifiadau; â'r goddrych ac â'r gwrthrych). Honiadau o brofiad crefyddol yn cael eu gwrthod ar sail camddealltwriaeth; honiadau rhithdybiol – o bosibl yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, honiadau ffantasi sy'n groes i brofiadau pob dydd.<br><br>Heriau: profiadau unigol sy’n ddilys er na ellir eu gwirio; gallai'r honiadau fod yn ddilys – hygrededd yr unigolyn; gall profiadau untro fod yn ddilys o hyd er na chânt eu hailadrodd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<ul><li>Effaith profiadau crefyddol ar gredoau ac arferion crefyddol.</li><li>A ellir derbyn bod gwahanol fathau o brofiadau crefyddol yr un mor ddilys â'i gilydd o ran cyfleu dysgeidiaeth a chredoau crefyddol.</li><li>Pa mor ddigonol yw pedair nodwedd James o ran diffinio profiad cyfriniol.</li><li>Pa mor ddigonol yw diffiniad Otto o 'niwmenaidd'.</li><li>I ba raddau y mae’r heriau i brofiadau crefyddol yn ddilys.</li><li>Grym perswâd heriau gwahanol Franks Davis.</li></ul></td></tr>
</table>

## 2.3 Safon Uwch Uned 3

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster
90 marc

Asesir dysgwyr ar **un** o'r opsiynau canlynol o ddewis o **chwech**:

Opsiwn A: Cristnogaeth
Opsiwn B: Islam
Opsiwn C: Iddewiaeth
Opsiwn D: Bwdhaeth
Opsiwn E: Hindŵaeth
Opsiwn F: Sikhiaeth

Noder: Ac eithrio un dewis, rhaid i ddysgwyr Safon Uwch astudio yr un grefydd a ddewiswyd ar gyfer Uned 1 UG ar gyfer Uned 3 Safon Uwch.

Yr eithriad yw y gall dysgwyr sy'n astudio Uned 1 Opsiwn A: Cristnogaeth ar gyfer UG astudio **naill ai** Uned 3 Opsiwn A: Cristnogaeth **neu** Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd) ar gyfer Safon Uwch.

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o'u crefydd ddewisol gan gwmpasu themâu'n amrywio o ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig i arferion sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol.

**Mae'r uned hon yn cynnwys astudiaeth o'r cynnwys canlynol:**

- credoau, gwerthoedd a dysgeidiaeth grefyddol, yn eu cydgysylltiadau a'u hamrywiaethau hanesyddol ac yn y byd cyfoes, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â natur a bodolaeth Duw, duwiau neu realiti eithaf, swyddogaeth y gymuned o gredinwyr, egwyddorion moesol allweddol, credoau am yr hunan, marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth, credoau am ystyr a phwrpas bywyd
- ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod yn cynnwys, lle bo'n briodol, ysgrythur a/neu destunau cysegredig a sut y cânt eu defnyddio a'u trin, ffigyrau crefyddol allweddol a/neu athrawon a'u dysgeidiaeth
- arferion sy'n dylanwadu ar a mynegi hunaniaeth grefyddol, gan gynnwys amrywiaeth yr arferion sy'n perthyn i draddodiad penodol
- datblygiadau cymdeithasol a hanesyddol mewn meddylfryd crefyddol neu ddiwinyddiaeth gan gynnwys heriau yn sgil seciwlareiddio, gwyddoniaeth, ymateb i blwraliaeth ac amrywiaeth o fewn traddodiadau, mudo, rôl newidiol dynion a menywod, ymagweddau ffeministaidd a rhyddhaol
- cymharu'r syniadau arwyddocaol a gyflwynir yng ngweithiau o leiaf ddau ysgolhaig allweddol a ddewiswyd o faes crefydd a chred
- dwy thema'n ymwneud â'r berthynas rhwng crefydd a chymdeithas
  - crefydd, cydraddoldeb a gwahaniaethu
  - goddefgarwch crefyddol, parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir
- sut mae datblygiadau mewn credoau ac arferion gydag amser wedi dylanwadu ar ddatblygiadau mewn astudiaethau crefyddol, moesegol, athronyddol a/neu gan ddehongliad testunol a chael eu dylanwadu ganddynt.

Mae'r gridiau canlynol yn enghraifft o sut mae'r cynnwys gofynnol wedi'i ddatblygu mewn modd clir a chryno yn bedair thema:

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn A: Astudiaeth o Gristnogaeth**

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

<table>
<tr><td colspan="2">Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</td></tr>
<tr><td>A.</td><td>Y Beibl fel ffynhonnell doethineb ac awdurdod:<br><br>Sut y cafodd y canon beiblaidd Cristnogol ei sefydlu. Amrywiol safbwyntiau ar y Beibl fel gair Duw: gwahanol ddehongliadau o ysbrydoliaeth (y safbwynt gwrthrychol ar ysbrydoliaeth; y safbwynt goddrychol ar ysbrydoliaeth; athrawiaeth cymhwysiad John Calvin).</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Yr eglwys fore (yn Actau'r Apostolion):<br><br>Ei neges a'i fformat: y cerygma fel y'i cyflwynwyd gan Charles H. Dodd (C. H. Dodd), gan gyfeirio at Actau 2:14-39; 3:12-26. Yr heriau i'r cerygma (gan gyfeirio at werth hanesyddol yr areithiau yn yr Actau a gwaith Rudolf Bultmann). Addasu'r neges Gristnogol yn unol â'r gynulleidfa.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Dau safbwynt ar Iesu:<br><br>Cymharu gwaith dau ysgolhaig allweddol, gan gynnwys eu safbwyntiau ar Iesu gan gyfeirio at eu dulliau gwahanol o astudio Iesu: John Dominic Crossan a Nicholas T. Wright (N. T. Wright).<br><br>Crossan: Iesu'r chwyldroadwr cymdeithasol; yn defnyddio efengylau apocryffaidd; yn gweld Iesu fel dyn a oedd yn perthyn i'w gyfnod; beth fyddai geiriau Iesu wedi'i olygu yng nghyfnod Iesu.<br><br>Wright: Iesu'r gwir Feseia; realaeth feirniadol; testunau fel modd o 'fynegi safbwyntiau byd-eang'; yn ceisio canfod yr esboniad gorau ar gyfer y traddodiadau a welir yn yr Efengylau.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<ul><li>I ba raddau y gellir ystyried y Beibl fel gair ysbrydoledig Duw.</li><li>A yw trefn y canon beiblaidd Cristnogol ei hun yn ysbrydoledig, neu ai'r testunau sy'n gynwysedig ynddynt yn unig sy'n ysbrydoledig.</li><li>I ba raddau y mae'r cerygma (o fewn yr Actau a astudiwyd) o unrhyw werth i Gristnogion heddiw.</li><li>A oes gan yr areithiau yn yr Actau unrhyw werth hanesyddol.</li><li>Dilysrwydd defnyddio realaeth feirniadol er mwyn deall Iesu.</li><li>Dilysrwydd defnyddio efengylau apocryffaidd er mwyn deall Iesu.</li></ul></td></tr>
</table>

WJEC CBAC Cyf.

## Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn A: Astudiaeth o Gristnogaeth

| | |
|---|---|
| | **Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol** |
| | **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** |
| **A.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Heriau yn sgil seciwlareiddio:**<br><br>Safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol ar Gristnogaeth yn y DU sy'n gwrthdaro (gwerth ysgolion ffydd Cristnogol; a oes modd galw'r DU yn 'wlad Gristnogol'); credoau sy'n gwrthdaro â chyfraith gwlad; heriau ymddangosiadol i Gristnogaeth (dirywiad yn rôl a statws Cristnogaeth; llai o ddylanwad mewn bywyd cyhoeddus; rhyddid crefyddol cyfyngedig). |
| **B.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Heriau o du gwyddoniaeth:**<br><br>Safbwyntiau cyferbyniol *Richard Dawkins* ac *Alister McGrath* ar y berthynas rhwng crefydd a gwyddoniaeth, a natur tystiolaeth; terfynau gwyddoniaeth; dadl, 'Duw y bylchau'. |
| **C.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Heriau yn sgil plwraliaeth ac amrywiaeth o fewn traddodiad:**<br><br>Y gwahaniaeth rhwng plwraliaeth grefyddol a derbyn amrywiaeth grefyddol; y safbwyntiau neilltuol a chynhwysol a fynegir yn y Beibl Cristnogol (Deuteronomium 6:5; Josua 23:16; Ioan 14:6; Actau 4:12); cyfraniad *John Hick* a *Karl Rahner* i agweddau cynhwysol Cristnogol (a'r gwahaniaeth rhwng eu safbwyntiau); y gwahaniaethau rhwng hollgyffredinolrwydd Cristnogol a hollgyffredinolrwydd plwralaidd. |
| | **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Effeithiolrwydd yr ymateb Cristnogol i her seciwlariaeth.<br>• I ba raddau y gellir galw'r DU yn wlad Gristnogol.<br>• I ba raddau y mae'n rhaid i'r gwyddonydd fod yn atheist (anffyddiwr).<br>• A yw gwyddoniaeth wedi lleihau rôl Duw mewn Cristnogaeth.<br>• I ba raddau y mae modd bod yn Gristion ymroddedig ac yn blwralydd crefyddol.<br>• I ba raddau y mae'r Beibl Cristnogol yn hyrwyddo neilltuolaeth. |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn A: Astudiaeth o Gristnogaeth**

| | |
|---|---|
| **Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Agweddau tuag at gyfoeth:**<br><br>Peryglon cyfoeth (gan gyfeirio at Marc 10:17-25; Mathew 6:25-34; Luc 12:33-34, 1 Timotheus 6:10); gwrthdaro ymddangosiadol rhwng dysgeidiaeth feiblaidd ar stiwardiaeth a'r ddelfryd asgetig; efengyl ffyniant y mudiad Gair-Ffydd. |
| **B.** | **Mudo a Christnogaeth yn y DU:**<br><br>Heriau Cristnogion yn mudo i’r DU gan gyfeirio at gymathiad, y ddarpariaeth o ran addoliad, arddull yr addoliad a materion yn ymwneud â diwylliant. Y mudiad cenhadaeth wrthdro i'r DU. |
| **C.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: crefydd, cydraddoldeb a gwahaniaethu.**<br><br>**Diwinyddiaeth ffeministaidd a rôl newidiol dynion a menywod:**<br><br>Cyfraniad *Mary Daly* a *Rosemary Radford Ruether* i ddiwinyddiaeth ffeministaidd. Rôl newidiol dynion a menywod gan gyfeirio at fater ordeinio menywod yn offeiriaid ac esgobion; yr effaith ar fywyd credinwyr a chymunedau o fewn Cristnogaeth heddiw. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• I ba raddau y mae cyfoeth yn arwydd o fendith Duw.<br>• A yw'r ddelfryd asgetig yn cydweddu â Christnogaeth.<br>• I ba raddau y mae'r DU yn faes cenhadol cyfoes.<br>• Y ffordd y mae mudwyr Cristnogol yn cymathu'n gymharol rhwydd ag eglwysi Cristnogol yn y DU.<br>• A yw dynion a menywod yn gyfartal mewn Cristnogaeth.<br>• I ba raddau y mae diwinyddiaeth ffeministaidd yn dylanwadu ar arferion Cristnogol modern. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn A: Astudiaeth o Gristnogaeth**

<table>
<tr><td colspan="2" align="center">Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)</td></tr>
<tr><td colspan="2" align="center">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</td></tr>
<tr><td>A.</td><td>Hunaniaeth grefyddol drwy uno enwadau:<br><br>Datblygiad y Mudiad Eciwmenaidd ers 1910 (Cynhadledd Genhadol y Byd); Cyngor Eglwysi'r Byd, ei resymeg, ei genhadaeth a'i waith yn y tri phrif faes: Undod, Cenhadaeth a Chysylltiadau Eciwmenaidd; Tyst Cyhoeddus a Diakonia; a Ffurfio Eciwmenaidd.</td></tr>
<tr><td colspan="2" align="center">Cysylltiadau synoptig – sut mae datblygiadau mewn credoau ac arferion gydag amser wedi dylanwadu ar ddatblygiadau mewn astudiaethau athronyddol/moesegol crefydd a chael eu dylanwadu ganddynt.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Hunaniaeth grefyddol trwy brofiad crefyddol:<br><br>Datblygiad y Mudiad Carismataidd ar ôl 1960; prif gredoau; goblygiadau i arfer y Cristion ym mhrofiad credinwyr a chymunedau Cristnogol; heriau athronyddol i brofiad carismataidd (gwirio ac esboniad naturiol).</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Hunaniaeth grefyddol trwy ymatebion i dlodi ac anghyfiawnder:<br><br>Y sail (wleidyddol, foesegol a chrefyddol) i ddiwinyddiaeth rhyddhad de America gan gyfeirio at Gustavo Gutierrez a Leonardo Boff; ymatebion Eglwys Rufain i ddiwinyddiaeth rhyddhad de America.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><br>• A ellir ystyried gwaith Cyngor Eglwysi'r Byd yn llwyddiant neu'n fethiant.<br>• I ba raddau y mae’r ffaith nad yw Eglwys Rufain yn aelod o Gyngor Eglwysi’r Byd yn effeithio ar y cyngor?.<br>• Cryfderau a gwendidau'r Mudiad Carismataidd.<br>• A yw esboniad naturiol o brofiadau carismataidd yn gwrthdaro â gwerth crefyddol y profiad.<br>• A yw sylfeini gwleidyddol a moesegol diwinyddiaeth rhyddhad yn bwysicach nag unrhyw sylfeini crefyddol.<br>• I ba raddau yr oedd diwinyddiaeth rhyddhad yn cynnig her ddiwylliannol i Eglwys Rufain.</td></tr>
</table>

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn B: Astudiaeth o Islam**

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

<table>
<tr><td colspan="2">Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</td></tr>
<tr><td>A.</td><td>Ffynonellau shari'a (y ffordd): Qur'an; sunna (llwybr clir a sathredig) a hadith (adroddiad); qiyas (cydweddiad); ijma (consensws)<br><br>Arwyddocâd sunna i Fwslimiaid a datblygiad hadith. Gwahanol gategorïau hadith mewn perthynas â dibynadwyedd cyffredinol testunau a'r gadwyn drosglwyddo. Datblygiad qiyas ac ijma. Gwaith Al-Shafi o ran dyfeisio methodoleg ar gyfer fiqh (dealltwriaeth ddofn) o shari'a. Sefydlu prif ysgolion y gyfraith er mwyn cymhwyso fiqh o fewn Islam.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Swyddogaeth shari'a a'i bwysigrwydd i Fwslimiaid:<br><br>Dealltwriaeth amrywiol o'r term shari'a a'r ffyrdd gwahanol o'i gymhwyso gan Fwslimiaid ledled y byd heddiw gan gyfeirio at: shari'a fel cyfraith sifil; shari'a fel cyfraith grefyddol a shari'a fel canllaw moesol. Swyddogaeth y mujtahid (arbenigwr cyfreithiol) a taqlid (efelychu). Cyfeiriadau penodol at y dadleuon yn ymwneud â ijtihad (ymdrech ddeallusol) a safbwyntiau cyferbyniol o Islam Sunni a Shi'a ar ijtihad. Cymhariaeth o safbwyntiau'r ysgolhaig Salafi Rashid Rida a'r ysgolhaig Islamaidd modernaidd Abdullahi Ahmed An-Na'im.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Dealltwriaeth Fwslimaidd o jihad:<br><br>Ystyr gwahanol jihad (ymdrech) – mwyaf a lleiaf. Pwysigrwydd ac arwyddocâd y jihad mwyaf fel ymdrech ysbrydol bersonol i bob Mwslim. Cyd-destun hanesyddol ac amodau penodol y jihad lleiaf. Y problemau wrth gymhwyso'r jihad lleiaf heddiw gan gyfeirio'n benodol at ryfela modern.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><ul><li>Natur ddiwinyddol shari'a.</li><li>I ba raddau y gall dehongliad bodau dynol amharu ar ddealltwriaeth o shari'a.</li><li>I ba raddau y mae disgrifiad o gyfraith shari'a yn gamarweiniol.</li><li>A yw'r drysau i ijtihad ar gau.</li><li>I ba raddau y mae jihad fel term yn cael ei gamddeall.</li><li>Perthnasedd dysgeidiaeth am y jihad lleiaf heddiw.</li></ul></td></tr>
</table>

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn B:  Astudiaeth o Islam**

| | |
|---|---|
| **Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Y cysyniad o wladwriaeth wedi'i llywodraethu yn ôl egwyddorion Islamaidd, a dylanwad gwleidyddol a chymdeithasol sefydliadau crefyddol fel her i seciwlareiddio:**<br><br>Strwythur crefyddol, cymdeithasol, moesol a gwleidyddol Madinah fel y model neu'r ddelfryd ar gyfer unrhyw wladwriaeth wedi'i llywodraethu yn ôl egwyddorion Islamaidd ac effaith Cyfansoddiad Madinah.  Swyddogaeth cyfraith shari'a mewn gwladwriaeth wedi'i llywodraethu yn ôl egwyddorion Islamaidd.  Her cyfraith shari'a mewn gwladwriaeth seciwlar nad yw'n Islamaidd. |
| **B.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Her safbwyntiau gwyddonol ynghylch dechreuad y bydysawd i Islam:**<br><br>Dysgeidiaeth Islamaidd am y greadigaeth a sut mae'n cydweddu â damcaniaethau gwyddonol cyfoes fel damcaniaethau'r Glec Fawr, y Cyflwr Sefydlog a Bydysawd sy'n Ehangu/Osgiliadu.  Dylid cyfeirio at Sura 3:26-27, Sura 23:12-14 a Sura 51:47. |
| **C.** | **Canfyddiadau Gorllewinol o Islam:**<br><br>Materion rhagfarn, camddehongli, anghywirdeb ac Islamoffobia drwy'r holl fyd Gorllewinol gyda ffocws penodol ar Brydain.  Gellir gweld enghreifftiau mewn: safbwyntiau gwleidyddol; safbwyntiau o ffynonellau'r cyfryngau (teledu, radio neu bapurau newydd) a/neu'r cyfryngau ar-lein. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Sut mae Islam yn cydweddu â democratiaeth.<br>• I ba raddau y mae shari'a yn ganllaw digonol ar gyfer pob agwedd ar gymdeithas.<br>• Effeithiolrwydd ymatebion Islamaidd i heriau safbwyntiau gwyddonol ynghylch dechreuad y bydysawd.<br>• A yw Islam yn cydweddu â gwyddoniaeth.<br>• I ba raddau y mae'r cyfryngau'n dylanwadu ar ganfyddiadau Gorllewinol o Islam.<br>• A yw'r modd y caiff Islam ei gyflwyno ym Mhydain heddiw yn gywir. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn B: Astudiaeth o Islam**

| **Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Agweddau Islamaidd tuag at blwraliaeth:**<br><br>Amrywiaeth mewn agweddau Mwslimaidd tuag at grefyddau eraill, gan gynnwys Pobl y Llyfr *(People of the Book)*. Y ddysgeidiaeth a geir yn Sura 42:13, Sura 2:136 a Sura 2:256. Pwysigrwydd rhyddid crefyddol yn hanes y grefydd Islamaidd. Tröedigaeth mewn Islam. |
| **B.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: crefydd, cydraddoldeb a gwahaniaethu.**<br><br>**Pwysigrwydd bywyd teuluol i'r grefydd Fwslimaidd:**<br><br>Swyddogaeth y teulu a'r cartref Mwslimaidd fel sylfaen i egwyddorion Islamaidd. Rôl newidiol dynion a menywod mewn Islam gan gyfeirio at fywyd teuluol. Rôl a statws menywod mewn Islam gan gyfeirio at ffeministiaeth: gwaith arloesol yr Athro Aisha Abd Al Rahman (sef *Bint ash shati*); safbwynt ffeministaidd cyfoes *Haleh Afshar*. |
| **C.** | **Islam a mudo: yr her o fod yn Fwslim ym Mhrydain heddiw:**<br><br>Archwiliad o'r problemau sy'n cael eu creu trwy wahanu a chymathu â chymunedau ac unigolion Mwslimaidd sy'n byw ym Mhrydain heddiw gan ganolbwyntio ar fwyd, gwisg, arferion crefyddol ac addysg. Swyddogaeth Cyngor Mwslimaidd Prydain. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Effeithiolrwydd ymatebion Islamaidd i blwraliaeth.<br>• A oes ymagwedd gydlynol tuag at dröedigaeth mewn Islam.<br>• I ba raddau y mae'r teulu Mwslimaidd yn ganolog i'r grefydd Islamaidd.<br>• A yw dynion a menywod yn gyfartal mewn Islam.<br>• Y posibilrwydd o gymathu â chymdeithas seciwlar i Fwslimiaid ym Mhrydain.<br>• Effeithiolrwydd Cyngor Mwslimaidd Prydain. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn B: Astudiaeth o Islam**

| | |
|---|---|
| **Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Amrywiaeth o fewn Islam:**<br><br>**Credoau ac arferion sy'n benodol i Islam Shi'a:**<br><br>Dehongliadau o'r Pum Piler sy'n benodol i Shi'a. Arwyddocâd y gwrthdaro hanesyddol a achosodd dyfodiad Islam Shi'a gan gyfeirio at: olyniaeth Ali; marwolaeth Hussein a merthyrdod. Credoau am yr Imam; Mahdi (arguddiad); pererindod; muta (priodas dros dro) a taqiyya (cuddio cred). |
| **Cysylltiadau synoptig – sut mae datblygiadau mewn credoau ac arferion gydag amser wedi dylanwadu ar ddatblygiadau mewn astudiaethau athronyddol/moesegol crefydd a chael eu dylanwadu ganddynt**. | |
| **B.** | **Islam a newid – datblygiad a dylanwad y canlynol ar gredoau ac arferion crefyddol o fewn Islam:**<br><br>**Meddylfryd athronyddol Sufi am natur Duw a phrofiad crefyddol:**<br><br>Y Qutb (arweinydd ysbrydol Sufi). Rôl yr athro, y defnydd o ddamhegion a pherthynas uniongyrchol bersonol yr athro a'r disgybl. Rôl asgetigiaeth. Rôl profiad crefyddol cyfriniol personol fel ffordd o gael profiad o Dduw. Yr amrywiaeth o arferion defosiynol Sufi gan gynnwys dhikr (cofio), muraqaba (myfyrdod Sufi) a sama (gwrando ysbrydol, chwyrlïo yn benodol). |
| **C.** | **Dadl foesegol am drosedd a chosb (gan gynnwys dadleuon a gyflwynir gan ysgolheigion o fewn ac oddi allan i'r traddodiad Islamaidd):**<br><br>Safbwyntiau Mwslimaidd traddodiadol ynghylch cosb am drosedd. Y categorïau o gosb: qisas; hudud; tazir. Cymharu gwahanol safbwyntiau ar y gosb eithaf: Naima Asif (Bargyfreithiwr); ysgolhaig Islamaidd traddodiadol – *Sheikh Ahmad Ash-Sharabasi*; ymateb *James Rachels* (ysgolhaig nad yw'n Islamaidd). |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• A yw Islam yn grefydd unedig neu'n grefydd ranedig.<br>• I ba raddau y mae Shi'a yn fath unigryw o Islam.<br>• Y posibilrwydd o undeb cyfriniol personol â Duw mewn Islam.<br>• Dilysrwydd crefyddol arferion defosiynol Sufi.<br>• Effeithiolrwydd dysgeidiaeth foesegol Islamaidd fel canllaw ar gyfer bywyd i Fwslimiaid heddiw.<br>• I ba raddau y gellir cymhwyso dysgeidiaeth Islamaidd am gosb heddiw. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn C: Astudiaeth o Iddewiaeth**

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

| | |
|---|---|
| | **Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)** |
| | **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** |
| **A.** | **Strwythur a datblygiad y Talmud a'i bwysigrwydd mewn Iddewiaeth:**<br><br>Y gwahaniaethau rhwng Talmud Jerwsalem a Babilon. Natur y Mishnah: cynnwys, arddull a phwysigrwydd wrth astudio Iddewiaeth. Natur y Gemara: cynnwys, arddull a phwysigrwydd wrth astudio Iddewiaeth. |
| **B.** | **Midrash mewn Iddewiaeth – y gwahaniaeth rhwng Halakhah ac Aggadah:**<br><br>Ystyr a phwrpas midrash. Dulliau midrashaidd: peshat (uniongyrchol, llythrennol); remez (awgrym); derash (homili); sod (cudd). Yr Halakhah a'r 613 mitzvot; Halakhah fel ewyllys Duw wedi'i datguddio – safbwyntiau Uniongred a Diwygiedig. Pwrpas a swyddogaeth Aggadah mewn midrash. |
| **C.** | ***Rabbi Shlomo Yitzchaki (Rashi)* a *Moses Maimonides*:**<br><br>Pwysigrwydd *Rashi* yn hanes astudio'r Talmud. Ymagwedd *Rashi* tuag at midrash: darlleniad manwl, esboniad fforensig a nod eglurder drwy peshat (dehongliad llythrennol).<br><br>Arwyddocâd *Maimonides* yn hanes astudiaethau Iddewig. Ymagwedd *Maimonides* tuag at midrash: athroniaeth a rhesymeg.<br><br>Cymharu safbwyntiau *Rashi* a *Maimonides* yn ymwneud â dealltwriaeth o destun y creu yn Genesis 1. |
| | **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Y Mishnah fel elfen bwysicaf y Talmud.<br>• Pwysigrwydd cymharol y Gemara.<br>• Pwysigrwydd Halakhah o'i gymharu â phwysigrwydd Haggadah i Iddewiaeth.<br>• A yw midrash yn wyddor anfanwl.<br>• Pwysigrwydd cymharol *Rashi* a *Maimonides* ar gyfer deall ysgrythurau Hebraeg.<br>• I ba raddau mai *Maimonides* yw'r ysgolhaig Iddewig mwyaf cyflawn. |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn C: Astudiaeth o Iddewiaeth**

| **Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Her seciwlareiddio:**<br><br>Tarddiadau Seioniaeth Grefyddol gan gyfeirio at Amos 9:14-15 a "diwinyddiaeth Seion" a welir yn y Beibl Hebraeg. Twf cenedlaetholdeb mewn ymateb i wrth-semitiaeth yn y 19eg ganrif. Seioniaeth wleidyddol a datblygu'r syniad o hunaniaeth genedlaethol ymhlith Iddewon gan gyfeirio at: achos Dreyfus; gwaith *Theodor Herzl* a'r Mudiad Seionaidd rhyngwladol; y gynhadledd Seionaidd Gyntaf yn 1897 a sefydlu hawliau gwleidyddol a chyfreithiol; adfywiad yr Hebraeg ar ei ffurf lafar gyfoes. Seioniaeth Lafur a datblygu'r kibbutz. Datblygiad y Mudiad Seionaidd a sefydlu gwladwriaeth seciwlar Israel. Mudo i Israel; her seciwlareiddio gan gyfeirio at ymateb penodol Iddewiaeth Haredi. |
| **B.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Her gwyddoniaeth:**<br><br>Amrywiaeth yr ymatebion mewn Iddewiaeth i faterion athronyddol yn ymwneud â natur Duw a dechrau'r greadigaeth gan gyfeirio at bereshit (yn y dechreuad); esblygiad a gwahanol ddealltwriaeth Iddewig o'r broses greu; y ddadl ynglŷn ag oedran y bydysawd. |
| **C.** | **Diwinyddiaeth yr Holocost:**<br><br>Ymatebion diwinyddol allweddol i'r Holocost gan gyfeirio at: ystyr "marwolaeth Duw", syniad *Richard Rubenstein*; syniad *Elie Wiesel*, "Treial Duw"; a safbwynt *Ignaz Maybaum* ar Israel fel y "gwas dioddefus" a'r Holocost fel "iawn dirprwyol" (vicarious atonement); *Eliezer Berkovitz* a "chuddio'r wyneb dwyfol" ac ewyllys rydd; cynnig *Emil Fackenheim* fod yr Holocost yn brofiad dadlennol newydd o Dduw trwy orchymyn rhif 614. |

**Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**

- Dilysrwydd a chryfderau'r cysylltiad rhwng Seioniaeth ac Iddewiaeth.
- A yw Seioniaeth yn fudiad i Iddewon yn benodol.
- Llwyddiant Iddewiaeth o ran bodloni'r her a ddaw yn sgil gwyddoniaeth.
- A yw Iddewiaeth yn cydweddu â gwyddoniaeth.
- Llwyddiant diwinyddiaeth yr Holocost o ran mynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil yr Holocost.
- A yw unrhyw enghraifft o ddiwinyddiaeth yr Holocost yn ddilys.

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn C: Astudiaeth o Iddewiaeth**

| | |
|---|---|
| **Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Datblygiad Iddewiaeth Ddiwygiedig ac agweddau Iddewig tuag at blwraliaeth:**<br><br>Swyddogaeth a gwaddol y Pittsburgh Platform gan gyfeirio at: agweddau tuag at feddylfryd rhyddhaol (bod yn ystyriol o'r tlawd) a Tikkun Olam (atgyweirio'r byd); agweddau tuag at grefyddau eraill; amrywiaeth y safbwyntiau mewn Iddewiaeth Ddiwygiedig ac Uniongred tuag at ddeialog rhwng crefyddau. |
| **B.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: crefydd, cydraddoldeb a gwahaniaethu.**<br><br>**Bywyd teuluol Iddewig, gan gynnwys safbwyntiau amrywiol o fewn Iddewiaeth am gydraddoldeb rhywiol:**<br><br>Rôl y teulu a'r cartref Iddewig fel sylfaen i egwyddorion Iddewig. Rôl newidiol dynion a menywod mewn Iddewiaeth gan gyfeirio at fywyd teuluol. Rôl a statws menywod mewn Iddewiaeth gan gyfeirio at ffeministiaeth: dadleuon ynghylch agunah (mewn cadwyni); dadleuon ynghylch minyan; cyfraniadau *Judith Plaskow* a *Margaret Wenig* i ffeministiaeth Iddewig. |
| **C.** | **Iddewiaeth a mudo: yr her o berthyn i grŵp lleiafrifol crefyddol ac ethnig ym Mhrydain gan gyfeirio at nodweddion allweddol agweddau ar fywyd Iddewig**<br><br>Archwilio'r problemau a achosir gan arwahanu a chymathu sy'n effeithio ar gymunedau ac unigolion Iddewig sy'n byw ym Mhrydain heddiw gan ganolbwyntio ar: kashrut (purdeb); gwisg; arfer y grefydd ac addysg. Swyddogaeth Cyngor yr Arweinwyr Iddewig. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Effeithiolrwydd ymatebion Iddewig i blwraliaeth.<br>• Effeithiolrwydd y Pittsburgh Platform mewn perthynas â thrafferthion y tlawd.<br>• Bywyd teuluol fel prif gryfder Iddewiaeth.<br>• A all menywod fod yn gyfartal â dynion mewn Iddewiaeth.<br>• Y posibilrwydd o gymathu â chymdeithas seciwlar i Iddewon ym Mhrydain.<br>• I ba raddau y mae cymathu yn cyfateb i golli hunaniaeth. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn C: Astudiaeth o Iddewiaeth**

| | |
|---|---|
| **Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Credoau ac arferion sy'n benodol i Iddewiaeth Hasidig:**<br><br>*Rabbi Yisrael ben Eliezer* (sef *Baal Shem Tov*) a gwrthwynebiad y Mitnagdim; mabwysiadu defod weddïo newydd; litwrgi diwygiedig; dylanwad y rebbe; iacháu gwyrthiol; ymagwedd carismataidd at addoli; bywyd o dduwioldeb; pwyslais ar addoli yn hytrach nag astudiaeth draddodiadol. |
| **Cysylltiadau synoptig – sut mae datblygiadau mewn credoau ac arferion gydag amser wedi dylanwadu ar ddatblygiadau mewn astudiaethau athronyddol/moesegol crefydd a chael eu dylanwadu ganddynt**. | |
| **B.** | **Dealltwriaeth athronyddol o natur Duw a'r profiad crefyddol a geir o fewn Kabbalah:**<br><br>Esoteriaeth: myfyrdod, cymhorthion gweledol, celf a hud. Swyddogaeth y Zohar. Y ffocws ar y profiad o Dduw a cheisio treiddio i hanfod Duw: En Sof (anfeidrol); Sefirot (ffrydiau); Devekut (dal gafael); a Tikkun (atgyweirio). |
| **C.** | **Dadl foesegol o fewn Iddewiaeth ynglŷn ag ymchwil embryonau, gan gynnwys dadleuon a gyflwynir gan ysgolheigion o fewn ac oddi allan i'r traddodiad Iddewig:**<br><br>Cyfraniadau Iddewig i'r ddadl am ymchwil embryonau gan gyfeirio'n benodol at: y berthynas rhwng ymchwil bôn-gelloedd a pikuach nefesh (sancteiddrwydd bywyd); trosglwyddo niwclear o gell somatig (SCNT); ymchwil embryonau cyn mewnblannu; cymharu safbwyntiau'r *Rabbi J. David Bleich* a'r *Rabbi Moshe David Tendler*; safbwyntiau a gwaith *yr Athro Clare Blackburn*. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• A yw Hasidisiaeth wedi cyfrannu at oroesiad Iddewiaeth.<br>• I ba raddau y mae Hasidisiaeth yn achos rhwyg o fewn Iddewiaeth.<br>• Y posibilrwydd o undeb cyfriniol personol â Duw mewn Iddewiaeth.<br>• Gwerth cymhorthion addoli o fewn Kabbalah.<br>• Effeithiolrwydd dysgeidiaeth foesegol Iddewig fel canllaw ar gyfer bywyd i Iddewon heddiw.<br>• I ba raddau y mae pikuach nefesh yn cydweddu ag ymchwil embryonau. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn D: Astudiaeth o Fwdhaeth**

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

| | |
|---|---|
| **Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Y Canon Pali: ei swyddogaeth mewn Bwdhaeth yn gyffredinol**<br><br>Y Tipitaka. Awdurdod y Vinaya ar gyfer y sanga Theravada, awdurdod ehangach ac arwyddocâd y Sutta Pitaka, perthnasedd yr Abhidhamma i ddatblygiad esboniadol Bwdhaeth. Pwysigrwydd y Canon Pali fel ffynhonnell doethineb. |
| **B.** | **Prif themâu a chysyniadau mewn dau o destunau'r Mahayana:**<br><br>Sutra'r Galon – cynnwys athronyddol yn ymwneud â chyd-hunaniaeth gwacter a ffurf.<br>Dameg y tŷ a oedd ar dân yn y Sutra Lotus – dangos enghraifft ô gysyniad dulliau medrus a natur dros drô'r dysgeidiaethau. |
| **C.** | **Y cyfraniad a wnaed i ddatblygiad meddylfryd Bwdhaidd gan waith athrawon Bwdhaidd cyfoes:**<br><br>Cymharu cefndir a gwaith y 14 e.g. *Dalai Lama*, y pedwerydd ar ddeg, a *Thich Nhat Hanh*: y dehongliad ymarferol a gafwyd ganddynt o ddysgeidiaethau Bwdhaeth i fywyd yn y Gorllewin: gan gyfeirio at bwyslais *Thich Nhat Hanh* ar arferion syml (gwenu, anadlu a cherdded) a phwyslais y *Dalai Lama* ar weithredoedd caredig; safbwyntiau'r ddau athro ynghylch tosturi a dim niweidio. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Pwysigrwydd cymharol y Canon Pali mewn Bwdhaeth.<br>• Arwyddocâd y Vinaya ar gyfer y Sangha.<br>• Y ddysgeidiaeth yn y Sutras Mahayana yn cynrychioli realiti.<br>• Dulliau medrus fel cysyniad sy'n allweddol i ddeall yr amrywiaeth o fewn Bwdhaeth.<br>• Llwyddiant cymharol y *Dalai Lama* a *Thich Nhat Hanh* o ran sicrhau perthnasedd Bwdhaeth yn y byd cyfoes.<br>• I ba raddau y mae'r *Dalai Lama* a *Thich Nhat Hanh* wedi datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o fynegi Bwdhaeth. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn D: Astudiaeth o Fwdhaeth**

| | |
|---|---|
| **Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Datblygiad hanesyddol Bwdhaeth yn Japan:**<br><br>Datblygiad traddodiadau Bwdhaidd allweddol yn Japan – Zen, y Wlad Bur a Nichiren, gan gyfeirio'n benodol at arferion canolog koan (datganiad paradocsaidd a ddefnyddir fel arfer mewn traddodiadau Zen), nembutsu (mynd am noddfa i Fwdha Amida/Amitabha mewn traddodiadau'r Wlad Bur) a daimoku (y mantra a ddefnyddir mewn traddodiadau Nichiren). |
| **B.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Ymatebion i heriau o du gwyddoniaeth:**<br><br>Y tensiwn rhwng portreadu Bwdhaeth fel crefydd sy'n osgoi 'ffydd ddall', pwysleisio gwireddu gwirionedd mewn profiad (gan gyfeirio at Kalama Sutta a.9 a 10) a bydolygon Bwdhyddion Asia sy'n cynnwys amrywiaeth o fodau a theyrnasoedd. Asesiad y *Dalai Lama* o werth gwyddoniaeth. |
| **C.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Ymatebion i heriau yn sgil seciwlareiddio:**<br><br>Y ffordd y mae Bwdhaeth yn aml yn cael ei phortreadu yn y Gorllewin fel athroniaeth seciwlar, gan gyfeirio at *Stephen Batchelor* (Atheist Bwdhaidd) a'i bortread o Fwdhaeth fel athroniaeth a ffordd o fyw resymegol, a *David Brazier* sy'n honni bod Bwdhaeth yn grefydd. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• I ba raddau y mae Bwdhaeth Japaneaidd yn unigryw.<br>• Pwysigrwydd koan, nembutsu a daimoku fel ffyrdd o fynegi dysgeidiaeth Fwdhaidd.<br>• I ba raddau y mae perthynas agos rhwng Bwdhaeth a gwyddoniaeth.<br>• Y ffyrdd nad yw Bwdhaeth yn cydweddu â safbwynt gwyddonol byd-eang.<br>• Dilysrwydd portreadau Gorllewinol o Fwdhaeth fel crefydd ddi-ffydd a seciwlar.<br>• Y cwestiwn a yw Bwdhaeth yn grefydd. | |

WJEC CBAC Cyf.

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn D: Astudiaeth o Fwdhaeth**

| | |
|---|---|
| **Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Ymatebion i heriau plwraliaeth ac amrywiaeth:**<br><br>Y pwyslais mewn Bwdhaeth ar yr unigolyn yn profi'r ddysgeidiaeth ac yn aros yn driw i brofiad, hyd yn oed os yw hynny'n golygu dilyn llwybr sy'n wahanol i Fwdhaeth (gan gyfeirio at y Sutta Kalama a. 9 a 10 a Majjhima Nikaya 56.16 – sgwrs y Bwdha ag Upali). Mewn Bwdhaeth Mahayana, mae'r ddysgeidiaeth weithiau'n cael ei hystyried yn un dros dro, upaya (dulliau medrus) gwahanol ar gyfer grandawyr gwahanol. Y cysyniad bod crefyddau yn cynnwys gwirionedd/daioni y mae modd i bawb ddysgu oddi wrtho, fel y gwelir yng Nghyhoeddebau'r Ymerawdwr Ashoka: Cyhoeddeb y Graig (Rock Edict) NB7 a Chyhoeddeb y Graig (Rock Edict) NB12. |
| **B.** | **Datblygiad hanesyddol Bwdhaeth ym Mhrydain:**<br><br>Bwdhaeth ym Mhrydain, gwahaniaethu rhwng Bwdhaeth 'treftadaeth' (Bwdhaeth pobl y mae eu perthnasau wedi eu geni mewn gwledydd Bwdhaidd ac wedi mewnfudo i Brydain) a 'thröedigaeth' i Fwdhaeth. Rhesymau posibl am boblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain. |
| **C.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: crefydd, cydraddoldeb a gwahaniaethu.**<br><br>**Rôl newidiol dynion a menywod gan gynnwys ymagweddau ffeministaidd mewn Bwdhaeth:**<br><br>Safbwyntiau gwahanol mewn Bwdhaeth ynghylch a yw menywod yn gallu bod yn lleianod neu brofi deffroad. Perswadiwyd y Bwdha i ordeinio menywod. Mae'r Sutra Lotus yn cyflwyno amrywi ddysgeidiaethau: gall pawb yn ddiwahân brofi deffroad y Bwdha; merch y Draig Frenin (Pennod 12) yn cael ei gweddnewid yn ddyn cyn profi deffroad. Gellir ystyried ymrwymiad Bwdhaeth i roi diwedd ar ddioddefaint fel agwedd ffeministaidd yn ei hanfod (fel y nodwyd gan *Rita Gross*). Nid oes tystiolaeth o fodolaeth stereoteipiau diwylliannol o ran rolau dynion a menywod mewn Bwdhaeth. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• I ba raddau y mae parodrwydd Bwdhaeth i fod yn agored yn golygu ei bod yn peryglu ei hunaniaeth.<br>• Gwerth profiad o'i gymharu â ffynonellau o awdurdod eraill sy'n bosibl mewn Bwdhaeth.<br>• Natur unigryw Bwdhaeth Brydeinig o gymharu â Bwdhaeth a geir mewn gwledydd eraill.<br>• Dilysrwydd cymharol 'tröedigaeth' i Fwdhaeth a Bwdhaeth 'treftadaeth'.<br>• Arwyddocâd cymharol y nodweddion sy'n cyfrannu at boblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain.<br>• I ba raddau y mae Bwdhaeth yn cydweddu â ffeministiaeth. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn D: Astudiaeth o Fwdhaeth**

| | |
|---|---|
| **Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Credoau ac arferion traddodiadau Bwdhaeth Tibet gan gyfeirio at mudra, mandala a mantra:**<br><br>Perthynas Bwdhaeth â chrefydd gyn-Fwdhaidd Bon fel rhan o'r cyd-destun ar gyfer datblygu'r arferion penodol hyn sy'n gysylltiedig â Bwdhaeth Vajrayana – mudra (symudiadau corfforol defodol, ystumiau llaw yn aml), mandala (diagramau cosmig) a mantra (seiniau sanctaidd). |
| **Cysylltiadau synoptig – sut mae datblygiadau mewn credoau ac arferion gydag amser wedi dylanwadu ar ddatblygiadau mewn astudiaethau athronyddol/moesegol crefydd a chael eu dylanwadu ganddynt**. | |
| **B.** | **Bwdhaeth a newid – datblygiad a dylanwad y canlynol ar gredoau ac arferion crefyddol o fewn Bwdhaeth:**<br><br>**Mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar/meddylgarwch:**<br><br>Dealltwriaeth athronyddol o natur realiti a phrofiad crefyddol a geir yn y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar/meddylgarwch cyfoes. Y defnydd o ymwybyddiaeth ofalgar/meddylgarwch ym maes gofäl iechyd, addysg a busnes – enghreifftiau o brofiadau'n ymwneud â rheoli poen, trin straen, iselder a gorbryder, rheoli canser, trin caethiwed, ymwybyddiaeth ofalgar/meddylgarwch mewn ysgolion, ymwybyddiaeth ofalgar/meddylgarwch mewn corfforaethau a busnesau mawr. Ymateb *Slavoj Zizek* – trwy annog camau i ryddhau straen, mae ymwybyddiaeth ofalgar/meddylgarwch yn gwasanaethu cyfalafiaeth yn hytrach na'i herio. |
| **C.** | **Bwdhaeth sy'n Ymgysylltu â'r Gymdeithas: traddodiadau 'rhyddhaol'**<br><br>Rhesymau dros ddatblygiad Bwdhaeth sy'n Ymgysylltu â'r Gymdeithas. Y brif ymdrech i drechu dioddefaint (nid dim ond i sicrhau ailenedigaeth gadarnhaol neu ddeffroad i'r hunan). Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ofalgar Thich Nhat Hanh. Y Dalai Lama yn cefnogi protestio di-drais yng nghyd-destun Tibet. Sakyadhita a'r Gymdeithas Heddwch Fwdhaidd fel enghreifftiau o sefydliadau allweddol i Fwdhaeth sy'n Ymgysylltu â'r Gymdeithas. Cyfraniad ysgolheigaidd *Joanna Macy* a *Damien Keown.* |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Natur unigryw Bwdhaeth Vajrayana.<br>• Pa mor ganolog yw arferion fel modd o fynegi syniadau Bwdhaidd.<br>• I ba raddau y gellir ystyried y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar/meddylgarwch cyfoes fel mudiad Bwdhaidd.<br>• I ba raddau y mae'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar/meddylgarwch cyfoes yn cynnig datrysiad i ddioddefaint.<br>• Cyfiawnder cymdeithasol fel amod ar gyfer ufuddhau i ddysgeidiaeth Fwdhaidd.<br>• Ymgysylltu â'r gymdeithas yn arfer sy'n tynnu sylw oddi ar y llwybr i Ddeffroad. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn E:   Astudiaeth o Hindŵaeth**

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

| | |
|---|---|
| **Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Natur ac arwyddocâd yr Upanishadau:**<br><br>Tarddiad a chefndir yr Upanishadau; dysgeidiaeth y gurus – dysgeidiaeth arwyddocaol ar y berthynas rhwng Brahman ac atman; cyflawni jnana a'r cysyniad o yajna. Dylid cyfeirio at: Upanishad Katha – sgwrs rhwng Yama (duw marwolaeth) a'i ddisgybl Chela 2:8; 2:24; 2:16; 3:6; 3:12; 3:15; 4:3; 5:2; 5:7; Upanishad Chandogya 6:13:1-3. |
| **B.** | **Cymharu'r cyfraniadau a wnaed i Hindŵaeth gan *Mahatma Gandhi* a *Shri Paramahamsa Ramakrishna*:**<br><br>***Gandhi***:<br><br>Argyhoeddiad a chred mewn Advaita Vedanta, satyagraha a brahmacharya; sut y cânt eu dehongli a'u cymhwyso. Y berthynas rhwng ei safiad gwleidyddol a'i gredoau crefyddol; hunanreolaeth i India; gwrthwynebu'r Partisiwn, gwrthwynebu 'anghyffyrddadwyedd'; credu mewn crefydd hollgyffredinol. Bhagavad Gita: 18:52-53. |
| **C.** | ***Shri Paramahamsa Ramakrishna*:**<br><br>Dylanwad profiadau cyfriniol ar ei feddylfryd.  Datblygiad Advaita – ei rôl yn hyrwyddo Hindŵaeth a datblygu meddylfryd neo-Vedanta; pwysigrwydd Vivekananda a chenhadaeth Ramakrishna yn natblygiad Hindŵaeth – dehongliad o feddwl *Ram Mohan Roy* a *Ramakrishna*; creu disgwrs poblogaidd ynghylch Hindŵaeth yn y Gorllewin; datblygiad neo-Vedanta; pwysigrwydd goddefgarwch a pharch tuag at bob llwybr ysbrydol; undod rhwng ysbrydolrwydd a materoliaeth; datblygiad Hindŵaeth fel un o grefyddau'r byd; dylanwad ar hunaniaeth Hindŵaidd; dylanwad ar agweddau tuag at gast ac addoli eilunod. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Pwysigrwydd yr Upanishadau i Hindŵiaid heddiw.<br>• Pwysigrwydd cymharol Upanishad Katha o fewn yr Upanishadau.<br>• I ba raddau yr oedd cyflawniadau *Gandhi* yn fwy gwleidyddol na chrefyddol.<br>• Llwyddiannau a methiannau unigol *Gandhi / Shri Paramahamsa Ramakrishna*.<br>• I ba raddau y cafodd *Ramakrishna* ei ddylanwadu gan syniadau Gorllewinol.<br>• Dylanwad cymharol *Vivekananda* a chenhadaeth *Ramakrishna* a datblygiad Hindŵaeth fel un o grefyddau'r byd. | |

## Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn E: Astudiaeth o Hindŵaeth

| | |
|---|---|
| **Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Y rhesymau dros ddatblygiad a thwf ISKCON:**<br><br>Gan gyfeirio'n arbennig at A.C. Bhaktivedanta Swami Prabhupada; rhesymau crefyddol a diwylliannol dros dwf; arferion allweddol – rheoleiddio bywyd fel cod ymddygiad llym; credoau allweddol, e.e. pwysigrwydd bhakti ar gyfer ymwybyddiaeth Krishna; bywyd a dylanwad Prabupadha. |
| **B.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Yr heriau i Hindŵaeth yn sgil seciwlareiddio ac o du gwyddoniaeth:**<br><br>Y berthynas rhwng Hindŵaeth a gwyddoniaeth mewn llenyddiaeth vedaidd – mae Sankhya yoga yn cynrychioli mater; rishiaid Hindŵaidd fel athronwyr, mathemategwyr a gwyddonwyr – Charaka ac Aryabhatta. Sut mae Hindŵaeth yn derbyn datblygiadau gwyddonol – cam dilys ond anghyflawn tuag at wybod a deall realiti; amrywiaeth barn – ceidwadol a rhyddfrydol. Ymateb Hindutva i seciwlareiddio yng nghyd-destun India fel gwladwriaeth seciwlar; dylanwad seciwlareiddio yn India; Hindŵiaid uniongred yn gweld hanes fel rhywbeth sydd wedi'i ragordeinio ac felly'n derbyn agweddau ar seciwlareiddio. |
| **C.** | **Meddwl rhyddhaol Hindŵaidd fel modd o amddiffyn y tlawd a'r gorthrymedig:**<br><br>Pwysigrwydd y pedwar purushartha – pedwar nod y bywyd dynol – sef dharma (cyfiawnder), artha (cyfoeth), karma (pleser) a moksha (rhyddhad) i agwedd yr Hindŵiaid tuag at gyfoeth a thlodi a'r berthynas rhyngddynt; eu dylanwad ar ganllawiau yr Arthashastra; dylanwad Vinoba Bhave. Manu 4:12, Manu 4:15. Rig Veda 10:117. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• ISKCON fel 'ymraniad' o Hindŵaeth 'draddodiadol'.<br>• Pwysigrwydd cymharol *Prabhupada* yn natblygiad a thwf ISKCON.<br>• I ba raddau mai ymateb Hindutva yw'r unig ymateb effeithiol i seciwlareiddio.<br>• Effeithiolrwydd ymatebion Hindŵaidd i heriau o du gwyddoniaeth.<br>• Perthnasedd ac ymarferoldeb agwedd Hindŵiaid tuag at gyfoeth a thlodi yn y byd cyfoes.<br>• I ba raddau y cafodd *Vinoba Bhave* ddylanwad ar agweddau Hindŵiaid tuag at les cymdeithasol. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn E: Astudiaeth o Hindŵaeth**

| | |
|---|---|
| **Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.**<br><br>**Y gwahaniaeth rhwng amrywiaeth a phlwraliaeth:**<br><br>Gellir ystyried Hindŵaeth fel traddodiad plwralaidd; mae llawer o amrywiadau crefyddol a diwylliannol yn cael eu derbyn o fewn Hindŵaeth ei hun; tarddiadau hanesyddol agweddau Hindŵaidd – Sarvodaya *Mahatma Gandhi* (dyrchafu hollgyffredinol neu les pawb). Y gwrthdaro rhwng neilltuolaeth a phlwraliaeth; agweddau Hindŵaidd tuag at grefyddau eraill – cysyniad ishtadeva (anrhydeddu Duw o dan sawl enw a ffurf); yr unigolyn sy'n dewis pwy yw ffocws eu hymchwiliad crefyddol; nid yw dathlu'r dwyfol o dan un enw yn atal dathlu o dan enw neu ffurf arall. |
| **B.** | **Effaith mudo ar hunaniaeth Hindŵaidd a'r heriau o berthyn i grŵp lleiafrifol crefyddol ac ethnig ym Mhrydain:**<br><br>Ystyr hunaniaeth Hindŵaidd yn nhermau cred, arferion, ffordd o fyw, addoli ac ymddygiad; gwrthdaro posibl rhwng Hindŵaeth draddodiadol a diwylliant poblogaidd; anawsterau ymarfer Hindŵaeth mewn cymdeithas nad yw'n Hindŵaidd. |
| **C.** | **Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: crefydd, cydraddoldeb a gwahaniaethu.**<br><br>**Rôl newidiol dynion a menywod mewn Hindŵaeth (yn cynnwys safbwyntiau gwahanol o fewn y grefydd):**<br><br>Safbwyntiau crefyddol a diwylliannol ar hawliau menywod. Safbwyntiau traddodiadol ar rôl y dyn a'r fenyw mewn Hindŵaeth; datblygiad rôl menywod gan gyfeirio at *Indira Ghandi*; safbwyntiau cyfoes ar rôl menywod a ffeministiaeth, gan gyfeirio at *Madhu Kishwar*; sut mae'r syniadau hyn wedi effeithio ar rôl dynion. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• I ba raddau y mae Hindŵaeth yn draddodiad neilltuol neu gynhwysol.<br>• Dylanwad cymharol Sarvodaya *Mahatma Gandhi* ar agweddau Hindŵaidd tuag at grefyddau eraill.<br>• Y posibilrwydd o gymathu â chymdeithas seciwlar i Hindŵiaid ym Mhrydain.<br>• I ba raddau y mae hunaniaeth Hindŵaidd yn bodoli ym Mhrydain.<br>• Rôl newidiol dynion a menywod mewn Hindŵaeth.<br>• I ba raddau y mae ffeministiaeth yn broblem mewn Hindŵaeth heddiw. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn E: Astudiaeth o Hindŵaeth**

| | |
|---|---|
| **Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Mudiad Bhakti:**<br><br>Tarddiad a chefndir y mudiad; gwahanol fathau o bhakti – bhakti marga (llwybr ymroddiad cariadus); Vaishnava bhakti (ymroddiad cariadus tuag at Vishnu); Shaiva bhakti (ymroddiad cariadus tuag at Shiva); yatra (pererindod) fel rhan o bhakti; Bhagavad Gita 9:26-28, 9:32, 16:1-3. |
| **Cysylltiadau synoptig – sut mae datblygiadau mewn credoau ac arferion gydag amser wedi dylanwadu ar ddatblygiadau mewn astudiaethau athronyddol/moesegol crefydd a chael eu dylanwadu ganddynt**. | |
| **B.** | **Hindŵaeth a newid – datblygiad a dylanwad y canlynol ar gredoau ac arferion crefyddol o fewn Hindŵaeth:**<br><br>**Dealltwriaeth athronyddol o natur realiti a phrofiad crefyddol a geir yn Samkhya yoga ac Advaita Vedanta:**<br><br>Datblygiad athroniaeth Samkhya; tri math o Brahman – ishvara, prakriti ac atman; y tri guna – sattva, rajas a tamas; dylanwad Patanjali yoga ac ashtanga. Upanishad Maitri 18-19, Upanishad Shvetashvatara 5:7, 12-13. Ystyr Advaita; dealltwriaeth o Brahman fel nirguna; dylanwad *Shankara* (sef *Shankaracharya*) a'i ddysgeidiaeth; tair lefel realiti – rhithiol, bydol ac eithaf; y syniad o adhyasa – arosod. |
| **C.** | **Biofoeseg Hindŵaidd:**<br><br>Anffrwythlondeb – dysgeidiaeth a chysyniadau Hindŵaidd perthnasol; ystyriaeth o safbwyntiau *Swasti Bhattacharyya* ac *S. Cromwell Crawford* ar 'Dechnoleg Ffrwythloni â Chymorth' – IVF, rhoi sberm a throsglwyddiad embryonig. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Bhakti fel llwybr a modd llai ysbrydol o fynegi Hindŵaeth.<br>• Pwysigrwydd cymharol mudiad Bhakti mewn Hindŵaeth.<br>• Llwyddiannau cymharol athroniaethau Samkhya ac Advaita Vedanta yn esbonio'r gwir berthynas rhwng Duw a'r ddynoliaeth.<br>• I ba raddau y gellir deall Brahman fel nirguna.<br>• Cyfyngiadau cymdeithasol a hanesyddol y ddysgeidiaeth foesegol Hindŵaidd rydych chi wedi'i hastudio.<br>• I ba raddau y mae IVF yn cydweddu â dysgeidiaeth Hindŵaidd. | |

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn F: Astudiaeth o Sikhiaeth**

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

<table>
<tr><td colspan="2" align="center">Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)</td></tr>
<tr><td colspan="2" align="center">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</td></tr>
<tr><td>A.</td><td>Swyddogaeth ac arwyddocâd testunau'r Mul Mantra a Japji Guru Nanak:<br><br>Y Mul Mantra a Japji Guru Nanak – astudiaeth o'u cynnwys athronyddol: presenoldeb rhyddhaol a rhyfeddol Duw – gellir ond glanhau meddyliau drwg drwy enw Duw yn unig; eu dehongli a'u cymhwyso mewn addoliad; myfyrdod a derbyniad personol – eu defnydd yn seremoni amrit; paratoi ar gyfer addoli yn y gurdwara; epilog i wasanaethau yn y gurdwara; yn crynhoi credoau Sikhaidd am Dduw.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Y cyfraniad a wnaed i ddatblygiad meddylfryd Sikhaidd gan weithiau'r unigolion canlynol:<br><br>Guru Arjan – cyfnod o dwf Sikhiaeth:<br><br>Teithiau cenhadol Guru Arjan i ranbarth Majha; lledaenu'r dylifiad o bobl Jat i'r panth Sikhaidd; brwydro yn erbyn gormes y Mughaliaid; ei enghraifft o ddysgeidiaeth dymhorol ac ysbrydol Sikhiaeth; awdur y Sukhamni (emyn heddwch); ei waith yn diogelu ac yn datblygu egwyddorion Guru Nanak; datblygu degymu o fewn Sikhiaeth. Adeiladu Harmandir yn Amritsar – nodweddion pensaernïol yn adlewyrchu credoau Sikhaidd, er enghraifft gostyngeiddrwydd gerbron Duw a'r syniad bod pob cast yn gyfartal. Llunio Adi Granth i hyrwyddo'r gwir, heddwch a myfyrdod; ei weledigaeth ar gyfer Sikhiaeth (Adi Granth 396 ac Adi Granth 1136).</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Maharaja Ranjit Singh a sefydlu'r ymerodraeth Sikhaidd:<br><br>Ei gefndir a'i fywyd cynnar; sefydlu Khalsa; sofraniaeth wleidyddol yn y Punjab; ei lwyddiant yn creu oes aur i Sikhiaeth; nodweddion yr ymerodraeth seciwlar – dim gwahaniaethu a rhyddid crefyddol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><br>• Pwysigrwydd cymharol Mul Mantra a Japji Guru Nanak mewn addoliad Sikhaidd.<br>• Pwysigrwydd cymharol Japji Guru Nanak a’r Mul Mantra fel datganiadau o ffydd mewn Sikhiaeth.<br>• Rhinweddau cymharol cyfraniadau Guru Arjan at Sikhiaeth.<br>• I ba raddau y mae statws y Gurus wedi'i orbwysleisio mewn Sikhiaeth.<br>• I ba raddau yr oedd teyrnas Sikhaidd Maharaja Ranjit Singh yn grefyddol.<br>• I ba raddau y gellir ystyried bod Maharaja Ranjit Singh yn bwysicach na Guru Arjan o ran datblygiad Sikhiaeth.</td></tr>
</table>

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn F: Astudiaeth o Sikhiaeth**

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Y dyhead am Khalistan:<br><br>Dealltwriaeth o'r cefndir gwleidyddol; Cyflafan Vaisakhi 1919; rhannu Punjab ym 1947; Ymgyrch Bluestar 1984; rôl erledigaeth yn hunaniaeth a dyheadau Sikhaidd; barn amrywiol ar hunanreolaeth.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: crefydd, cydraddoldeb a gwahaniaethu.<br><br>Rôl newidiol dynion a menywod mewn Sikhiaeth:<br><br>Dysgeidiaeth Guru Nanak – Adi Granth 62, 473; esiampl Guru Gobind Singh; priodas yn unweddog ac yn seremoni grefyddol; hawl gwraig weddw i fod yn benteulu; hawliau cyfartal mewn addysg ac addoliad; cydraddoldeb rhywiol – Guru Granth Sahib – 473; pwysigrwydd safbwyntiau menywod; cyfleoedd a rolau crefyddol cyfartal; cydraddoldeb yng ngwisg dynion a menywod. Guru Amar Das – ei ymdrech i benodi menywod yn athrawon. Safbwyntiau Dr Mohinder Kaur Gill; Dr Gurnam Kaur a Kanwaljit Kaur Singh. Perthynas ffeministiaeth ag athroniaeth grefyddol Sikhaidd – yn cydnabod bod dynion a menywod yn gyfartal, ond bod ganddynt rolau gwahanol.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.<br><br>Y gwahaniaeth rhwng amrywiaeth a phlwraliaeth:<br><br>Tarddiadau hanesyddol agweddau Sikhaidd – gwrthdaro ag Islam a Hindŵaeth; dysgeidiaeth Guru Granth Sahib; gwrthdaro rhwng safbwyntiau neilltuol a chynhwysol; agweddau Sikhaidd tuag at ddeialog rhwng crefyddau – Sikhiaeth ddim yn grefydd genhadol mwyach; agweddau Sikhaidd tuag at grefyddau eraill – cael goleuedigaeth drwy bob system grefyddol theistig. Amrywiaeth rhwng Sikhiaid Khalsa a rhai nad ydynt yn perthyn i'r khalsa.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><br>• Arwyddocâd erledigaeth o ran ffurfio Sikhiaeth.<br>• Pwysigrwydd cymharol y dyhead am Khalistan ac iaith a diwylliant Punjab.<br>• I ba raddau y mae ffeministiaeth wedi bod yn rhan o Sikhiaeth erioed.<br>• A yw dynion a menywod yn gyfartal mewn Sikhiaeth.<br>• I ba raddau y gellir ystyried Sikhiaeth fel crefydd heb genhadaeth.<br>• I ba raddau y mae Sikhiaeth yn draddodiad neilltuol neu gynhwysol.</td></tr>
</table>

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn F: Astudiaeth o Sikhiaeth**

<table>
<tr><td colspan="2">Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</td></tr>
<tr><td>A.</td><td>Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: parch a chydnabyddiaeth a'r ffyrdd y mae traddodiadau crefyddol yn gweld crefyddau eraill a safbwyntiau anghrefyddol byd-eang a'u honiadau ynghylch y gwir.<br><br>Yr heriau i Sikhiaeth o du gwyddoniaeth a'i ymatebion i seciwlareiddio:<br><br>Perthynas Sikhiaeth â gwyddoniaeth – dim gwrthdaro â safbwyntiau gwyddonol ynghylch y Glec Fawr, creu parhaus ac esblygiad – Guru Granth Sahib – 1163;8276. Seciwlareiddio: pwyslais Sikhiaid ar rwymedigaethau cymdeithasol a diwygiadau cymdeithasol; dyletswyddau fel dinesydd; rhyddid a chydraddoldeb crefyddol; a yw credoau Sikhaidd yn cydweddu â democratiaeth seciwlar. Ymatebion Sikhaidd i seciwlareiddio.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Tarddiadau a datblygiad y gymuned Sikhaidd ym Mhrydain:<br><br>Mudo o'r Punjab a Dwyrain Affrica; dosbarthiad y boblogaeth Sikhaidd ym Mhrydain; yr anawsterau ymddangosiadol a wynebwyd; mabwysiadu'r Sul; datblygiad y gurdwara fel canolfan gymdeithasol. Gwrthdaro rhwng gwerthoedd Sikhaidd traddodiadol a diwylliant poblogaidd.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Yr her o berthyn i grŵp lleiafrifol crefyddol ac ethnig ym Mhrydain gan gyfeirio at miri a piri:<br><br>Tarddiadau'r cysyniad o miri (tymhorol) a piri (ysbrydol); datblygiad teg a deg – cleddyf a chrochan; meddwl rhyddhaol Sikhaidd fel modd o amddiffyn y tlawd a'r gorthrymedig; goblygiadau ymarferol y cysyniad o amddiffyn y gorthrymedig a bwydo’r newynog ag anghenion materol ac ysbrydol; gwisgo'r kirpan.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<ul><li>Effeithiolrwydd ymatebion Sikhaidd i heriau o du gwyddoniaeth.</li><li>Y posibilrwydd o gymathu â chymdeithas seciwlar i Sikhiaid ym Mhrydain.</li><li>A yw ymatebion Sikhaidd i heriau yn sgil seciwlareiddio yn effeithiol.</li><li>I ba raddau y mae dosbarthiad y boblogaeth Sikhaidd ym Mhrydain wedi llesteirio ei datblygiad.</li><li>Y berthynas rhwng miri a piri i Sikhiaid mewn bywyd bob dydd.</li><li>Perthnasedd ac ymarferoldeb agweddau Sikhaidd tuag at amddiffyn y tlawd a'r gorthrymedig yn y byd cyfoes.</li></ul></td></tr>
</table>

**Uned 3: Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn F: Astudiaeth o Sikhiaeth**

| | |
|---|---|
| **Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol (rhan 2)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Statws a phwysigrwydd Rahit Maryada a Rahit Namas:**<br><br>Tarddiadau'r Rahit Maryada; y berthynas rhwng gwerthoedd, egwyddorion ac arferion – ei ddylanwad ar fywyd a pherthynas bersonol â Duw a sefydlu arferion sy'n benodol i Sikhiaeth; ei bwysigrwydd yn nhermau credoau a dylanwad ar hunaniaeth Sikhaidd – diffiniad o Sikhiaid a'r sawl nad ydynt yn Sikhiaid a'i ddylanwad ar unffurfiaeth arferion Sikhaidd ledled y byd; dehongli a diwygio – hunanddisgyblaeth; trefn yr arferion yn y gurdwara y berthynas rhwng Rahit Maryada a Rahit Namas. |
| **Cysylltiadau synoptig – sut mae datblygiadau mewn credoau ac arferion gydag amser wedi dylanwadu ar ddatblygiadau mewn astudiaethau athronyddol/moesegol crefydd a chael eu dylanwadu ganddynt**. | |
| **B.** | **Sikhiaeth a newid – datblygiad a dylanwad y canlynol ar gredoau ac arferion crefyddol o fewn Sikhiaeth:**<br><br>**Dealltwriaeth athronyddol o natur Duw a phrofiad crefyddol a geir yn enwau Duw:**<br><br>Hanfod ysbrydolrwydd Sikhaidd a'r arfer o Naam Japo (enw gwirioneddol Duw). Naam fel grym rheoli, nodweddion naam, y 5 Shabad (Duw fel gair) a'r 5 Khand (pum cam cynnydd ysbrydol yn arwain at y Gwirionedd Eithaf). |
| **C.** | **Sikhiaeth a biofoeseg – anffrwythlondeb;**<br><br>Dysgeidiaeth a chysyniadau Sikhaidd; ystyried a chymharu safbwyntiau ysgolheigion Sikhaidd – *D.S. Chahal*; *Dr Jodh Singh* a *W.O. Cole* fel ysgolhaig sydd y tu allan i'r ffydd Sikhaidd. Eu safbwyntiau ar 'Dechnoleg Ffrwythloni â Chymorth' – IVF, rhoi sberm a throsglwyddiad embryonig. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Effeithiolrwydd Rahit Maryada neu Rahit Namas fel canllaw i fywyd Sikhaidd.<br>• Pwysigrwydd cymharol y Rahit Maryada yng nghyd-destun hunaniaeth Sikhaidd.<br>• Yr arfer o Naam Japo fel tystiolaeth o undeb cyfriniol personol â Duw.<br>• Pwysigrwydd cymharol pum cam rhyddhad ysbrydol.<br>• Effeithiolrwydd dysgeidiaeth foesegol Sikhaidd rydych chi wedi'i hastudio fel canllaw ar gyfer bywyd i Sikhiaid heddiw.<br>• I ba raddau y mae IVF yn cydweddu â dysgeidiaeth Sikhaidd. | |

# 2.4 Safon Uwch Uned 4

**Uned 4: Crefydd a Moeseg**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster
90 marc

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o themâu moesegol sylfaenol, yn amrywio o iaith a meddylfryd moesegol i ewyllys rydd a phenderfyniaeth.

**Mae'r uned hon yn cynnwys astudiaeth o'r cynnwys canlynol:**

- iaith a meddylfryd moesegol trwy gysyniadau arwyddocaol a gweithiau meddylwyr allweddol, a welir mewn materion neu ddadleuon ym maes crefydd a moeseg
- tair damcaniaeth foesegol normadol fel moeseg ddeontolegol, deleolegol neu foeseg yn seiliedig ar gymeriad (rhaid i ddwy o leiaf fod yn seiliedig ar ymagweddau crefyddol)
- cymhwyso damcaniaeth foesegol at ddau fater personol, cymdeithasol neu fyd-eang o bwys, gan gynnwys safbwyntiau moesegol crefyddol
- sut mae iaith foesegol yn y cyfnod modern wedi newid dros amser; yn cynnwys astudiaeth o ddamcaniaethau meta-foesegol a syniadau arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol a moesegol fel ewyllys rydd, cydwybod neu awdurdod
- cymharu'r syniadau arwyddocaol a gyflwynwyd yng ngweithiau o leiaf ddau ysgolhaig allweddol a ddewiswyd o faes crefydd a moeseg, a datblygiadau yn y ffordd mae'r syniadau hyn yn cael eu cymhwyso mewn perthynas â materion o bwys mewn crefydd a chred
- sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser, a chan athroniaeth crefydd a/neu ddehongliad testunol.

Mae'r gridiau canlynol yn enghraifft o sut mae'r cynnwys gofynnol wedi'i ddatblygu mewn modd clir a chryno yn bedair thema:

**Uned 4: Crefydd a Moeseg**

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 1: Meddylfryd Moesegol (rhan 2)</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn athroniaeth crefydd dros amser.<br><br>Ymagweddau meta-foesegol: Naturiolaeth<br><br>Mae deddfau moesol gwrthrychol yn bodoli ar wahân i fodau dynol, gellir deall termau moesol drwy ddadansoddi'r byd naturiol; mae gosodiadau moesegol yn wybyddol a gellir eu gwirio neu eu hanwirio; mae gosodiadau moesol wedi'u gwirio yn wirioneddau gwrthrychol ac yn hollgyffredinol. Francis H. Bradley (F.H. Bradley) – mae brawddegau moesegol yn mynegi gosodiadau; mae nodweddion gwrthrychol y byd yn golygu bod gosodiadau yn wir neu'n anwir; gellir ystyried gosodiadau meta-foesegol yn nhermau gwyddoniaeth.<br><br>Heriau: David Hume – Deddf Hume (y broblem mae-dylai); Twyllresymeg Naturiaethol George E. Moore (G.E. Moore) (nid oes modd diffinio iaith foesol); Dadl y Cwestiwn Agored (nid oes modd diraddio ffeithiau moesol i briodweddau naturiol).</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn athroniaeth crefydd dros amser.<br><br>Ymagweddau meta-foesegol: Sythwelediaeth<br><br>Mae deddfau moesol gwrthrychol yn bodoli ar wahân i fodau dynol; gallwn ddarganfod gwirioneddau moesol drwy ddefnyddio ein meddwl mewn modd sythweledol; mae gallu sythweledol yn gynhenid ac yr un fath ar gyfer pob asiant moesol; mae sythwelediad yn gofyn am feddwl aeddfed felly nid yw'n anffaeledig; mae'n caniatáu ar gyfer gwerthoedd moesol gwrthrychol. Harold A. Prichard (H. A. Prichard) – ni ellir diffinio yr hyn 'dylen ni ei wneud'; rydyn ni'n adnabod yr hyn 'dylen ni ei wneud' drwy sythwelediad; dwy ffordd o feddwl (cyffredinol a moesol).<br><br>Heriau: dim tystiolaeth bod sythwelediad moesol yn bodoli; mae 'gwirioneddau' sythweledol yn gallu amrywio'n fawr; dim ffordd amlwg o ddatrys y broblem o sythwelediadau sy'n gwrthdaro â'i gilydd.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn athroniaeth crefydd dros amser.<br><br>Ymagweddau meta-foesegol: Emosiynaeth<br><br>Damcaniaeth sy'n credu nad yw deddfau moesol gwrthrychol yn bodoli; damcaniaeth anwybyddol; mae termau moesol yn mynegi agweddau emosiynol personol yn hytrach na gosodiadau; modd o fynegi cymeradwyaeth bersonol (hwrê) neu anghymeradwyaeth bersonol (bw) yn unig yw termau moesegol; mae'n awgrymu pam mae pobl yn anghytuno ynghylch moesoldeb. Alfred J. Ayer (A.J. Ayer) – nid oes modd gwirio na dadansoddi datganiadau moesegol; maent wedi'u bwriadu i fynegi hapusrwydd neu boen (emosiwn); wedi'u mynegi er mwyn perswadio; nid goddrychiaeth yw emosiynaeth.<br><br>Heriau: ni ellir sefydlu unrhyw egwyddorion moesol sylfaenol; mae dadl foesegol yn mynd yn weithgaredd dibwrpas; nid oes modd cael cytundeb hollgyffredinol fod rhai gweithredoedd yn anghywir.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><br>• A yw datganiadau moesegol ac anfoesegol yr un fath.<br>• I ba raddau nad yw datganiadau moesegol yn wrthrychol.<br>• A yw termau moesol yn sythweledol.<br>• I ba raddau mai modd o fynegi ein hemosiynau yn unig yw termau moesol.<br>• A yw naill ai Naturiolaeth, Sythwelediaeth neu Emosiynaeth yn well na'r damcaniaethau eraill.<br>• I ba raddau y mae'r amrywiol ddamcaniaethau meta-foesegol yn annog dadl foesol.</td></tr>
</table>

**ned 4: Crefydd a Moeseg**

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 2: Moeseg Ddeontolegol</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td>A.</td><td>Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser, a chan athroniaeth crefydd.<br><br>Datblygiad John Finnis o'r Ddeddf Naturiol:<br><br>Datblygiad y saith daioni dynol sylfaenol (bywyd, gwybodaeth, cyfeillgarwch, chwarae, profiad esthetig, rhesymolrwydd ymarferol a chrefydd); y gwahaniaeth rhwng rheswm damcaniaethol / ymarferol; Naw Gofyniad Rheswm Ymarferol (gweld bywyd fel rhywbeth cyflawn, dim ffafrio gwerthoedd (daioni) yn fympwyol, mae daioni sylfaenol yn berthnasol i bawb yn ddiwahân, peidiwch â datblygu obsesiwn â phroject penodol, defnyddiwch ymdrech er mwyn gwella, cynlluniwch eich gweithredoedd er mwyn cyflawni'r daioni mwyaf posibl, peidiwch byth ag achosi niwed i ddaioni sylfaenol, meithrin daioni er lles pawb yn y gymuned a gweithredu'n unol â'ch cydwybod a'ch awdurdod eich hun); daioni er lles pawb a'r angen am awdurdod.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser, a chan athroniaeth crefydd.<br><br>Trosolwg Bernard Hoose o’r ddadl Gyfranoliaeth:<br><br>Cymysgedd o'r Ddeddf Naturiol, moeseg ddeontolegol / teleolegol; gwireb Gyfrannol ('nid yw mynd yn erbyn egwyddor byth yn iawn heblaw bod rheswm cyfrannol yn bodoli i gyfiawnhau'r weithred'); y gwahaniaeth rhwng gweithred foesol ddrwg (gweithred anfoesol) a drygioni cyn-foesol/ontig; y gwahaniaeth rhwng gweithred dda (gweithred sy'n dilyn y rheol foesol) a gweithred gywir (gweithred nad yw'n weithred dda o reidrwydd, ond sy'n cyflawni y lleiaf o ddau ddrwg); cyfranoledd yn seiliedig ar agape.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Deddf Naturiol Finnis a Chyfranoliaeth: cymhwyso'r ddamcaniaeth<br><br>Cymhwyso Deddf Naturiol Finnis a Chyfranoliaeth at y ddau fater a restrir isod:<br><br>1. mudo<br>2. y gosb eithaf</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><br>• A yw Deddf Naturiol Finnis yn dderbyniol yn y gymdeithas gyfoes.<br>• I ba raddau y mae Cyfranoliaeth yn hyrwyddo ymddygiad anfoesol.<br>• A yw Finnis a/neu Gyfranoliaeth yn darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau moesol i gredinwyr a/neu anghredinwyr.<br>• Cryfderau a gwendidau Deddf Naturiol Finnis a/neu Gyfranoliaeth.<br>• Effeithiolrwydd Deddf Naturiol Finnis a/neu Gyfranoliaeth wrth ymdrin â materion moesegol.<br>• I ba raddau y mae Deddf Naturiol Finnis yn well moeseg na Chyfranoliaeth neu i'r gwrthwyneb.</td></tr>
</table>

## Uned 4: Crefydd a Moeseg

<table>
<tr><td colspan="2" align="center">Thema 3: Penderfyniaeth</td></tr>
<tr><td colspan="2" align="center">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</td></tr>
<tr><td>A.</td><td>Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser, a chan athroniaeth crefydd.<br><br>Cysyniadau crefyddol rhagordeiniad, gan gyfeirio at ddysgeidiaeth:<br><br>Awstin Sant:<br>Athrawiaeth y Pechod Gwreiddiol: swyddogaeth trachwant, y ddynoliaeth fel "lwmp o bechod" (massa peccati), natur ddynol sy'n 'rhydd' i bob pwrpas (liberium abitrium), colli ein rhyddid dynol (libertas) o achos ein natur bechadurus, gras Duw a maddeuant i'r etholedig / seintiau.<br><br>John Calvin:<br>Athrawiaeth Ethol: grym absoliwt Duw, natur lygredig bodau dynol, yr Etholedig a'r Gwrthodedig, ethol diamod, iawn cyfyngedig, gras anorchfygol a dyfalbarhad yr etholedig.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser, a chan athroniaeth crefydd.<br><br>Cysyniadau penderfyniaeth:<br><br>Penderfyniaeth galed: athronyddol (John Locke – mae ewyllys rydd yn rhith, cydweddiad y dyn yn yr ystafell wely), gwyddonol (penderfyniaeth fiolegol – mae ymddygiad dynol wedi'i reoli gan enynnau'r unigolyn), seicolegol (Ivan Pavlov – cyflyru clasurol).<br>Penderfyniaeth feddal: Thomas Hobbes (achosion mewnol ac allanol), Alfred J. Ayer (A.J. Ayer) – (gweithredoedd a achosir yn erbyn gweithredoedd gorfodol).</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser, a chan athroniaeth crefydd.<br><br>Goblygiadau rhagordeiniad / penderfyniaeth:<br><br>Goblygiadau penderfyniaeth (caled a meddal) ar gyfer cyfrifoldeb moesol: gwerth syniadau dynol o'r hyn sy'n gywir, yn anghywir a gwerth moesol, y gwerth mewn beio asiantau moesol am weithredoedd anfoesol, defnyddioldeb moeseg normadol.<br><br>Goblygiadau rhagordeiniad ar gyfer cred grefyddol: y cysylltiad rhwng Duw a drygioni, y goblygiadau ar gyfer natur hollalluog a hollgariadus Duw, y defnydd o weddi a bodolaeth gwyrthiau.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><br>• Ystyried a ddylai credinwyr crefyddol dderbyn rhagordeiniad.<br>• I ba raddau y mae'r ddynoliaeth wedi'i rhagordeinio gan Dduw.<br>• I ba raddau y mae penderfyniaeth athronyddol, wyddonol a/neu seicolegol yn arddangos nad oes gan y ddynoliaeth ewyllys rydd.<br>• Cryfderau a gwendidau penderfyniaeth galed a/neu feddal.<br>• A yw cyfrifoldeb moesol yn rhith.<br>• I ba raddau y mae rhagordeiniad yn dylanwadu ar ein dealltwriaeth o Dduw.</td></tr>
</table>

**Uned 4: Crefydd a Moeseg**

| **Thema 4: Ewyllys Rydd** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser, a chan athroniaeth crefydd.**<br><br>**Cysyniadau crefyddol ewyllys rydd, gan gyfeirio at ddysgeidiaeth:**<br><br>***Pelagius:***<br>Swyddogaeth y pechod gwreiddiol; y ddynoliaeth yn aeddfedu ar lun a delw Duw ac yn derbyn cyfrifoldeb ewyllys rydd; defnyddio ewyllys rydd i ddilyn deddfau Duw; rôl gras mewn iachawdwriaeth.<br><br>***Arminius:***<br>Gwadu safbwynt Calvin ar ragordeiniad, effaith y pechod gwreiddiol ar ewyllys rydd, rhan gras 'ragflaenol' Duw (yr Ysbryd Glân) yn caniatáu i bobl arfer ewyllys rydd; yr Etholedig a'r posibilrwydd o wrthod gras Duw; ethol credinwyr yn amodol ar ffydd. |
| **B.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn athroniaeth crefydd dros amser.**<br><br>**Cysyniadau rhyddewyllysiaeth:**<br><br>Athronyddol (*Jean Paul Sartre*: nid oes gan ddyn ryddid i beidio â bod yn rhydd, cydweddiad y gweinydd), gwyddonol (tystiolaeth wyddonol *Angela Sirigu* bod yr ymennydd yn caniatáu ar gyfer ewyllys rydd), seicolegol (*Carl Rogers*: ymagwedd ddyneiddiol, hunan-wireddu). |
| **C.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio moeseg wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser, a chan athroniaeth crefydd.**<br><br>**Goblygiadau rhyddewyllysiaeth ac ewyllys rydd:**<br><br>Goblygiadau rhyddewyllysiaeth ar gyfer cyfrifoldeb moesol: gwerth syniadau dynol o'r hyn sy'n gywir, yn anghywir a gwerth moesol, y gwerth mewn beio asiantau moesol am weithredoedd anfoesol, defnyddioldeb moeseg normadol.<br><br>Goblygiadau ewyllys rydd ar gyfer cred grefyddol: y cysylltiad rhwng Duw a drygioni, y goblygiadau ar gyfer natur hollalluog a hollraslon Duw, y defnydd o weddi a bodolaeth gwyrthiau. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br>• Pa mor argyhoeddiadol yw'r safbwyntiau crefyddol ar ewyllys rydd.<br>• I ba raddau y mae gan unigolyn ddewis rhydd.<br>• I ba raddau y mae safbwyntiau athronyddol, gwyddonol a/neu seicolegol ar ryddewyllysiaeth yn arwain yn anorfod at bobl yn derbyn rhyddewyllysiaeth.<br>• I ba raddau y dylai asiantau moesol rhydd ddilyn moeseg normadol.<br>• I ba raddau y mae ewyllys rydd yn golygu bod y defnydd o weddi yn amherthnasol.<br>• I ba raddau y gellir cysoni credoau'n ymwneud ag ewyllys rydd â chredoau'n ymwneud â rhagordeiniad. | |

# 2.5 Safon Uwch Uned 5

**Uned 5: Athroniaeth Crefydd**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster
90 marc

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o themâu athronyddol sylfaenol, yn amrywio o ddadleuon dros fodolaeth Duw i'r defnydd o iaith grefyddol.

**Mae'r uned hon yn cynnwys astudiaeth o'r cynnwys canlynol:**

- materion a chwestiynau athronyddol a godir gan grefydd a chred ynghylch bodolaeth neu anfodolaeth Duw, duwiau neu realiti eithaf
- natur a dylanwad profiad crefyddol
- heriau i gred grefyddol
- iaith a meddylfryd athronyddol trwy gysyniadau arwyddocaol a gweithiau meddylwyr allweddol, a welir mewn materion neu ddadleuon ym maes athroniaeth crefydd
- sut mae safbwyntiau ar iaith grefyddol wedi newid dros amser; yr heriau a gyflwynir gan y ddadl ynghylch gwirio/anwirio a damcaniaeth gemau ieithyddol ynghylch a ddylid ystyried iaith grefyddol yn wybyddol neu'n anwybyddol; ac ystyried o leiaf ddau safbwynt gwahanol am ddysgeidiaeth grefyddol a ddeallir yn symbolaidd a chydweddiadol
- cymharu'r syniadau arwyddocaol a gyflwynwyd yng ngweithiau o leiaf ddau ysgolhaig allweddol a ddewiswyd o faes athroniaeth crefydd, a datblygiadau yn y ffordd mae'r syniadau hyn yn cael eu cymhwyso at faterion yn ymwneud â chrefydd a chred
- sut mae athroniaeth crefydd wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser, a chan foeseg neu ddehongliad testunol.

Mae'r gridiau canlynol yn enghraifft o sut mae'r cynnwys gofynnol wedi'i ddatblygu mewn modd clir a chryno yn bedair thema:

**Uned 5: Athroniaeth Crefydd**

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

| **Thema 1: Heriau i gred grefyddol (rhan 2)** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser.**<br><br>**Cred grefyddol fel cynnyrch y meddwl dynol – *Sigmund Freud*:** crefydd fel rhith a/neu niwrosis gan gyfeirio at niwrosis cyffredinol; llu gwreiddiol; cymhleth Oedipws; cyflawni dymuniadau ac ymateb yn erbyn diymadferthedd.<br><br>Tystiolaeth gefnogol gan gyfeirio at ailgyfeirio cymhlethion euogrwydd a chyfeirio at ddyheadau greddfol sy'n deillio o sail esblygiadol (*Charles Darwin*).<br><br>Heriau gan gynnwys diffyg tystiolaeth anthropolegol ar gyfer llu gwreiddiol; dim tystiolaeth seicolegol gadarn i gefnogi cymhleth Oedipws hollgyffredinol; mae'r sail dystiolaeth yn rhy gul. |
| **B.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser.**<br><br>**Cred grefyddol fel cynnyrch y meddwl dynol – *Carl Jung*:** mae crefydd yn angenrheidiol ar gyfer twf personol gan gyfeirio at: anymwybod cyffredinol; ymunigoli; archdeipiau; y Duw oddi mewn.<br><br>Tystiolaeth gefnogol gan gynnwys cydnabod bod crefydd yn ffynhonnell o gysur, a hyrwyddo meddylfryd personol a chymdeithasol cadarnhaolyn deillio o gred grefyddol.<br><br>Heriau gan gynnwys diffyg tystiolaeth empirig o gysyniadau Jungaidd a safbwyntiau lleihaol yn ymwneud â chred grefyddol yn deillio o dderbyn syniadau Jung. |
| **C.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser.**<br><br>Materion yn ymwneud â gwrthod neu grefydd – Atheïstiaeth (Anffyddiaeth)<br><br>Gwrthod y gred mewn duwdodau; y gwahaniaeth rhwng agnosticiaeth ac atheïstiaeth; twf Atheïstiaeth Newydd (gwrth-theïstiaeth); ei phrif feirniadaethau o grefydd: cred ddi-feddwl; safbwynt byd-eang plentynnaidd; mae'n llesteirio cynnydd gwyddonol.<br><br>Ymatebion crefyddol i her Atheïstiaeth Newydd: grwpiau crefyddol yn gwrthod honiadau dilynwyr Atheïstiaeth Newydd sy'n dweud nad yw gwyddoniaeth a chrefydd yn cydweddu â'i gilydd; cynnydd mewn gweithgarwch crefyddol ffwndamentalaidd yn ymwneud â moesoldeb a'r gymuned; cynnydd ym mhresenoldeb apolegwyr crefyddol yn y cyfryngau. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• I ba raddau y gellir ystyried mai niwrosis yw cred grefyddol.<br>• Pa mor ddigonol yw esboniad *Freud* o gred grefyddol.<br>• I ba raddau yr oedd *Jung* yn fwy cadarnhaol na *Freud* am y syniad o Dduw.<br>• Effeithiolrwydd ymagweddau empirig o ran beirniadu safbwyntiau Jungaidd ar grefydd.<br>• Llwyddiant dadleuon atheïstiaid yn erbyn cred grefyddol.<br>• I ba raddau y mae ymatebion crefyddol i Atheïstiaeth Newydd wedi bod yn llwyddiannus. | |

**Uned 5: Athroniaeth Crefydd**

| **Thema 2: Profiad crefyddol (rhan 2)** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser.**<br><br>**Dylanwad profiad crefyddol ar arferion crefyddol a ffydd:**<br><br>Gwerth i'r gymuned grefyddol yn cynnwys: cadarnhad o system gred; hyrwyddo system gwerth ffydd; cryfhau cydlyniad cymuned grefyddol.<br><br>Gwerth i'r unigolyn yn cynnwys adfer ffydd; cryfhau ffydd yn wyneb gwrthwynebiad; adnewyddu ymrwymiad i ddelfrydau ac athrawiaethau crefyddol. |
| **B.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser.**<br><br>**Gwyrthiau – diffiniadau:**<br><br>*Sant Thomas Aquinas* (gwyrthiau yn wahanol i'r drefn arferol), *David Hume* (yn groes i ddeddf natur), *Roy F. Holland (R. F. Holland)* (gwyrth amodoldeb), *Richard Swinburne* (arwyddocâd crefyddol).<br><br>Ystyried rhesymau pam mae credinwyr yn derbyn bod gwyrthiau'n digwydd: tystiolaeth o destunau cysegredig; cadarnhad o draddodiadau ffydd; profiad personol. |
| **C.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser.**<br><br>**Astudiaeth gymharol o waith dau ysgolhaig allweddol o fewn ac oddi allan i'r traddodiad Cristnogol, a'u safbwyntiau cyferbyniol ar bosibilrwydd bodolaeth gwyrthiau:**<br><br>*David Hume* – ei amheuon ynglŷn â gwyrthiau gan gynnwys ei heriau i gred yn seiliedig ar dystiolaeth; hygrededd tystion; pobl sydd â thuedd i gredu; honiadau ffydd sy'n tueddu i wrthddweud ei gilydd.<br><br>*Richard Swinburne* – amddiffyn gwyrthiau, gan gynnwys ei ddiffiniadau o ddeddfau naturiol, a'i ymateb yn gwrth-ddweud dadleuon Hume yn ymwneud â honiadau ffydd sy'n tueddu i wrthddweud ei gilydd a hygrededd tystion. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Effaith profiadau crefyddol ar gredoau ac arferion crefyddol.<br>• A yw cymunedau crefyddol yn gwbl ddibynnol ar brofiadau crefyddol.<br>• Pa mor ddigonol yw'r gwahanol ddiffiniadau o wyrthiau.<br>• I ba raddau y gellir ystyried bod y gwahanol ddiffiniadau o wyrthiau yn gwrth-ddweud ei gilydd a'u bod felly yn methu â chefnogi traddodiadau crefyddol.<br>• Effeithiolrwydd yr heriau i gredu mewn gwyrthiau.<br>• I ba raddau y gellir derbyn bod ymatebion *Swinburne* i *Hume* yn ddilys. | |

**Uned 5: Athroniaeth Crefydd**

| | |
|---|---|
| **Thema 3: Iaith grefyddol (rhan 1)** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Problemau cynhenid iaith grefyddol:**<br><br>Cyfyngiadau ieithyddol ar gyfer cysyniadau traddodiadol o Dduw, er enghraifft bod anfeidraidd ac oesol; her i destunau cysegredig a datganiadau crefyddol ar y sail eu bod yn annealladwy; yr her nad yw iaith grefyddol yn sylfaen nac yn brofiad cyffredinol a rennir; y gwahaniaeth rhwng iaith wybyddol ac iaith anwybyddol. |
| **B.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn moeseg dros amser.**<br><br>**Iaith grefyddol yn wybyddol (safbwynt crefyddol traddodiadol) ond yn ddiystyr (safbwynt Positifwyr Rhesymesol):**<br><br>Positifiaeth Resymegol – Gwirio gan *Alfred J. Ayer (A.J. Ayer)* – iaith grefyddol foesegol yn ddiystyr; nid oes unrhyw fodd y gallem ni wirio a yw'r gosodiadau (e.e. mae Duw yn dda, mae llofruddio yn anghywir) yn gywir neu'n anghywir; anwirio – ni all unrhyw beth rwystro'r gred (Antony Flew).<br><br>Beirniadaeth o wirio: ni ellir gwirio'r egwyddor wirio ei hun; ni ellir gwirio digwyddiadau hanesyddol; datganiadau gwyddonol hollgyffredinol; mae'r cysyniad o wirio eschatolegol yn gwrth-ddweud hyn.<br><br>Beirniadaeth o anwirio: *Richard Hare – bliks* (mae'r ffordd y mae person yn gweld y byd yn rhoi ystyr iddynt, hyd yn oed os nad yw pobl eraill yn rhannu'r un safbwynt); *Basil Mitchell* – y partisan a'r dieithryn (gall rhai pethau fod yn ystyrlon hyd yn oed os nad oes modd eu hanwirio); *Richard Swinburne* – teganau yn y cwpwrdd (mae'r cysyniad yn ystyrlon er nad oes modd anwirio'r datganiad). |
| **C.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser.**<br><br>**Iaith grefyddol yn anwybyddol a chydweddiadol:**<br><br>Cyfrannedd a phriodoli *(Sant Thomas Aquinas)* a goleddfu a datgelu *(Ian Ramsey)*.<br><br>Heriau gan gynnwys i ba raddau y gall cydweddiadau gynnig mewnwelediad ystyrlon i iaith grefyddol. Ystyried sut y gellir defnyddio'r ddau safbwynt hwn *(Aquinas/Ramsey)* fel cymorth er mwyn deall dysgeidiaeth grefyddol. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Y datrysiadau a gyflwynir gan athronwyr crefyddol ar gyfer y problemau cynhenid sy'n codi o ddefnyddio iaith grefyddol.<br>• Cyd-destun penodol cred grefyddol er mwyn deall iaith grefyddol.<br>• Pa mor berswadiol yw dadleuon sy'n honni bod iaith grefyddol naill ai'n llawn ystyr neu'n ddiystyr.<br>• I ba raddau y dylid derbyn bod Positifiaeth Resymegol yn darparu maen prawf dilys o ran pennu ystyr pan ddefnyddir iaith grefyddol.<br>• I ba raddau y mae'r heriau i Bositifiaeth Resymegol yn darparu dadleuon argyhoeddiadol i anghredinwyr crefyddol.<br>• A yw dehongliadau anwybyddol yn ymateb dilys i'r heriau i ystyr iaith grefyddol. | |

**Uned 5: Athroniaeth Crefydd**

| **Thema 4: Iaith grefyddol (rhan 2)** | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| **A.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser.**<br><br>**Iaith grefyddol yn anwybyddol ac yn symbolaidd:**<br><br>Swyddogaeth symbolau (*John Randall*); Duw fel yr hyn sy'n bwysig i ni yn y pen draw (*Paul Tillich*).<br><br>Heriau gan gynnwys a yw symbol yn ddigonol neu'n cynnig y mewnwelediad cywir. Ystyried sut gellir defnyddio'r ddau safbwynt hwn (*Randall/Tillich*) i helpu i ddeall dysgeidiaeth grefyddol. |
| **B.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser.**<br><br>**Iaith grefyddol yn anwybyddol ac yn fytholegol:**<br><br>Ffurf gymhleth ar iaith fytholegol sy'n cyfathrebu gwerthoedd a mewnwelediad i bwrpas bodolaeth. Tystiolaeth gefnogol – mythau mewn amrywiol ffurfiau er mwyn cyfleu ystyr: mythau'r creu; mythau daioni yn erbyn drygioni; mythau arwrol. Mythau yn gymorth i oresgyn ofn o'r hyn sy'n ddieithr; mythau fel ffordd effeithiol o drosglwyddo gwerthoedd crefyddol, cymdeithasol a moesegol.<br><br>Heriau: problem mythau sy'n cystadlu â'i gilydd; mae ystyron mythau yn newid gydag amser am eu bod yn adlewyrchu gwerthoedd cymdeithas fel lluniadau cymdeithasol; dadfytholegu mythau yn arwain at amrywiol ddehongliadau, mae mythau yn aml yn anghydnaws â dealltwriaeth wyddonol o'r byd. |
| **C.** | **Cyswllt synoptig: sut mae astudio athroniaeth wedi dylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol dros amser.**<br><br>**Iaith grefyddol fel gêm ieithyddol:**<br><br>Ystyrlon i bobl sy'n cymryd rhan yn yr un gêm ieithyddol *(Ludwig Wittgenstein)*.<br><br>Tystiolaeth gefnogol – ffurf anwybyddol ar iaith yn darparu ystyr i'r sawl sy'n cymryd rhan mewn gêm ieithyddol; ystyried y defnydd o iaith yn hytrach nag ystyr; mae gemau ieithyddol yn cydweddu â damcaniaeth cydlyniad gwirionedd; iaith grefyddol fel modd o fynegi cred.<br><br>Heriau gan gynnwys gwrthod unrhyw osodiadau cywir ym maes crefydd y gellir eu gwirio mewn modd empirig; nid yw'n caniatáu ar gyfer sgyrsiau ystyrlon rhwng gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr iaith; nid yw'n darparu ystyr digonol ar gyfer y gair 'Duw'. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• Effeithiolrwydd y termau anwybyddol, cydweddiadol a mytholegol fel atebion i broblemau iaith grefyddol.<br>• Perthnasedd materion yn ymwneud â iaith grefyddol yn yr 21ain ganrif.<br>• I ba raddau y mae gemau ieithyddol yn darparu ffordd addas o ddatrys problemau'n ymwneud â iaith grefyddol.<br>• A ellir cytuno bod gan iaith symbolaidd ystyr digonol fel ffurf ar iaith.<br>• I ba raddau y mae gwaith *Randall* a *Tillich* yn darparu ymateb addas i her Positifiaeth Resymegol.<br>• A oes mwy o gryfderau na gwendidau yn perthyn i gemau ieithyddol. | |

# 2.6 Safon Uwch Uned 6

**Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd)**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o’r cymhwyster
90 marc

Gall dysgwyr Safon Uwch sy'n astudio Uned 1 Opsiwn A: Cristnogaeth ar gyfer UG astudio **naill ai** Uned 3 Opsiwn A: Cristnogaeth **neu** Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd) ar gyfer Safon Uwch.

Mae'r uned hon yn gyfle i ddysgwyr wneud astudiaeth fanwl ac eang o faterion sylfaenol, yn amrywio o safbwyntiau ysgolheigion modern ar adroddiadau'r Beibl o wyrthiau Iesu i'w safbwyntiau ar lenyddiaeth Apocalyptaidd.

**Mae'r uned hon yn cynnwys astudiaeth o’r cynnwys canlynol:**

- cyfieithiadau o destunau dethol o waith crefyddol penodol, corpws o destun cysegredig neu ysgrythur:
    - ystyried ystyr y deunydd, ei gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol
    - ei nodweddion llenyddol, pwy yw'r awdur a'r gynulleidfa
    - ei berthynas â thestunau a/neu ffynonellau eraill o ddoethineb ac awdurdod o'r grefydd
- ysgolheictod a sylwadau beirniadol cyfoes yn cynnwys gwahanol ymagweddau cyfoes, yn grefyddol ac anghrefyddol, at y testun neu'r corpws sylfaenol, a'r rhagdybiaethau crefyddol, diwylliannol neu ddeallusol sy'n sail iddynt
- materion sy'n codi o greu, trosglwyddo, dehongli a chyfieithu'r testunau
- dulliau a methodoleg dehongli
- yr heriau gwyddonol a hanesyddol-feirniadol i awdurdod testunau ac ymatebion crefyddol i'r rhain
- sut mae dehongliadau testunol wedi dylanwadu ar, a chael eu dylanwadu gan ddatblygiadau mewn athroniaeth crefydd, moeseg neu feddylfryd crefyddol dros amser (fel y nodwyd uchod ar gyfer astudiaeth systematig o grefydd).

Mae'r gridiau canlynol yn enghraifft o sut mae'r cynnwys gofynnol wedi'i ddatblygu mewn modd clir a chryno yn bedair thema:

## Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd)

Nodir yn Adran 1.5 y dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd i ystyried persbectif Cymreig lle bo'n briodol.

<table>
<tr><th colspan="2">Thema 1: Llenyddiaeth y Testament Newydd – Damhegion</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</th></tr>
<tr><td colspan="2">Y testunau gosod i'w hastudio ar gyfer y thema hon yw Dameg y Mab Colledig (Luc 15:11-32); Dameg y Wledd Briodas (Mathew 22:1-10) / Dameg y Wledd Fawr (Luc 14:16-24); a Dameg yr Heuwr (Marc 4:1-20).</td></tr>
<tr><td>A.</td><td>Damhegion – mathau a nodweddion:<br><br>Y mathau o ddamhegion yn y Testament Newydd (John Dominic Crossan, The Power of Parable: How fiction by Jesus became fiction about Jesus – dosbarthu damhegion fel damhegion ar ffurf posau, damhegion enghreifftiol, damhegion ymosodol a damhegion heriol); prif nodweddion llenyddol y damhegion (mae damhegion yn gryno; mae ganddynt un persbectif a phrin yw'r disgrifiadau; maent yn ailadroddus; mae'r pwyslais ar ddiwedd y stori; ac mae ganddynt gynulleidfa sy'n dod i gasgliad); sut gellir dosbarthu'r testunau gosod i'w hastudio.</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Damhegion – pwrpas a dehongliadau:<br><br>Pwrpas damhegion y Testament Newydd (Robert H. Stein, An Introduction to the Parables of Jesus – mae damhegion yn defnyddio straeon daearol er mwyn datgelu gwirioneddau nefol a moesol mewn modd effeithiol).<br>(Cyswllt synoptig: sut mae dehongliadau testunol wedi dylanwadu ar, a chael eu dylanwadu gan ddatblygiadau mewn moeseg neu feddylfryd crefyddol dros amser.)<br><br>Roedd Iesu'n defnyddio damhegion er mwyn cuddio'i ddysgeidiaeth oddi wrth y sawl oedd 'ar y tu allan'; roedd Iesu'n defnyddio damhegion i dawelu meddyliau aelodau ei gynulleidfa er mwyn iddynt wrando.<br>Dulliau o ddehongli'r damhegion (alegorïaidd, trosiadol, llythrennol); sut y gellir cymhwyso'r dulliau hyn at y testunau gosod i'w hastudio. (Cyswllt synoptig: sut mae dehongliadau testunol wedi dylanwadu ar, a chael eu dylanwadu gan ddatblygiadau mewn athroniaeth crefydd dros amser.)</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Astudiaeth agos o destunau'r Testament Newydd (damhegion):<br><br>Astudiaeth agos o'r testunau gosod, gan ddadansoddi eu tarddiadau hanesyddol; eu strwythur; geiriau neu ymadroddion allweddol y damhegion; a negeseuon diwinyddol posibl y damhegion.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<br><br>• I ba raddau y gellir galw Dameg y Mab Colledig (Luc 15:11-32) yn 'ddameg enghreifftiol'.<br>• A oes angen i ddameg gynnwys pob un o'r prif nodweddion er mwyn ei hystyried yn ddameg.<br>• I ba raddau y mae'r damhegion yn ymwneud mwy â chred a gobaith nag ymddygiad moesol. (Cyswllt synoptig: sut mae dehongliadau testunol wedi dylanwadu ar, a chael eu dylanwadu gan ddatblygiadau mewn moeseg neu feddylfryd crefyddol dros amser.)<br>• I ba raddau y dylid dehongli damhegion Iesu.<br>• I ba raddau mai gwaith y gymuned Gristnogol gynnar, yn hytrach na’r Iesu hanesyddol, yw'r damhegion.<br>• A oes gan y damhegion werth diwinyddol heddiw.</td></tr>
</table>

## Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd)

| | |
|---|---|
| **Thema 2: Llenyddiaeth y Testament Newydd – Gwyrthiau** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| Y testunau gosod i'w hastudio ar gyfer y thema hon yw Iacháu Gwas Canwriad (Mathew 8:5-13; Luc 7:1-10); hanes y dyn oedd ym meddiant Cythreuliaid yn Gerasa (Marc 5:1-20); a hanes Porthi'r Pum Mil (Marc 6:30-44; Luc 9:10-17). | |
| **A.** | **Gwyrthiau – mathau a nodweddion**<br><br>Mathau o wyrthiau (bwrw allan gythreuliaid; iacháu; atgyfodi'r meirw; gwyrthiau natur; gwyrthiau gwybodaeth); nodweddion adroddiadau o wyrthiau yn y Testament Newydd (mae'r gwyrthiau'n weithredol yn syth; maent yn aml wedi'u perfformio'n gyhoeddus; gallent achosi i'r unigolyn dan sylw foliannu Duw; nid oes angen i'r unigolyn dan sylw gredu yn Nuw o reidrwydd; ac roedd y gwyrthiau wedi'u cydnabod gan elynion Iesu); sut mae'r adroddiadau o wyrthiau yn y Testament Newydd yn bodloni diffiniadau athronyddol o wyrthiau. **(Cyswllt synoptig: sut mae dehongliadau testunol wedi dylanwadu ar, a chael eu dylanwadu gan ddatblygiadau mewn athroniaeth crefydd dros amser.)** |
| **B.** | **Gwyrthiau – pwrpas a dehongliadau:**<br><br>Pwrpas y gwyrthiau/testunau'r gwyrthiau yn y Testament Newydd (gan gyfeirio at *Keith Warrington*, *Miracles in the Gospels: What do they teach us about Jesus?* – mae'r gwyrthiau, fel y'u cynrychiolir yn y Testament Newydd, yn dangos statws Iesu a'i awdurdod o ran adfer safle alltudion, a bod Iesu wedi cychwyn teyrnas Dduw ac yn cynnig perthynas â Duw); dehongli adroddiadau'r gwyrthiau (yn llythrennol neu'n drosiadol). **(Cyswllt synoptig: sut mae dehongliadau testunol wedi dylanwadu ar, a chael eu dylanwadu gan ddatblygiadau mewn athroniaeth crefydd dros amser.)** |
| **C.** | **Astudiaeth agos o destunau'r Testament Newydd (gwyrthiau):**<br><br>Astudiaeth agos o'r testunau gosod, gan ddadansoddi eu lleoliadau llenyddol; y negeseuon diwinyddol posibl yn nhestunau'r gwyrthiau; a'r heriau hanesyddol i adroddiadau'r gwyrthiau (gan gyfeirio at *Bart Ehrman*, *Jesus: Apocalyptic Prophet of the New Millennium*). |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• A oes gwahaniaeth rhwng 'gweithiau', 'arwyddion', 'pwerau' a 'rhyfeddodau' y Testament Newydd a dealltwriaeth fodern o'r hyn yw 'gwyrthiau'.<br>• I ba raddau y mae'r gwyrthiau a astudir yn arddangos prif nodweddion gwyrthiau.<br>• A ddylid dehongli'r adroddiadau o wyrthiau mewn modd llythrennol.<br>• I ba raddau yr oedd gwyrthiau yn rhan bwysig o weinidogaeth Iesu.<br>• Dilysrwydd hanesyddol yr adroddiadau o wyrthiau Iesu.<br>• I ba raddau yr oedd gwyrthiau Iesu yn ddatganiad radical. | |

## Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd)

<table>
<tr><td colspan="2">Thema 3: Llenyddiaeth y Testament Newydd – Y Llythyrau (1 Pedr)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt</td></tr>
<tr><td colspan="2">Y testunau gosod i'w hastudio ar gyfer y thema hon yw 1 Pedr 1:1-2; 2:11-25; 3:1-6; 4; 5:12-14.</td></tr>
<tr><td>A.</td><td>Y Llythyrau (1 Pedr) – yr awdur a'r gynulleidfa:<br><br>Gwahanol safbwyntiau ar bwy yw awdur 1 Pedr a rôl Silvanus (Wayne A. Grudem, 1 Peter – ysgrifennwyd y llythyr gan Pedr a throsglwyddwyd ef gan Silvanus; David G. Horrell, 1 Peter – mae'n debygol mai Silvanus neu un o gefnogwyr Pedr, neu grŵp Cristnogol diweddarach, a ysgrifennodd y llythyr) a'r rhesymau dros gredu hyn; y dadleuon o blaid ac yn erbyn darlleniad Iddewig-Gristnogol (yn hytrach na darlleniad Cristnogol y Cenhedloedd neu ddarlleniad cymysg).</td></tr>
<tr><td>B.</td><td>Y Llythyrau (1 Pedr) – eu pwrpas a'u lle yn y Testament Newydd<br><br>Gwahanol awgrymiadau ynglŷn â phwrpas 1 Pedr (er mwyn annog y gynulleidfa i ymddiried yn Nuw ac i fod yn ufudd iddo; er mwyn cynorthwyo'r gynulleidfa i ymdopi â dioddefaint; er mwyn annog y gynulleidfa i fod yn ymostyngol); yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng 1 Pedr a llythyrau eraill y Testament Newydd.</td></tr>
<tr><td>C.</td><td>Astudiaeth agos o destunau'r Testament Newydd (1 Pedr):<br><br>Astudiaeth agos o'r testunau gosod, gan ddadansoddi eu tarddiadau hanesyddol; eu strwythur; geiriau neu ymadroddion allweddol y llythyr; a negeseuon diwinyddol posibl y llythyr.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:<ul><li>A yw amheuon ynghylch awdur 1 Pedr yn effeithio ar neges y llythyr.</li><li>A oedd awdur 1 Pedr yn ysgrifennu ar gyfer Cristnogion Iddewig.</li><li>I ba raddau y mae 1 Pedr yn unigryw fel llythyr Testament Newydd.</li><li>I ba raddau y mae'r negeseuon ynghylch ymostwng yn 1 Pedr yn broblem i ddarllenwyr cyfoes.</li><li>Ai dioddefaint yw prif thema 1 Pedr.</li><li>I ba raddau y mae 1 Pedr yn dibynnu ar ddelweddau a'r geiriad o'r Beibl Hebraeg (Tanakh / yr Hen Destament).</li></ul></td></tr>
</table>

## Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd)

| | |
|---|---|
| **Thema 4: Llenyddiaeth y Testament Newydd – Apocalyptaidd** | |
| **Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt** | |
| Y testunau gosod i'w hastudio ar gyfer y thema hon yw Datguddiad 1, 6, 21. | |
| **A.** | **Llenyddiaeth apocalyptaidd – diffiniadau a nodweddion:**<br><br>Diffinio 'llenyddiaeth apocalyptaidd'; categori 'proffwydoliaeth apocalyptaidd'; categoreiddio y Datguddiad fel llyfr apocalyptaidd (gan gyfeirio at *Richard Bauckham*, *The Theology of the Book of Revelation* [yn enwedig pennod 1]); nodweddion llenyddiaeth apocalyptaidd y Testament Newydd (y weithred ddwyfol o ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol; ystyried bod datrysiad i broblem yn dod o rywle y tu allan i hanes dynol; gwahaniaethau rhwng apocalyptaidd ac eschatolegol). |
| **B.** | **Llenyddiaeth apocalyptaidd – pwrpasau a dehongliadau:**<br><br>Pwrpasau posibl llenyddiaeth apocalyptaidd y Testament Newydd (er mwyn disgrifio'r dyfodol; er mwyn cynnig gobaith i gredinwyr; er mwyn ymddwyn fel catharsis); a ddylid dehongli llenyddiaeth apocalyptaidd y Testament Newydd mewn modd llythrennol, trosiadol neu alegorïaidd. **(Cyswllt synoptig: sut mae dehongliadau testunol wedi dylanwadu ar, a chael eu dylanwadu gan ddatblygiadau mewn athroniaeth crefydd dros amser.)**<br><br>Y problemau moesol sy'n codi wrth ddehongli'r Datguddiad (gan gyfeirio at *David L. Barr*, *Reading the Book of Revelation*). **(Cyswllt synoptig: sut mae dehongliadau testunol wedi dylanwadu ar, a chael eu dylanwadu gan ddatblygiadau mewn moeseg neu feddylfryd crefyddol dros amser.)** |
| **C.** | **Astudiaeth agos o destunau'r Testament Newydd (Datguddiad):**<br><br>Astudiaeth agos o'r testunau gosod, gan ddadansoddi eu tarddiadau hanesyddol; eu lleoliadau llenyddol; genre; geiriau neu ymadroddion allweddol; a negeseuon diwinyddol posibl y testun. |
| **Bydd materion i'w dadansoddi a'u gwerthuso yn seiliedig ar unrhyw agwedd ar y cynnwys uchod, er enghraifft:**<br><br>• I ba raddau y gellir ystyried bod Llyfr y Datguddiad yn apocalyptaidd.<br>• A oes gwahaniaeth amlwg rhwng llenyddiaeth apocalyptaidd a llenyddiaeth eschatolegol.<br>• I ba raddau y gellir dehongli'r Datguddiad fel ffantasi dial.<br>• A yw llenyddiaeth apocalyptaidd dreisgar yn codi problemau moesegol. **(Cyswllt synoptig: sut mae dehongliadau testunol wedi dylanwadu ar, a chael eu dylanwadu gan ddatblygiadau mewn moeseg neu feddylfryd crefyddol dros amser.)**<br>• I ba raddau y mae'r Datguddiad ar ffurf llythyr at gynulleidfa benodol yn effeithio ar ei neges.<br>• I ba raddau y mae gan lenyddiaeth apocalyptaidd y Testament Newydd werth ar gyfer Cristnogion heddiw (gan gyfeirio at y Datguddiad). | |

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud y canlynol:

**AA1**

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred, yn cynnwys:

- meddylfryd a dysgeidiaeth grefyddol, athronyddol a/neu foesegol
- dylanwad credoau, dysgeidiaeth ac arferion ar unigolion, cymunedau a chymdeithasau
- achos ac arwyddocâd yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn cred, dysgeidiaeth ac arfer
- ymagweddau at astudio crefydd a chred.

**AA2**

Dadansoddi a gwerthuso agweddau ar, ac ymagweddau at grefydd a chred, yn cynnwys eu harwyddocâd, dylanwad ac astudiaeth.

**Ar gyfer pob cyfres, bydd ysgrifennu’n gywir yn cael ei asesu ym mhob ateb (yn achos pob cwestiwn sy'n gofyn am ysgrifennu estynedig) o Uned 1 i 6.**

**Mae ysgrifennu'n gywir yn ystyried defnydd yr ymgeisydd o iaith arbenigol. Mae hefyd yn ystyried sillafu, atalnodi a gramadeg yr ymgeisydd.**

**UG DWY uned orfodol = Uned 1 + Uned 2**

**Safon Uwch  Cyfanswm o DAIR uned = naill ai Uned 3, 4 a 5 neu Uned 4, 5 a 6**

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

Canrannau lefel cymhwyster cyffredinol wedi'u rhannu ar draws pob uned:

| | **Pwysoli** | **AA1** | **AA2** |
|---|---|---|---|
| UG Uned 1 (gorfodol) | 15% | 18.8% | 18.8% |
| UG Uned 2 (gorfodol) | 25% | 31.2% | 31.2% |
| **Cyfanswm ar gyfer unedau UG yn unig** | 40% | 50% | 50% |
| Safon Uwch Uned 3 (dewisol) | 20% | 11.1% | 22.2% |
| Safon Uwch Uned 4 (gorfodol) | 20% | 11.1% | 22.2% |
| Safon Uwch Uned 5 (gorfodol) | 20% | 11.1% | 22.2% |
| Safon Uwch Uned 6 (dewisol) | 20% | 11.1% | 22.2% |
| **Cyfanswm ar gyfer unedau Safon Uwch yn unig** | 60% | 33.3% | 66.7% |
| **Cyfanswm Terfynol Safon Uwch** | 100% | 40% | 60% |

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2017.

Bydd Unedau 3, 4, 5 a 6 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2018.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Nodir y codau cofrestru drosodd.

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru ar gyfer y fanyleb hon gydag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch CBAC.

<table>
<tr><th rowspan="2"></th><th rowspan="2">Teitl</th><th colspan="2">Codau cofrestru</th></tr>
<tr><th>Cyfrwng Saesneg</th><th>Cyfrwng Cymraeg</th></tr>
<tr><td rowspan="6">UG Uned 1</td><td>Cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn A: Cristnogaeth)</td><td>2120UA</td><td>2120NA</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn B: Islam)</td><td>2120UB</td><td>2120NB</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn C: Iddewiaeth)</td><td>2120UC</td><td>2120NC</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn D: Bwdhaeth)</td><td>2120UD</td><td>2120ND</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn E: Hindŵaeth)</td><td>2120UE</td><td>2120NE</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn F: Sikhiaeth)</td><td>2120UF</td><td>2120NF</td></tr>
<tr><td>UG Uned 2</td><td>Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg ac i Athroniaeth Crefydd</td><td>2120U2</td><td>2120N2</td></tr>
<tr><td rowspan="6">U2 Uned 3</td><td>Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn A: Cristnogaeth)</td><td>1120UA</td><td>1120NA</td></tr>
<tr><td>Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn B: Islam)</td><td>1120UB</td><td>1120NB</td></tr>
<tr><td>Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn C: Iddewiaeth)</td><td>1120UC</td><td>1120NC</td></tr>
<tr><td>Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn D: Bwdhaeth)</td><td>1120UD</td><td>1120ND</td></tr>
<tr><td>Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn E: Hindŵaeth)</td><td>1120UE</td><td>1120NE</td></tr>
<tr><td>Astudiaeth o Grefydd (Opsiwn F: Sikhiaeth)</td><td>1120UF</td><td>1120NF</td></tr>
<tr><td>U2 Uned 4</td><td>Crefydd a Moeseg</td><td>1120U4</td><td>1120N4</td></tr>
<tr><td>U2 Uned 5</td><td>Athroniaeth Crefydd</td><td>1120U5</td><td>1120N5</td></tr>
<tr><td>U2 Uned 6</td><td>Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd)</td><td>1120U6</td><td>1120N6</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfnewid Cymhwyster UG</td><td>2120QS</td><td>2120CS</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch</td><td>1120QS</td><td>1120CS</td></tr>
</table>

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| | | **Gradd uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysoli'r Unedau** | **Uchafswm marciau unffurf uned** | **a** | **b** | **c** | **d** | **e** |
| **UG Uned 1 Gorfodol (Pwysiad 15%)** | 75 | 60 | 53 | 45 | 38 | 30 |
| **UG Uned 2** Gorfodol (Pwysiad 25%) | 125 | 100 | 88 | 75 | 63 | 50 |
| **Safon Uwch Uned 3** Gorfodol (Pwysiad 20%) | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| **Safon Uwch Uned 4** *Dewisol* (Pwysiad 20%) | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| **Safon Uwch Uned 5** *Dewisol* (Pwysiad 20%) | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| **Safon Uwch Uned 6** *Dewisol* (Pwysiad 20%) | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a'r radd am y pwnc yn cael ei seilio ar y cyfanswm hwn.

| | | **Gradd y cymhwyster** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Uchafswm marciau unffurf** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** |
| **TAG UG** | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| **TAG Safon Uwch** | 500 | 400 | 350 | 300 | 250 | 200 |

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).



WJEC CBAC Cyf.